**Cofrestrfa Tir** Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon 2010/11

# Arloesi

# Cofrestrfa Tir
## Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon 2010/11

Adroddiad wedi'i gyflwyno i'r Senedd yn unol ag Adran 101 o Ddeddf Cofrestru Tir 2002. Cyfrifon wedi'u cyflwyno i'r Senedd yn unol ag Adran 4(6)(a) o Ddeddf Cronfeydd Masnachu'r Llywodraeth 1973 fel y'i diwygiwyd gan Ddeddf Masnachu'r Llywodraeth 1990.

Gorchmynnwyd gan Dŷ'r Cyffredin i'w argraffu ar 30 Mehefin 2011.

HC1158 Llundain: Y Llyfrfa £20.50

© Hawlfraint y Goron 2011
Gallwch ailddefnyddio'r wybodaeth hon (ac eithrio'r logos) yn rhad ac am ddim mewn unrhyw fformat neu gyfrwng, o dan delerau Trwydded Llywodraeth Agored. I weld y drwydded hon, ewch i http://www.nationalarchives.gov.uk/doc/open-government-licence/ neu e-bostiwch psi@nationalarchives.gsi.gov.uk

Os ydym wedi nodi unrhyw wybodaeth hawlfraint trydydd parti bydd rhaid i chi geisio caniatâd gan y deiliaid hawlfraint perthnasol.

Os oes ymholiadau gennych am y cyhoeddiad hwn ffoniwch Gymorth Cwsmeriaid ar 0844 892 1111 neu e-bostiwch customersupport@landregistry.gsi.gov.uk; ar gyfer ymholiadau'r wasg ffoniwch Swyddfa'r Wasg ar 0300 006 7543

Mae'r ddogfen hon ar gael i'w llwytho i lawr ar ein gwefan hefyd yn www.official-documents.gov.uk a www.cofrestrfatir.gov.uk

ISBN: 9780102971774

Argraffwyd yn y DU ar gyfer y Llyfrfa Gyfyngedig
ar ran Rheolwr Llyfrfa Ei Mawrhydi

ID 2428762 07/11

Argraffwyd ar bapur gydag o leiaf 75% o gynnwys ffibr wedi'i ailgylchu.

**Rhagair gan y Prif Gofrestrydd Tir a Phrif Weithredwr** 4

**Pwy ydym ni a beth ydym yn ei wneud** 5

**Ein gweledigaeth, pwrpas, nodau ac amcanion** 6

**Golwg ar y flwyddyn hon: cynnyrch a gwasanaeth arloesol** 7
Timau cwsmeriaid 7
Ymchwil a mewnweledIad 8
Arallgyfeirio ein busnes 9
Ychwanegu gwerth 10
Y porth i wasanaethau 11
Cyfathrebu electronig 12
Perfformiad uchel 13

**Ein perfformiad** 14
Perfformiad busnes 14
Uchafbwyntiau perfformiad 14
Pridiannau Tir a Chredydau Amaethyddol 15
Deddfwriaeth 16
Y Pwyllgor Rheolau 16
Gwybodaeth agored a llawn 16
Safonau gwasanaeth 16
Gwasanaeth Cymraeg 16
Cwynion 16
Indemniad 16
Addysg a hyfforddiant 18
Y Gwasanaeth Gwybodaeth Tir Cenedlaethol 18
Connect Direct 18
Yr Uned Ryngwladol 18
Y Gwasanaeth Gwybodaeth Tir Ewropeaidd 18

**Ein pobl** 19
Recriwtio a chadw 19
Ffeithiau a ffigurau 19
Datblygu ein pobl 19
Cymwysterau mewn Cyfraith ac Ymarfer Cofrestru Tir 19
Aelodaeth gyswllt o Sefydliad Brenhinol y Syrfewyr Siartredig 19
Arweinwyr y Dyfodol 19
Hyfforddiant mewnol 19
Amrywiaeth 20
Gweithwyr a materion cymdeithasol a chymunedol 20
Cynnwys gweithwyr 20
Gwobr i Adnoddau Dynol 21
Rheoli eiddo 21
Rheoli cyfleusterau 21
Storfeydd ffeiliau rhanbarthol 21
Rheolaeth amgylcheddol 22
Iechyd a diogelwch 22

**Adroddiad y Prif Weithredwr** 23
Bwrdd y Gofrestrfa Tir 23
Pwyllgor Archwilio'r Gofrestrfa Tir 24
Archwilwyr 24
Pensiynau 24
Taliadau 24
Prif risgiau ac ansicrwydd y busnes 24
Digwyddiadau cysylltiedig â data personol 25
Adnoddau a budd-ddeiliaid 25
Adolygiad Gweithredu ac Ariannol 26

**Cyfrifon 2010/11** 27

**Cofnod y Trysorlys** 63

**Atodiadau** 64
1 Ein perfformiad 2010/11 65
2 Datganiad recriwtio 68

# **Rhagair** Gan y Prif Gofrestrydd Tir a Phrif Weithredwr

Mae'r Gofrestrfa Tir wedi bod yn arloeswr erioed. Roedd creu'r Gofrestrfa Tir yn 1862 yn arloesol ynddo'i hun a, gyda threigl amser, mae'r corff yn sicr wedi gwireddu gweledigaeth yr Arglwydd Westbury, sef yr Arglwydd Ganghellor ar y pryd, a'i ragflaenwyr.

Yn y blynyddoedd ers hynny, rydym wedi parhau i ddatblygu fel sefydliad a gwasanaeth cyhoeddus, o ehangu cofrestru gorfodol i dwf ein rhwydwaith o swyddfeydd lleol, o gyfirifaduro'r Gofrestr Tir i gyflwyno gwasanaethau electronig.

Rydym wedi arwain newid a gwneud newid yn bosibl drwy arloesi ym maes polisi, ymarfer a thechnoleg. Mae'n gryfder sydd wedi bod yn gaffaeliad i ni yn ystod y dirwasgiad diweddar yn y farchnad eiddo, a oedd wedi ein gorfodi i symleiddio ein sylfaen costau cyn i lawer o weddill y sector cyhoeddus wneud hynny a chyflymu ein cynlluniau i drawsnewid y sefydliad.

Dros y 12 mis diwethaf mae'r gorchmynion hyn wedi ein gweld ni'n cau ein swyddfa leol yn Portsmouth, ffarwelio â channoedd o gydweithwyr gwerthfawr, rhoi nifer o'n gwasanaethau cymorth i gontractwyr allanol ac adleoli o'n Prif Swyddfa hanesyddol yn Lincoln's Inn Fields. Mae'r newidiadau hyn wedi cael eu gweithredu'n dda ac rydym ar y llwybr i gwblhau elfennau strwythurol o'n trawsnewid yn ystod y 12 mis nesaf.

Wrth gwrs mae'r rhain wedi bod yn newidiadau anodd a phoenus ond yn rhai angenrheidiol ac nid ydym wedi gwyro o'n tasg ganolog sef gwasanaethu ein cwsmeriaid, a thrwy wneud hynny, cynnal y safonau uchel yr anelwn at eu cyrraedd.

Cafwyd rhai llwyddiannau nodedig hefyd, nid lleiaf ehangu cyflym ein rhwydwaith o dimau cwsmeriaid sy'n darparu gwasanaeth arbennig i ddefnyddwyr busnes. Roedd cyflymder a chywirdeb ein cofrestriadau wedi rhagori ar ein targedau a gwnaethom yn well na'n hamcan ar gyfer cofrestriadau gwirfoddol gan bron 20 y cant. Roedd canran y trafodion a gyflawnwyd drwy sianeli electronig wedi parhau i gynyddu yn unol â'n strategaeth.

Roedd yr hinsawdd economaidd yn parhau i fod yn heriol i nifer o'n cwsmeriaid. Yn yr amgylchiadau hyn, roedd y refeniw a gynhyrchwyd o'n cynhyrchion a'n gwasanaethau add value heb gyrraedd y targed uchelgeisiol, ond roedd proffidioldeb yn well na'r disgwyl. Mae'r cynhyrchion a'r gwasanaethau add value hyn, sy'n golygu gwneud defnydd arloesol o'n data er budd cwsmeriaid, yn enghraifft o sut rydym wedi dechrau llwyddo i arallgyfeirio ein busnes.

Serch hynny, nid ydym wedi cyrraedd rhai targedau, megis safon ansawdd mewnol newydd a bodlonrwydd cyffredinol cwsmeriaid. Hefyd roeddem yn bell o gyrraedd ein targedau ar gyfer ymgysylltu â gweithwyr, sy'n fy arwain at fy mlaenoriaethau ar gyfer y flwyddyn i ddod.

Pan ges i fy mhenodi fel Prif Gofrestrydd a Phrif Weithredwr ym mis Mawrth, penderfynais mai gwella ymgysylltu fyddai un o'm tair blaenoriaeth allweddol. Does dim dwywaith, er ein bod ni ar y trywydd iawn i gyflawni'r hyn a nodwyd o ran trawsnewid ein sefydliad, mae llawer o'n pobl yn ansicr o hyd am ein dyfodol a beth allai hyn ei olygu iddyn nhw. Rwy'n benderfynol o fynd i'r afael â hyn.

Mae'r ansicrwydd hwn i'w briodoli'n rhannol i'r cwestiynau ehangach sy'n codi o Astudiaeth Ddichonoldeb y Llywodraeth ar ddyfodol y Gofrestrfa Tir a datblygiadau ar bolisi data cyhoeddus. Beth bynnag fo'r penderfyniadau terfynol ar y materion hyn, gwyddom fod mwy o newid ar y gorwel i'r sefydliad. Felly, blaenoriaeth arall yw cael pobl sy'n hyderus ein bod ni'n gallu rheoli'r newid hwnnw yn llwyddiannus.

Fy nhrydedd flaenoriaeth yw troi ein gweledigaeth newydd, sef 'Rhoi'r cwsmer, ansawdd ac arloesiad wrth wraidd gwasanaethau cofrestru tir' yn realiti. Mae ein targedau ar gyfer y flwyddyn hon yn bwriadu canolbwyntio ein hymdrechion ar wneud hynny a chyflwyno elfennau allweddol ein strategaeth cwsmeriaid.

Hoffwn weld ein pobl yn ymgysylltu mwy wrth i ni gyflawni'r targedau hyn. Os gallwn ni wneud hynny, rwy'n ffyddiog y gallwn ni ddangos, unwaith eto, bod y Gofrestrfa Tir yn sefydliad creadigol, ymatebol a blaengar sy'n ymrwymedig i roi gwerth i'n cwsmeriaid. Byddwn yn gallu edrych ymlaen yn hyderus at ein pen-blwydd yn 150 oed y flwyddyn nesaf, pa bynnag penderfyniadau am ein cyfeiriad yn y dyfodol gaiff eu gwneud dros y misoedd nesaf.

**Malcolm Dawson**
Prif Gofrestrydd Tir a Phrif Weithredwr
20 Mehefin 2011

# Pwy ydym ni a beth ydym yn ei wneud



**Malcolm Dawson**
Prif Gofrestrydd Tir
a Phrif Weithredwr

Sefydlwyd Cofrestrfa Tir Ei Mawrhydi (Cofrestrfa Tir) yn 1862. Mae'r Gofrestrfa Tir yn adran anweinidogol o'r llywodraeth, yn asiantaeth weithredol ac yn gronfa fasnachu ac nid yw'n defnyddio unrhyw arian a ddyfarnwyd gan y Senedd. Yn ôl statud, mae'n ofynnol i ni sicrhau bod ein hincwm ffioedd yn cwmpasu ein holl wariant o dan amodau gweithredu arferol.

Mae'r Gofrestrfa Tir yn cynnwys yr Adran Cofrestru Teitl, sy'n delio â'n prif fusnes, a'r Adrannau Pridiannau Tir a Chredydau Amaethyddol sy'n adran llawer llai. Mae'r adroddiad hwn yn delio â'r adrannau ar wahân ond mae'r cyfrifon wedi'u rhoi ar gyfer y Gofrestrfa Tir gyfan.

Mae swyddogaethau'r Gofrestrfa Tir yn statudol yn llwyr. Nid oes unrhyw bwerau rhagorfreiniol gennym. Mae Deddf Cofrestru Tir 2002 yn rhoi'r grym i'r Gofrestrfa Tir ddelio â'r "busnes o gofrestru o dan y Ddeddf hon" a dyma'r prif statud sy'n llywodraethu'r Gofrestrfa Tir.

Y Prif Gofrestrydd Tir yw pennaeth y Gofrestrfa Tir, wedi'i benodi o dan statud gan yr Arglwydd Ganghellor ac Ysgrifennydd Gwladol. Mae'r Prif Gofrestrydd Tir hefyd yn Brif Weithredwr a Swyddog Cyfrifyddu y Gofrestrfa Tir. Y Prif Weithredwr yn unig sy'n gyfrifol am reoli'r Gofrestrfa Tir yn effeithiol ac yn effeithlon o ddydd i ddydd, yn amodol ar baramedrau ariannol a deddfwriaethol. Rhoddir manylion llawn am rolau a chyfrifoldebau'r Arglwydd Ganghellor ac Ysgrifennydd Gwladol a'r Prif Gofrestrydd Tir yn ein Dogfen Fframwaith 2008.

Ein prif bwrpas yw cofrestru perchnogaeth tir yng Nghymru a Lloegr a chofnodi deliadau â thir ar ôl iddo gael ei gofrestru.

Gwasanaethwn boblogaeth o fwy na 54 miliwn a hwyluswn un o'r marchnadoedd eiddo a morgeisi mwyaf gweithgar yn y byd. Mae ein Cofrestr Tir yn cynnwys 22.8 miliwn o deitlau, ac mae mwy na 10 miliwn hectar - neu oddeutu 75 y cant - o'r tir yng Nghymru a Lloegr wedi'i gofrestru erbyn hyn.

Mae'r Gofrestrfa Tir yn gweithredu trwy nifer o swyddfeydd wedi'u lleoli yng Nghymru a Lloegr, Prif Swyddfa sy'n rhannu adeilad â Swyddfa Croydon a swyddfeydd yn Plymouth sy'n gartref i'r adrannau Pridiannau Tir a Chredydau Amaethyddol a'n Cyfarwyddiaeth Systemau Gwybodaeth.

O dan gynigion a gyhoeddwyd yn 2006, caewyd Swyddfa Caerefrog ym Medi 2010. Fel rhan o'n rhaglen trawsnewid caeodd Swyddfa Portsmouth yn Chwefror 2011 ac agorwyd is-swyddfa yn y ddinas. Roedd disgwyl i swyddfeydd Stevenage a Tunbridge Wells gau ym Mehefin 2011. Symudodd staff Swyddfa Plymouth o Plumer House i Seaton Court ar ddiwedd Ionawr ac roedd staff wedi symud o'r Brif Swyddfa yn Lincoln's Inn Fields yng nghanol Llundain i Trafalgar House yn Croydon erbyn diwedd Mawrth. Mae adeiladau'r Brif Swyddfa a Tunbridge Wells wedi cael eu gwerthu ac mae Plumer House, ynghyd ag adeiladau eraill, ar y farchnad.

Fe welwch fanylion cyswllt swyddfeydd y Gofrestrfa Tir ar ein gwefan www.cofrestrfatir.gov.uk

# Ein gweledigaeth, pwrpas, nodau ac amcanion


Ein gweledigaeth yw rhoi'r cwsmer, ansawdd ac arloesi wrth wraidd gwasanaethau cofrestru tir.

Ein pwrpas yw:
— cynnal a datblygu system sefydlog ac effeithiol o gofrestru tir sy'n darparu gwarant wedi'i chefnogi gan y wladwriaeth ar gyfer teitl i ystadau cofrestredig a buddion mewn tir yng Nghymru a Lloegr er mwyn hwyluso creu'r ystadau a'r buddion hynny a'u symudiad rhydd
— darparu mynediad hwylus i wybodaeth gyfoes a gwarantedig am dir er mwyn gallu delio'n hyderus mewn eiddo a gwarantu teitl.

Ein nodau yn 2010/11 oedd:
— creu a chynnal cofrestr gywir, ddiogel a chynhwysfawr
— cwblhau ceisiadau cofrestru yn gyflym, yn gywir ac yn effeithlon
— cwrdd â thargedau perfformiad sy'n gwella'n gynyddol wedi'u gosod gan yr Arglwydd Ganghellor ac Ysgrifennydd Gwladol, er mwyn darparu gwasanaethau o safon uchel, cost-effeithiol yn brydlon i'n cwsmeriaid.

Ein hamcanion strategol yn 2010/11 oedd:
— adnabod, rhagweld a bodloni anghenion cwsmeriaid drwy fireinio a datblygu cynhyrchion a sianeli yn gyson
— gwella cyflenwi gweithrediadau'n barhaus
— ymestyn manteision cofrestru tir drwy greu cofrestr gynhwysfawr
— adeiladu sefydliad hyblyg ac effeithlon sy'n ein galluogi i ymateb i newidiadau yn y farchnad ac anghenion newidiol ein cwsmeriaid
— datblygu strwythur a gallu sefydliadol priodol er mwyn gwireddu gweledigaeth busnes y Gofrestrfa Tir
— cynyddu gwasanaethau add value cynaliadwy, arallgyfeirio a phartneriaethau trawslywodraethol.

Mae ein perfformiad yn erbyn yr amcanion hyn a'n targedau i'w weld ar dudalen 65 (Atodiad 1).



## Golwg ar y flwyddyn hon: cynnyrch a gwasanaeth arloesol

Mae arloesi wedi bod yn gonglfaen ar gyfer popeth y mae'r Gofrestrfa Tir wedi'i wneud yn 2010/11. Mae marchnad eiddo ddisymud a chyfyngiadau trawslywodraethol ar wario a recriwtio wedi bod yn sbardun yn hytrach na rhwystr, gan ein gorfodi a'n hysbrydoli i gael hyd i atebion a mentrau sy'n cyfateb â galwadau'r cyfnod eithriadol hwn. Gwelwyd arloesi technolegol, arloesi sefydliadol ac arloesi ym maes polisi ac ymarfer.

### Timau cwsmeriaid

Un o'n mentrau arloesol diweddar mwyaf deinamig a phellgyrhaeddol efallai yw ein timau cwsmeriaid. Yn y gorffennol mae ein gweithrediadau a'n prosesau craidd wedi datblygu ar sail ddaearyddol, gyda chyfreithwyr a thrawsgludwyr yn anfon ceisiadau i swyddfa arbennig ar sail lleoliad yr adeilad. Mewn cyferbyniad mae timau cwsmeriaid yn prosesu'r holl geisiadau papur y mae cwmni neu sefydliad arbennig yn eu hanfon, waeth beth fo'r ddaearyddiaeth.

Ar ddiwedd 2009/10 roedd o leiaf un tîm cwsmeriaid gennym ym mhob swyddfa. Ddeuddeg mis yn ddiweddarach mae mwy na 50 y cant o waith ein cwsmeriaid yn cael ei brosesu trwy 92 o dimau cwsmeriaid penodol, a Swyddfa Plymouth yw'r Gofrestrfa Tir gyntaf i newid yn llwyr i weithio ar sail tîm cwsmeriaid.

Mae'n cynnig arbedion tâl post a chostau prosesu eraill i gwsmeriaid ac maent yn elwa ar gysondeb gwasanaeth a gynigir gan dîm ymroddedig gyda chysylltiadau a enwir i ateb eu hymholiadau. Roedd mwy na 2,000 wedi cofrestru erbyn diwedd Mawrth. Mae'n ddyddiau cynnar i nifer o'r perthnasoedd sy'n cael eu ffurfio ond mae'r adborth cychwynnol wedi bod yn gadarnhaol iawn.



Gavin Thorne, Rheolwr Ymchwil a Mewnwelediad

**Ymchwil a mewnwelediad**

Mae timau cwsmeriaid yn rhan hollbwysig o'n hymgyrch i roi cwsmeriaid wrth wraidd yr hyn a wnawn, fel y nodwyd yn ein Strategaeth Cwsmeriaid. Roedd y strategaeth, sy'n amlinellu sut y byddwn yn ateb anghenion ein cwsmeriaid yn gyson am bris y gall y ddwy ochr ei fforddio, wedi cael ei datblygu mewn partneriaeth â'n cwsmeriaid drwy ddefnyddio gwybodaeth drylwyr amdanynt. Roedd yn seiliedig ar fwy na 2,000 o ddarnau gwahanol o adborth gan gwsmeriaid.

Erbyn hyn rydym yn ychwanegu at yr wybodaeth honno drwy fuddsoddi mewn offer ymchwil a thechnoleg arolwg a datblygu ein gallu mewnol arbenigol i wneud gwaith ymchwil. Mae ein Tîm Mewnwelediad Cwsmeriaid a'r Farchnad yn sicrhau bod ein mentrau cynnyrch a gwasanaeth yn seiliedig ar fewnwelediad manwl cwsmeriaid a'n bod yn gwybod am ddatblygiadau perthnasol yn y farchnad eiddo ac yn yr economi yn gyffredinol. Hefyd rydym wedi datblygu a mabwysiadu Sgôr Hyrwyddwr Net fel mesur newydd o fodlonrwydd cwsmeriaid, lle y gofynnir i gwsmeriaid ymateb i gwestiynau ar raddfa o 0 i 10 gyda'r atebion yn eu dosbarthu yn 'promoters', 'passives' neu'n 'detractors'. Bydd yn cael ei ddefnyddio mewn arolygon yn y dyfodol.

**Arallgyfeirio ein busnes**
Mae ymchwil i'r farchnad yn chwarae rôl allweddol mewn mentrau i arallgyfeirio ein busnes. Buom yn ystyried yn ofalus y posibilrwydd o arallgyfeirio a sut y bydd o fudd i'n cwsmeriaid, y farchnad eiddo ac amcanion y Llywodraeth. Yn dilyn mabwysiadu ein Strategaeth Arallgyfeirio cyhoeddwyd ein bod ni'n ystyried y posibilrwydd o gyflenwi chwiliadau o'r Gofrestr Pridiannau Tir Leol a gwybodaeth arall sy'n cael ei darparu ar hyn o bryd gan awdurdodau lleol. Mae'r gwaith yn parhau.

Bydd y Gofrestrfa Tir yn ceisio manteisio i'r eithaf ar ei sgiliau, ei gwybodaeth a'i harbenigedd er budd marchnadoedd tir ac eiddo, y dinesydd a'r llywodraeth er mwyn darparu gwasanaethau tir ac eiddo cost-effeithiol ac effeithlon

## Ychwanegu gwerth

Mae ehangu a gwella ein dewis o gynhyrchion a gwasanaethau add value yn un ffordd arall rydym yn ceisio arloesi er budd ein cwsmeriaid. Un o'n cynhyrchion mwyaf llwyddiannus dros y flwyddyn ddiwethaf oedd ein Property Portfolio Consolidator (PPC), sy'n rhoi gwybodaeth fanwl o'r Gofrestr Tir i landlordiaid am eu portffolio. Roedd y cynnyrch wedi apelio'n arbennig at landlordiaid cymdeithasol gan fod eu rheoleiddiwr yn ei gwneud hi'n ofynnol iddynt ddarparu gwybodaeth gywir am eu stoc erbyn diwedd y flwyddyn ariannol.

Roedd y PPC wedi bodloni'r angen hwn drwy gynnal chwiliad o'r Mynegai Enwau Perchnogion i ddangos rhifau teitl daliadau'r landlord gan felly llunio taenlen o'r manylion ar y gofrestr. I'r landlordiaid cymdeithasol hynny oedd heb gofnodion teitl da, roedd PPC yn cynnig yr ateb iddynt. Mae pob un o'n cynhyrchion a gwasanaethau add value yn ceisio helpu cwsmeriaid i reoli eu cofnodion, cadw llygad ar eu marchnadoedd ac adnabod cyfleoedd busnes.



## Y porth i wasanaethau

Ein porthol yw'r prif borth erbyn hyn i e-wasanaethau busnes ar-lein y Gofrestrfa Tir ar ôl i wefan y Gofrestrfa Tir Uniongyrchol gau i fusnesau ym mis Mehefin. Mae'r porthol, sef platfform gwefan diogel, yn darparu'r holl wasanaethau a gynigir gan y Gofrestrfa Tir Uniongyrchol a mwy, gyda nodweddion newydd yn cael eu hychwanegu'n achlysurol. Mae cwsmeriaid sy'n defnyddio'r porthol yn manteisio ar gyflymder, sicrwydd a chywirdeb trafodion electronig yn ogystal ag effeithlonrwydd talu drwy ddebyd uniongyrchol newidiol ac arbed arian ar dâl post, papurach a chostau argraffu.

Ym mis Mawrth 2011 derbyniwyd 1,131,023 o drafodion drwy'r porthol. Mae tua 12,000 o sefydliadau wedi cofrestru ac mae gennym 166,296 o ddefnyddwyr awdurdodedig gweithredol. Mae un deg saith o'n dogfennau mwyaf cyffredin ar gael yn electronig, gyda thair yn cynnig cofrestru awtomataidd, ac erbyn hyn mae mwy na thri chwarter o'r holl ryddhadau o arwystlon cofrestredig (pan fydd morgais yn cael ei dalu) yn cael eu cyflawni'n electronig. Mae e-anfon, nodwedd newydd a ychwanegwyd at y porthol ym mis Medi, yn darparu dull anfon ac ymateb electronig ar gyfer ystod eang o drafodion, os ydynt yn cael eu cwblhau'n awtomatig neu beidio.



## Cyfathrebu electronig

Law yn llaw â datblygu gwasanaethau electronig gwelwyd defnydd cynyddol o gyfathrebu electronig. Ym mis Rhagfyr cafodd ein cylchgrawn i gwsmeriaid *Landnet*, ei droi o gylchgrawn papur i gyhoeddiad electronig. Defnyddiwn ddata o'n cronfa ddata cwsmeriaid sy'n ehangu i greu'r rhestr bostio ar gyfer bwletin e-bost sy'n cael ei anfon i ddarllenwyr bob tro y caiff *Landnet* ei gyhoeddi. Mae dolenni yn y bwletin yn arwain y darllenydd at y ddogfen PDF ar y wefan. Mae'r fformat yn cynnig modd i ni gyhoeddi'n fwy aml, yn fwy eang ac yn fwy cost-effeithiol gan leihau ein heffaith ar yr amgylchedd.

Rydym wedi ymuno â Twitter hefyd i anfon negeseuon trydar am ddatblygiadau yn y Gofrestrfa Tir, newidiadau polisi ac ymarfer a digwyddiadau megis cyhoeddi'r Mynegai Prisiau Tai bob mis. Mae Klout.com (gwefan sy'n dadansoddi sut mae unigolion a sefydliadau yn defnyddio Twitter drwy fonitro defnydd, niferoedd a'r rhwydwaith) yn diffinio'r Gofrestrfa Tir ar hyn o bryd fel sefydliad "sy'n gwneud defnydd effeithiol o gyfryngau cymdeithasol i ddylanwadu ar ei rhwydwaith ar draws amryw o bynciau" a sefydliad sydd "wedi adeiladu rhwydwaith da sy'n ymgysylltu â nifer fawr o bobl."






Rheolwyr y Gofrestrfa Tir yn astudio cynnydd un o'r timau peilot

## Perfformiad uchel

Mae'r prosiect Perfformio ac Arloesi yn mabwysiadu egwyddor Lean - newid systemau a phrosesau er mwyn dileu gwastraff a dyblygu - ac mae'n cael staff i ailystyried prosesau gwaith eu tîm eu hunain er mwyn gwella cynhyrchedd ac effeithlonrwydd. Cafwyd canlyniadau calonogol o'r prosiect peilot yn Nesg Gymorth Adnoddau Dynol Nottingham ac mae prosiectau peilot eraill yn mynd rhagddynt yn swyddfeydd Caerloyw a Weymouth.

Mae'r tîm Perfformio ac Arloesi yn defnyddio profiad Ymarferyddion Arbenigol Unipart a Chyllid a Thollau Ei Mawrhydi i greu methodoleg wedi'i chynllunio ar gyfer anghenion y Gofrestrfa Tir sy'n gallu cael ei defnyddio ar unrhyw broses ar draws y sefydliad. Bydd hyrwyddwyr lleol yn ffurfio rhan o'r tîm tra bo'r gwaith yn mynd rhagddo ym mhob swyddfa, gan gydweithio'n agos â'r timau a ddewiswyd.

# Ein perfformiad

**Perfformiad busnes**
Y llynedd gwelwyd y Gofrestrfa Tir yn ymateb i'r heriau sy'n codi gan y farchnad eiddo ddisymud a chyfyngiadau trawslywodraethol ar wariant.

Roedd ein proffil o'r gwaith a dderbyniwyd yn adlewyrchu marweidd-dra parhaus y farchnad tai, gyda dirywiad o 13 y cant yn erbyn y gwaith a dderbyniwyd yn 2009/10. Ers 2008/9 gwelwyd lleihad o oddeutu un rhan o dair yn ein busnes craidd o ganlyniad uniongyrchol i'r ansefydlogrwydd ariannol byd-eang a welwyd y pryd hynny a'r cwymp dilynol yn y farchnad dai. Mae'r gwaith a dderbyniwyd wedi parhau i fod yn weddol wastad yn 2010/11 heb lawer o arwydd o unrhyw gynnydd hyd yma.

Er gwaetha'r heriau hyn, mae'r Gofrestrfa Tir wedi parhau i symud ymlaen gan archwilio a gweithredu dulliau arloesol o ymateb i'r amodau anodd a chwrdd â'n targedau perfformiad.

Bob blwyddyn bydd yr Arglwydd Ganghellor ac Ysgrifennydd Gwladol yn gosod targedau perfformiad i'r Gofrestrfa Tir i sicrhau bod ein cwsmeriaid yn parhau i gael gwasanaeth cofrestru tir rhagorol. Mae cynnydd tuag at gyrraedd y targedau hyn yn cael ei fonitro trwy'r flwyddyn ac mae gwybodaeth am berfformiad yn cael ei chyhoeddi yn rheolaidd. Mae rhestr lawn o'r dangosyddion perfformiad allweddol (DPA) hyn a'n perfformiad yn eu herbyn i'w gweld yn Atodiad 1 ar dudalen 65.

**Uchafbwyntiau perfformiad**
*Datblygu gwasanaeth cwsmeriaid*
— Ar gyfer 2010/11 gosodwyd DPA i barhau i gyflwyno a datblygu timau cwsmeriaid. Y targed oedd cyflwyno lleiafswm o 12 tîm arall. Erbyn 31 Mawrth, roedd cyfanswm o 92 o dimau wedi cael eu cyflwyno. Roedd hwn yn llwyddiant mawr ac yn dangos ymrwymiad y Gofrestrfa Tir at roi cwsmeriaid wrth wraidd ein gwasanaeth.

*Gwaith achos*
— Yn 2010/11 derbyniwyd 20.5 miliwn o geisiadau sy'n gyfwerth ag uned allbwn o 8.9 miliwn o unedau, sy'n cyd-fynd â'r rhagolwg cyllideb. Hyd yn oed gyda chau tair swyddfa, a throsglwyddo gwaith i'r 14 swyddfa sy'n weddill, roeddem wedi cynnal ein gwasanaeth cwsmeriaid a chyflymder prosesu cofrestriadau. Rhagorwyd ar ein targed DPA i brosesu 80 y cant o gofrestriadau cyn pen 15 diwrnod gan brosesu 89.8 y cant o fewn yr amserlen honno.
— Rhagorwyd ar ein targed ar gyfer cywirdeb gwaith achos. Yn erbyn DPA o 98.5 y cant o'r holl achosion a broseswyd yn gywir, cyflawnwyd 99.1 y cant.
— Cyflwynwyd DPA newydd a heriol i fesur ansawdd mewnol yn ystod 2010/11. Er nad ydym wedi cyflawni'r DPA o 97 y cant, mae cael y targed hwn wedi esgor ar weithredu cadarnhaol sylweddol i ddatblygu ein sgiliau, symleiddio rhai arferion technegol a hoelio ein sylw ar agweddau allweddol ar brofiad ein cwsmeriaid o ansawdd y gwaith a wnawn. Y ffigur cyflawni oedd 92.9 y cant ar ddiwedd y flwyddyn. Bydd y DPA hwn yn parhau y flwyddyn nesaf er mwyn dangos ein hymrwymiad at ansawdd cwsmeriaid.

*Cofrestr Tir Gynhwysfawr*
— Am y pum mlynedd ddiwethaf gwnaethpwyd cynnydd mawr yn y gwaith o greu cofrestr gynhwysfawr, gan gofrestru 20 y cant yn ystod y cyfnod hwnnw sy'n golygu bod tua 75 y cant o Gymru a Lloegr wedi cael ei gofrestru. Cyflawnwyd y DPA hectar, sef ychwanegu 250,000 hectar drwy gofrestru gwirfoddol erbyn 31 Mawrth, gan ychwanegu cyfanswm o 294,163 hectar. Cyflawnwyd hyn er gwaetha'r amodau marchnad anodd a'r ddeddf adenillion lleihaol.

*Ystad*
— Yn ystod y flwyddyn ddiwethaf, roedd y Gofrestrfa Tir wedi rhagori ar bob un o'n targedau yn y maes hwn, a'u rhagori o dipyn mewn rhai meysydd. Er enghraifft, yn erbyn targed o leihau allyriadau carbon ein swyddfeydd gan 12.5 y cant (o'i gymharu â lefelau 1999/2000) gwelwyd gostyngiad o 36.5 y cant. A rhagorwyd ar ein targed o gynyddu'r gwastraff sy'n cael ei ailgylchu (targed o 40 y cant) drwy gynyddu'r gwastraff sy'n cael ei ailgylchu gan 72 y cant.

**Pridiannau Tir a Chredydau Amaethyddol**
Mae'r Adran Pridiannau Tir yn gweithredu o dan awdurdod Deddf Pridiannau Tir 1972. Mae'r adran yn cadw cofrestri o Bridiannau Tir, gweithrediadau sy'n aros, gwritiau a gorchmynion sy'n effeithio ar dir a llyffetheiriau eraill sydd wedi'u cofrestru yn erbyn enwau perchnogion eiddo, sydd heb eu cofrestru o dan y Deddfau Cofrestru Tir.

Mae'r Adran Credydau Amaethyddol yn gyfrifol am gadw cofrestr o fenthyciadau tymor byr gan fanciau o dan Ran II o Ddeddf Credydau Amaethyddol 1928. Gwarentir y pridiannau hyn ar stoc ffermio ac asedau amaethyddol eraill y ffermwr.

Mae Pridiannau Tir hefyd yn gartref i ddau dîm arall. Mae'r tîm Cyfrifon Credyd yn gyfrifol am reoli cyfrifon cwsmeriaid y Gofrestrfa Tir ac mae'r tîm Mynegai Enwau Perchnogion yn prosesu ceisiadau chwilio yn erbyn enwau unigolion a chwmnïau er mwyn sefydlu a yw unrhyw asedau eiddo yn cael eu dal o dan yr enwau hynny.

Roedd y ddwy adran wedi delio â chyfanswm cyfunol o 1,889,753 o geisiadau, lleihad o 26 y cant o'i gymharu â 2009/10.

Cyfanswm y chwiliadau Pridiannau Tir a broseswyd oedd 1,688,954, lleihad o 26 y cant o'i gymharu â'r flwyddyn flaenorol.

Cynyddodd cyfran y ceisiadau am chwiliad swyddogol a chopi swyddogol a dderbyniwyd dros y ffôn, drwy fynediad uniongyrchol a'r ffacs i 89 y cant, o'i gymharu ag 81.4 y cant yn 2009/10, gyda 95 y cant o geisiadau am gopi swyddogol yn cael eu cyflwyno fel hyn. Erbyn hyn mae cyfanswm o 82 y cant o chwiliadau Pridiannau Tir yn cael eu prosesu trwy sianeli e-fynediad. Gostyngodd canran y chwiliadau ffôn a gwblhawyd fel cyfran o gyfanswm y ceisiadau am chwiliadau i 7.1 y cant o'i gymharu â 7.9 y cant y flwyddyn flaenorol.

**Yr Adran Pridiannau Tir**

| Math o gais | Nifer y ceisiadau neu enwau yn 2010/11 | Canran yr amrywiad o'i gymharu â 2009/10 |
|---|---|---|
| Cofrestriadau newydd, cywiriadau ac adnewyddiadau | 140,927 | -31% |
| Dileadau | 15,242 | -3.5% |
| Chwiliadau swyddogol: | | |
| – chwiliadau llawn | 353,747 | -28% |
| – chwiliadau wedi'u cyfyngu i ansolfedd | 1,335,207 | -25% |
| Copïau swyddogol | 50,052 | -16.4% |
| **Cyfanswm** | **1,895,175** | |

**Yr Adran Credydau Amaethyddol**

| Blwyddyn | Cofrestriadau newydd | Dileadau a chywiriadau | Chwiliadau |
|---|---|---|---|
| 2007/8 | 1,267 | 808 | 4,269 |
| 2008/9 | 1,159 | 917 | 4,120 |
| 2009/10 | 917 | 737 | 3,405 |
| 2010/11 | 737 | 1,153 | 2,688 |

**Deddfwriaeth**
Yr unig ddeddfwriaeth a wnaed yn ystod y flwyddyn oedd Gorchymyn Cofrestru Tir (Swyddfa Briodol) 2010. Daeth i rym ar 1 Hydref 2010 ac mae'n adlewyrchu'r bwriad arfaethedig i gau swyddfeydd Portsmouth, Stevenage a Tunbridge Wells. Cyhoeddwyd dau bapur ymgynghori, un ar y newidiadau i Reolau Cofrestru Tir 2003, a'r llall ar Reolau Cofrestru Tir (Mynediad i'r Rhwydwaith) 2008 er mwyn ystyried Strwythurau Busnes Amgen.

**Y Pwyllgor Rheolau**
Ailgyfansoddwyd y Pwyllgor Rheolau o dan Ddeddf Cofrestru Tir 2002 i ddarparu cyngor a chymorth i'r Arglwydd Ganghellor ac Ysgrifennydd Gwladol ar lunio rheolau newydd neu ddiwygiedig o dan y Ddeddf. Ni chyfarfu'r Pwyllgor yn ystod 2010/11.

**Gwybodaeth agored a llawn**
Mae amrywiaeth gynhwysfawr o wybodaeth ymarferol am ein gwasanaethau a'n gweithdrefnau ar gael gan Gymorth Cwsmeriaid. Mae pob ffurflen a chyhoeddiad, gan gynnwys ein Cynllun Cyhoeddiadau, ar gael i'w gweld ar ein gwefan: http://www.cofrestrfatir.gov.uk/publications.

Mae Pennaeth newydd yr Uned Rheoli Gwybodaeth Corfforaethol yn gyfrifol am ddatblygiad parhaus ein strategaeth sicrwydd gwybodaeth a'r polisi rhannu data er mwyn prisio, diogelu a gwneud defnydd llawn o'n gwybodaeth.

Yn ystod 2010/11, roedd y Gofrestrfa Tir wedi nodi bod 175 o geisiadau ysgrifenedig am wybodaeth wedi'u cynnwys o dan ddarpariaethau Deddf Rhyddid Gwybodaeth 2000. Mae hyn yn gynnydd o'r 150 a nodwyd yn ystod 2009/10.

**Safonau gwasanaeth**
Mae manylion am y gwasanaeth y gall cwsmeriaid ei ddisgwyl gennym ni i'w gweld ar ein gwefan: www1.landregistry.gov.uk/upload/documents/servicestandards.html

**Gwasanaeth Cymraeg**
Mae gwybodaeth am ein gwasanaeth Cymraeg i'w gweld ar ein gwefan: www1.landregistry.gov.uk/info/welshlanguage-scheme

**Cwynion**
Yn 2010/11, cafwyd 3,217 o gwynion (o'i gymharu â 4,183 yn 2009/10), ac o'r rhain ymatebwyd i 94 y cant o fewn ein targed o bum niwrnod (88 y cant yn 2009/10). Ymysg y materion a arweiniodd at gwynion oedd y rhai yn dilyn cyflwyno dosbarthu electronig (e-anfon) ar gyfer e-wasanaethau busnes porthol ym Medi 2010. Roedd cwynion am ddiogelwch y gofrestr yn dilyn cyhoeddusrwydd gan drydydd partïon yn cynnig gwasanaethau diogelu rhag dwyn teitl, a'r sylw cysylltiedig yn y wasg genedlaethol, hefyd wedi cynhyrchu cwynion.

Roedd Swyddfa'r Ombwdsmon Seneddol a'r Gwasanaeth Iechyd wedi cysylltu â'r Gofrestrfa Tir deirgwaith a lluniwyd adroddiad llawn ym mhob achos.

Mae ein trefn gwyno, gan gynnwys rôl yr Adolygydd Cwynion Annibynnol a'r Ombwdsmon Seneddol a'r Gwasanaeth Iechyd, wedi'i hesbonio yn ein taflen *Unioni pethau*, ac i'w gweld ar ein gwefan: www1.landregistry.gov.uk/upload/documents/putting_things_right.html

**Indemniad**
Yn 2010/11, talwyd £9,417,594.13 ar gyfer 963 o hawliadau, o'i gymharu â £7,782,081.06 ar gyfer 1,011 o hawliadau yn 2009/10.

Eleni byddwn yn talu £7,367,416.18 ar gyfer 71 o hawliadau sy'n cynnwys twyll, o'i gymharu â £4,947,650.06 ar gyfer 53 o hawliadau yn 2009/10. Rydym yn parhau i adolygu ein mesurau gwrth-dwyll. Fodd bynnag, sylweddolwn y gallai hawliadau barhau ar y lefel hon dros y blynyddoedd nesaf wrth i achosion o dwyll a gyflawnwyd cyn ein mesurau gwrth-dwyll weithio eu ffordd trwy'r system. Fodd bynnag, nid ydym yn rhagweld y bydd y symiau'n mynd yn is na lefelau 2007/8 oherwydd cydnabyddir bod cynnydd sylweddol mewn gweithgareddau twyllodrus yn y marchnadoedd eiddo a morgais yn gyffredinol.

O ganlyniad i'n mesurau gwrth-dwyll mae llai o achosion o dwyll yn cael eu cofrestru ac rydym yn ymrwymedig i fonitro a gwella ein dulliau amddiffyn yn erbyn twyll. Eleni rydym wedi parhau i wella ein dulliau amddiffyn drwy, er enghraifft, ehangu ein tîm twyll arbenigol yn ogystal â gweithredu nifer o welliannau TG.

Adenillwyd £1,077,252.63 o dan ein hawliau digolledu statudol, o'i gymharu â £155,748.25 y flwyddyn ddiwethaf.

| **Natur yr hawliad** | **Nifer yr hawliadau** | **Colled wirioneddol (£)** | **Costau (£)** | **Canran o'r cyfanswm hawliadau** |
|---|---|---|---|---|
| Ystent teitlau cofrestredig | 254 | 243,789.00 | 613,265.90 | 9.10% |
| Camgymeriadau/ hepgoriadau o gofnodion cofrestr | 112 | 500,918.68 | 199,729.45 | 7.44% |
| Camgymeriadau mewn cynlluniau amrywiol | 29 | 62,750.00 | 92,176.73 | 1.65% |
| Twyll a ffugio | 71 | 6,705,852.29 | 661,563.89 | 78.23% |
| Archwiliadau swyddogol o gynlluniau teitl | 10 | 7,895.00 | 6,628.86 | 0.15% |
| Camgymeriadau methdaliad | - | - | - | - |
| Chwiliadau swyddogol | 10 | 151,364.95 | 11,959.87 | 1.73% |
| Copïau swyddogol | 9 | - | 1,517.51 | 0.02% |
| Camgymeriadau mewn Chwiliadau o'r Map Mynegai (SIM) | 12 | 600.00 | 4,361.51 | 0.05% |
| Camgymeriadau mewn darnau wedi'u ffeilio | 32 | 573.40 | 12,446.26 | 0.14% |
| Colli dogfennau/ camgymeriadau gweinyddol | 423 | 38,643.47 | 101,469.23 | 1.49% |
| Camgymeriadau Pridiannau Tir | 1 | - | 88.13 | - |
| **Cyfanswm** | **963** | **£7,712,386.79** | **£1,705,207.34** | **100%** |
| Taliad gros | £9,417,594.13 | | | |
| Llai'r symiau a adenillwyd o dan hawliau digolledu statudol y Gofrestrfa Tir | £1,077,252.63 | | | |
| *Indemniad net* | £8,340,341.50 | | | |

**Addysg a hyfforddiant**
Roedd y Grŵp Addysg a Hyfforddiant wedi uno â'r Tîm Dysgu a Datblygu a'r Tîm Cymwysterau i greu un Grŵp Galluoedd sy'n gyfrifol am hyfforddi staff a chwsmeriaid.

Mae'r grŵp yn helpu cwsmeriaid wrth iddynt symud i wasanaethau electronig, a deall gwelliannau i'r gwasanaethau hynny, drwy ddiweddariadau i'r llawlyfr technegol a modiwlau hyfforddi e-wasanaethau.

Mae modiwlau hyfforddi ar-lein a digwyddiadau mewnol sy'n cwmpasu meysydd allweddol o ymarferion cofrestru tir yn caniatáu i gwsmeriaid dewis rhwng hyfforddiant wyneb yn wyneb a'r dewisiadau e-ddysgu rhatach, sy'n cymryd llai o amser. Gohiriwyd cynnal seminarau gwe ym mis Awst 2010.

**Y Gwasanaeth Gwybodaeth Tir Cenedlaethol**
Mae'r Gwasanaeth Gwybodaeth Tir Cenedlaethol (NLIS) yn wasanaeth masnachol sy'n cynnig chwiliadau ac ymholiadau ar-lein i gyfreithwyr a thrawsgludwyr trwyddedig yng Nghymru a Lloegr. Mae chwiliadau'n cael eu hanfon yn electronig ac mae canlyniadau'n cael eu derbyn trwy foth NLIS, sy'n gweithredu fel porth ar gyfer gwybodaeth a gwasanaethau gan nifer o ddarparwyr data.

Mae'r Gofrestrfa Tir wedi cefnogi NLIS o'r cychwyn cyntaf ac rydym yn parhau i fod yn brif ddarparwr data, ochr yn ochr â chyrff eraill megis awdurdodau lleol a chwmnïau cyfleustodau.

Dros y flwyddyn ddiwethaf, gwelwyd cynnydd graddol yn nifer y ceisiadau a anfonwyd trwy NLIS. Cynhyrchodd sianeli NLIS incwm ffioedd o £2,792,689 i'r Gofrestrfa Tir.

**Connect Direct**
Mae Connect Direct, a gafodd ei lansio yn 2006, yn darparu cysylltiadau busnes i fusnes ac mae wedi'i anelu at gwmnïau chwilio eiddo, gan ddefnyddio sgema XML dros rwydwaith preifat rhithwir. Mae'r gwasanaeth yn apelio at gwmnïau chwilio sy'n gweithredu yn yr un farchnad â'r sianeli NLIS ond nid oes trwydded NLIS ganddynt.

Mae chwiliadau'n cael eu hanfon yn electronig ac mae canlyniadau'n cael eu dychwelyd yn uniongyrchol i'r cwsmer. Mae nifer o'r ceisiadau hyn yn gwbl awtomatig. Yr incwm ffioedd yn 2010/11 oedd £1,787,235.

**Yr Uned Ryngwladol**
Mae'r Uned Ryngwladol yn sicrhau ein bod yn cyfathrebu ac yn rhyngweithio'n effeithiol â'n rhwydwaith budd-ddeiliaid dramor, ein bod yn cael ein cynrychioli ar fforymau rhyngwladol perthnasol a'n bod yn cyfrannu lle bo'n briodol at nodau strategol ehangach y Llywodraeth, gan gynnwys darparu arbenigedd y DU i wledydd sy'n datblygu a gwledydd trosiannol.

Yn ystod 2010/11 rhoddwyd cymorth pellach i Lywodraeth Bermwda drwy ddrafftio'r Mesur Cofrestru Teitl Tir.

Roedd ein cysylltiadau cryf â'n cymheiriaid dramor wedi parhau ac yn ystod y flwyddyn ddiwethaf buom yn aelodau gweithgar o Weithgor am Weinyddu Tir Comisiwn Economaidd Ewrop y Cenhedloedd Unedig (WPLA). Mae Pennaeth yr Uned Ryngwladol yn ein cynrychioli ni ar Fiwro WPLA. Rydym wedi parhau i fod yn aelodau gweithgar o Gymdeithas Cofrestrfa Tir Ewrop, gan ystyried materion o bryder rhyngwladol megis cynnig i reoleiddio materion yn ymwneud ag olyniaeth. Hefyd rydym wedi parhau i gynrychioli'r DU yn ffurfiol ar y Pwyllgor Parhaol ar Stentiau yn yr Undeb Ewropeaidd.

Yn ôl yr arfer rydym wedi croesawu nifer fawr o ymwelwyr o dramor yn ystod y flwyddyn, gan ddarparu rhaglenni astudio pwrpasol i ateb eu meysydd arbennig o ddiddordeb, megis gwasanaeth cwsmeriaid, prosesau cofrestru a rheoli perfformiad. Mae ymweliadau o'r fath yn rhoi cyfle i ni rannu profiad ac arbenigedd, a meithrin perthynas â chydweithwyr dramor sy'n gweithio yn yr un maes.

Eleni cynhaliwyd ymweliadau astudio ar gyfer ein cymheiriaid a sefydliadau eraill yn Abu Dhabi, Afghanistan, Awstralia, Azerbaijan, Bermwda, Tsieina, Gambia, Yr Almaen, Hong Kong, Macedonia, Malaysia, Nigeria, De Corea, Taiwan ac Uganda.

**Y Gwasanaeth Gwybodaeth Tir Ewropeaidd**
Mae'r Gofrestrfa Tir wedi parhau i gymryd rhan yn natblygiad y Gwasanaeth Gwybodaeth Tir Ewropeaidd (EULIS), sy'n darparu mynediad uniongyrchol, ar-lein i gwsmeriaid cofrestredig, proffesiynol i gofrestri gwybodaeth tir ac eiddo Ewrop. Roedd y Gofrestrfa Tir ymhlith y grŵp cyntaf o awdurdodau cofrestru tir i fynd yn fyw gyda'r gwasanaeth pan gafodd ei lansio'n swyddogol ym mis Tachwedd 2006. Mae aelodau Bwrdd EULIS yn cynnwys Awstria, Cymru a Lloegr, Y Ffindir, Yr Almaen, Iwerddon, Lithwania, Yr Iseldiroedd, Yr Alban, Sbaen a Sweden.

# Ein pobl

**Recriwtio a chadw**
Ar 1 Ebrill 2011 roedd y Gofrestrfa Tir yn cyflogi 5,397 o bobl, neu 4,846 o staff cyfwerth ag amser llawn (gan gynnwys staff cyfnod penodol a staff dros dro).

**Ffeithiau a ffigurau**

- Mae gweithwyr rhan-amser yn ffurfio 34 y cant o'r staff.
- Mae chwe deg y cant o'n staff yn fenywod, gan gynnwys dau o'r chwe chyfarwyddwr sy'n atebol yn uniongyrchol i'r Prif Gofrestrydd Tir.
- Mae saith y cant wedi nodi bod anabledd ganddynt ac mae 4 y cant wedi dweud eu bod yn weithwyr lleiafrifoedd ethnig.
- Y flwyddyn ddiwethaf, dechreuodd 289 o bobl swyddi newydd gyda'r Gofrestrfa Tir - roedd 279 o'r rhain yn staff presennol a gafodd eu dyrchafu i swyddi newydd ac roedd 10 wedi ymuno â'r Gofrestrfa Tir am y tro cyntaf, gan gynnwys dau o'r tu allan i'r Gwasanaeth Sifil.
- Roedd trosiant ar gyfer staff parhaol am y flwyddyn ddiwethaf yn gyfwerth ag 13.6 y cant o'i gymharu ag 20.5 y cant y flwyddyn flaenorol, gan adlewyrchu'r rhesymoli parhaus i'n lefelau staffio.

**Datblygu ein pobl**
Mae buddsoddi yn ein pobl yn parhau i fod yn hollbwysig o ran ein gallu i ddarparu'r gwasanaethau y mae eu hangen ar ein cwsmeriaid a gwneud y newidiadau sefydliadol hanfodol y mae eu hangen er mwyn ailddiffinio ein sefydliad a wynebu heriau'r dyfodol. Mae'r Grŵp Galluoedd newydd (gweler tudalen 18) yn cymryd golwg cyfannol ar anghenion gallu newidiol y sefydliad.

**Cymwysterau mewn Cyfraith ac Ymarfer Cofrestru Tir**
Dechreuodd myfyrwyr mewnol ac allanol astudio'r cyrsiau Cymwysterau mewn Cyfraith ac Ymarfer Cofrestru Tir olaf ym mis Medi. Mae'r cwrs tystysgrif un flwyddyn yn darparu sylfaen mewn cyfraith ac ymarfer cofrestru tir ac mae'r cwrs diploma dwy flynedd yn adeiladu ar hynny ar safon gradd er mwyn darparu astudiaeth gynhwysfawr a manwl o'r gyfraith eiddo, gan gynnwys cyfraith ac ymarfer cofrestru tir.

Mae nifer sylweddol o staff y Gofrestrfa Tir wedi cymryd rhan a chael budd mawr o'r cyrsiau hyn ers 2000, ond mae'r nifer sy'n cofrestru ar gyrsiau wedi lleihau dros y blynyddoedd diwethaf ac nid yw'n gost-effeithiol mwyach i barhau i ddarparu'r cyrsiau hyn yn eu ffurf bresennol. Mae gwaith yn mynd rhagddo i adolygu ein hanghenion a'n dull o weithredu yn y dyfodol pan ddaw'r cyrsiau hyn i ben.

**Aelodaeth gyswllt o Sefydliad Brenhinol y Syrfewyr Siartredig**
Mae staff sydd eisoes yn dilyn y rhaglen i ennill aelodaeth gyswllt o Sefydliad Brenhinol y Syrfewyr Siartredig yn parhau â'u gweithgareddau, ond ni fu modd derbyn unrhyw recriwtiaid newydd o ganlyniad i'r newidiadau i'r llwybr i aelodaeth. Mae hyn wedi rhoi cyfle i ni adolygu ennill sgiliau cynlluniau hanfodol, ochr yn ochr â'r adolygiad o gymwysterau cofrestru tir eraill, wrth i ni geisio grymuso technegwyr â'r sgiliau technegol sydd eu hangen arnynt yn y dyfodol.

**Arweinwyr y Dyfodol**
Mae'r rhaglen Arweinwyr y Dyfodol, a ddechreuodd ym mis Medi 2005, wedi gweld sawl llwyddiant nodedig y flwyddyn hon wrth i staff ar y rhaglen gael eu dyrchafu i raddau uwch, gan godi sawl gradd ar y tro mewn rhai achosion. Wrth i'r sefydliad symud yn ei flaen byddwn yn ailasesu beth rydym yn ei ddisgwyl gan ein harweinwyr presennol a'n darpar arweinwyr gan ddysgu gwersi o'r rhaglen hon, nid lleiaf drwy fynd i'r afael â'r gofyniad i fodloni anghenion hyfforddi parhaus y rhai sy'n cwblhau'r rhaglen ac sy'n cael swyddi newydd a heriol.

**Hyfforddiant mewnol**
Yn ystod 2011, mae'r Grŵp Galluoedd wedi cynnig gweithdai i gyflwyno'r weledigaeth a'r gwerthoedd newydd, gan sicrhau bod staff yn ymwybodol o'r mathau o ymddygiad a ddisgwylir ganddyn nhw a'u rheolwyr er mwyn darparu'r gwasanaethau sydd eu hangen ar ein cwsmeriaid yn y dyfodol. Mae'r cyrsiau Datblygu Gallu Rheolwyr yn parhau i'r rheolwyr hynny sy'n newydd i rôl rheolwr llinell o ganlyniad i newidiadau strwythurol yn y sefydliad. Cynhaliwyd gweithdai ar reoli absenoldeb salwch hefyd.

Mae aelodau o'n timau cwsmeriaid yn parhau i weithio ar agweddau technegol ar gofrestru tir yn ogystal â phynciau megis y defnydd cynyddol o teleffoni a'r system rheoli cysylltiadau cwsmeriaid. Mae pob aelod o staff wedi cymryd rhan yn yr hyfforddiant diogelu gwybodaeth blynyddol.

| Agwedd | Diwrnodau hyfforddeion |
|---|---|
| Sefydlu | 12 |
| Galwedigaethol (cofrestru tir) | 22,462 |
| Rheoli | 1,926 |
| Allanol | 2,086 |

Roedd y cyfanswm gwariant ar yr holl hyfforddiant yn cynrychioli 5.8 y cant o'r bil cyflogau.

**Amrywiaeth**
Mae'r agenda amrywiaeth wedi'i sefydlu'n llwyddiannus ym musnes y Gofrestrfa Tir. Mae amcanion amrywiaeth wedi cael eu cynnwys yng nghynlluniau busnes adrannol ac mae'r mwyafrif o'r polisïau wedi cael eu sgrinio ar gyfer asesiad effaith cydraddoldeb. Rydym wrthi'n adolygu ein proses dadansoddi cydraddoldeb ar hyn o bryd i sicrhau ei bod yn bodloni'r ddyletswydd cydraddoldeb sector cyhoeddus newydd.

Mae asesu effaith wedi ffurfio rhan hanfodol o brosesau newid sefydliadol. Mae'r Rhaglen Trawsnewid Cyflymedig (RhTC) wedi cael asesiad effaith cydraddoldeb llawn, a dros y 12 mis diwethaf mae gwaith o fewn cynllun gweithredu'r asesiad effaith cydraddoldeb wedi sicrhau nad yw newidiadau wedi'u cyflwyno gan y RhTC wedi creu unrhyw wahaniaethu.

Mae hyrwyddwyr amrywiaeth gennym ar lefel Bwrdd ac yn yr uwch dîm rheoli ar draws y busnes. Mae ein hyrwyddwyr amrywiaeth lleol wedi chwarae rôl allweddol wrth sicrhau bod amrywiaeth wedi'i integreiddio yn ein gweithgareddau o ddydd i ddydd. Mae hyn wedi cynnwys sicrhau bod ein proses asesu perfformiad bresennol wedi cael ei phrofi ar sail cydraddoldeb.

Mae ein tri grŵp ffocws amrywiaeth yn parhau i chwarae rôl weithgar mewn prosiectau mawr. Ein nod yw uno'r tri grŵp i greu un gweithgor amrywiaeth a fydd yn helpu'r busnes i weithredu ar ein hamcanion cydraddoldeb allweddol. Bydd y tri grŵp yn parhau i gael rôl fwy cefnogol a rhithwir.

Erbyn hyn mae monitro amrywiaeth yn ffurfio rhan o'n harolwg cwsmeriaid a chyflwynwyd monitro amrywiaeth ar gyfer cwsmeriaid sy'n ymweld â swyddfeydd lleol. Rydym wedi adolygu'r broses ar gyfer sicrhau bod pob cyhoeddiad a dogfen swyddogol yn hygyrch i gwsmeriaid a chymryd camau i sicrhau bod ein gwefannau allanol yn bodloni safonau hygyrchedd. Mae rhai problemau i'w hystyried eto ond rydym yn gobeithio datrys y rhain cyn bo hir.

Rydym yn hapus â'r cynnydd a wnaed o ran amrywiaeth ym maes caffael. Mae offer asesu risg i gyflenwyr yn cael eu defnyddio gan bob rheolwr contract. Mae'r broses hon hefyd yn cael ei defnyddio i sgrinio cyflenwyr a chaffael. Cytunwyd erbyn hyn ar fodel safonau caffael corfforaethol i'w mabwysiadu ar draws y sefydliad sy'n cynnwys darpariaethau amrywiaeth. Mae angen gwneud mwy o waith i ddatblygu rhestr wirio caffael.

Mae ein Grŵp Ffocws Pobl Dduon a Lleiafrifoedd Ethnig wedi cydweithio â'r adran Adnoddau Dynol (AD) i ddatblygu'r cwrs 'Rhyddhau eich Potensial'. Mae'r cwrs wedi cael ei ehangu erbyn hyn i gynnwys ein staff anabl. Bydd mentrau gweithredu cadarnhaol pellach yn canolbwyntio ar gynyddu amrywiaeth yr aseswyr hyfforddedig ac yn ystyried datblygu cyfleoedd mentora. Bydd gwaith hefyd yn cysylltu â'r newidiadau a gyflwynwyd drwy'r prosiect AD y Genhedlaeth Nesaf a rhannu mwy o wasanaethau ar draws adrannau AD y Gwasanaeth Sifil.

Mae monitro prosesau AD wedi'i sefydlu bellach ac yn rhan o'r busnes arferol.

**Gweithwyr a materion cymdeithasol a chymunedol**
Rydym yn parhau i fod yn ymrwymedig i gyfrifoldeb corfforaethol ac yn parhau i gael hyd i gyfleoedd i hyrwyddo a chorffori ymddygiad busnes cyfrifol yn ein sefydliad. Mae aelodau staff y Gofrestrfa Tir wedi parhau i gymryd rhan mewn cyfleoedd gwirfoddoli yn y gymuned, a byddwn yn ceisio annog mwy o staff i wirfoddoli drwy hybu ein polisi gwirfoddoli a gweithgareddau penodol gyda chymorth parhaus Busnes yn y Gymuned.

Mae staff yn swyddfeydd Plymouth a Systemau Gwybodaeth wedi ennill gwobr yn ddiweddar gan bartner cyflenwi lleol, sef Shekinah Mission am eu gwaith gwirfoddol fel hyfforddwyr swyddi. Yn ogystal â chynnig budd mawr i'r gymuned leol, roedd yn gyfle i'r staff fagu hyder a datblygu eu sgiliau rhyngbersonol eu hunain, sydd wedi helpu i wella eu perfformiad yn y gweithle. Mae'r gwaith hwn yn ffurfio rhan o ymgyrch Gweithredu Busnes ar Ddigartrefedd Busnes yn y Gymuned, a thrwy ein haelodaeth barhaus o Fusnes yn y Gymuned rydym wedi cymryd rhan mewn digwyddiadau rhanbarthol wedi'u trefnu gan Rwydwaith Calan Mai y Tywysog, sef cydweithrediad o fusnesau'n gweithredu ar newid hinsawdd.

**Cynnwys gweithwyr**
Rydym yn parhau i sicrhau bod staff yn cael gwybodaeth a'n bod ni'n ymgynghori â nhw yn ffurfiol ac yn anffurfiol drwy strwythurau a dulliau sefydledig. Mae cyfleoedd ffurfiol i ymgynghori a thrafod â'n hundebau staff yn cynnwys Cyngor Adrannol Whitley a Phwyllgorau Lleol Whitely a'r Pwyllgor Adrannol Iechyd a Diogelwch. Byddwn yn ymgynghori hefyd y tu allan i'r fforymau hyn ar sail fwy ad hoc yn ystod, er enghraifft, prosesau

datblygu polisi, ar drafodaethau tâl, ac yn ystod rhaglenni newid, drwy gyfarfodydd priodol neu gyfnewid gohebiaeth neu negeseuon e-bost.

Yn ogystal ag ymgynghori â'r undebau, rydym hefyd yn sicrhau bod ein staff yn cael gwybodaeth am berfformiad busnes ac yn cael cyfle i gyfrannu at weithgareddau a datblygiadau pwysig drwy'r defnydd helaeth o gyfathrebu electronig, arolygon, briffio timau, gweithdai a rhaeadru gwybodaeth gan reolwyr llinell. Mae'r rhaglen Trawsnewid AD, a ddaeth i ben ym Mawrth 2010, wedi arwain y ffordd o ran newid diwylliannol yn y Gofrestrfa Tir, gan rymuso rheolwyr llinell i fod yn fwy cyfrifol am reoli pobl o ddydd i ddydd a chynnwys gweithwyr.

Mae canlyniadau arolygon staff diweddar wedi rhoi darlun clir iawn i ni o'r gwaith y mae'n rhaid i ni ei wneud er mwyn gwella lefelau ymgysylltu â staff. Rydym yn ffyddiog y bydd y buddsoddiad sylweddol sy'n cael ei wneud i lansio ein gweledigaeth a'n gwerthoedd a dechreuodd o ddifrif yn rhan olaf 2010/11 yn cael effaith gadarnhaol ar ymgysylltu â staff.

**Gwobr i Adnoddau Dynol**
Pan gyhoeddwyd penderfyniadau RhTC i gau swyddfeydd a dileu swyddi, dywedodd y Gofrestrfa Tir y byddai'n gwneud popeth a allai i leihau'r effaith ar y staff sy'n cael eu heffeithio mwyaf.

Roedd Adnoddau Dynol (AD) wedi sicrhau bod rhwydweithiau o gymorth mewnol ac allanol ar gael, gan gydweithio'n agos â'r Ganolfan Byd Gwaith ac arbenigwyr all-leoli i gynnig cyngor ar yrfaoedd a chyflogaeth.

Roedd tîm o gynrychiolwyr AD mewnol sy'n gweithio'n lleol yn y lleoliadau a effeithir ac yn ganolog yng Nghanolfan Gwasanaeth AD wedi rhoi gwybodaeth am ddileu swyddi, adleoli a dewisiadau ailgyflogi.

Cafodd llwyddiannau AD eu cydnabod yng Ngwobrau'r Gwasanaeth Sifil 2010. Roedd y tîm yn fuddugol yn y categori Rheoli Adnoddau ac wedi cyrraedd y rhestr fer ar gyfer y brif Wobr AD.

Gwahoddwyd cynrychiolwyr o'r tîm, ar y cyd â'r Prif Weithredwr, i Balas Buckingham i dderbyn eu gwobr.

**Rheoli eiddo**
Mae'r strategaeth ystadau wedi cael ei llywio'n bennaf gan y Rhaglen Trawsnewid Cyflymedig (RhTC), gyda nifer o waredіadau eiddo yn 2010/11 ac adeiladau eraill yn cael eu datgan yn rhai nad oes eu hangen.

Gwerthwyd adeilad y Brif Swyddfa yn Lincoln's Inn Fields yn Llundain ym mis Mawrth 2011 am £37.5 miliwn, gyda'r Brif Swyddfa yn adleoli i Swyddfa Croydon.

Mae Swyddfa Tunbridge Wells yn cau ym mis Mehefin 2011, a gwerthwyd ei hadeilad Forest Court ym mis Chwefror 2011 am £10 miliwn. Gwerthwyd Tŷ Bryn Glas (Swyddfa Abertawe gynt) ym mis Ebrill 2011 am £3 miliwn.

Mae adeiladau rhydd-ddaliol St Andrew's Court yn Portsmouth (Swyddfa Portsmouth gynt), Birkenhead House yn Lytham (Swyddfa Lytham gynt) a Plumer House yn Plymouth (Swyddfa Plymouth gynt) wedi cael eu datgan yn adeiladau nad oes eu hangen a chafwyd cynigion i'w prynu.

Hefyd penderfynodd y Bwrdd Gweithredol y dylid gwerthu ac adleoli Swyddfa Nottingham yn 2015 yn hytrach na 2012.

Mae James House, cyn adeilad Swyddfa Caerefrog, yn nwylo'r Gofrestrfa Tir o hyd ar brydles. Mae rhan o'r adeilad yn cael ei his-osod i adran arall o'r llywodraeth.

Mae Swydd Plymouth, Systemau Gwybodaeth a Chaffael wedi uno'n llwyddiannus yn Seaton Court Plymouth.

Mae strategaeth o rannu lle dros ben ag adrannau eraill o'r llywodraeth yn fwyfwy cyffredin, ac mae nifer o fentrau eisoes ar y gweill.

**Rheoli cyfleusterau**
Ein strategaeth dros y 18 mis diwethaf oedd rhoi'r gwaith o reoli cyfleusterau i un darparwr ar draws y sefydliad, gan gadw swyddogaeth reoli ganolig fewnol graidd yn Nottingham yn bennaf. Dyfarnwyd y contract i Carillion ym mis Rhagfyr 2010 ac aeth yn fyw ar 1 Ebrill 2011.

**Storfeydd ffeiliau rhanbarthol**
Bydd TNT UK Ltd yn gweithredu ein storfeydd ffeiliau rhanbarthol o 1 Gorffennaf 2011 yn dilyn penderfyniad i ymuno â Fframwaith Rheoli Cofnodion Trawslywodraethol y Weinyddiaeth Amddiffyn. Llofnodwyd cytundeb gwasanaeth â'r Weinyddiaeth Amddiffyn ym mis Ebrill 2011 gan gynnig modd i ni ymuno â fframwaith y Weinyddiaeth Amddiffyn a chael mynediad i wasanaethau TNT.

**Rheolaeth amgylcheddol**

Daeth y gofyniad i adrodd yn erbyn targedau Gweithrediadau Cynaliadwy ar Ystad y Llywodraeth (GCYLI) i ben ar ddiwedd Mawrth 2011 a chaiff y targedau eu disodli gan Ymrwymiad Gwneud y Llywodraeth yn Fwy Gwyrdd. Rydym wedi gweithio'n effeithiol drwy gydol cyfnod GCYLI a chyrraedd y targedau a osodwyd a'r dyddiad cwblhau oedd Mawrth 2011 (gweler tudalennau 66-67). Rydym yn parhau i ddefnyddio ein System Rheolaeth Amgylcheddol i sicrhau rheolaeth ddigonol o'n hamcanion cynaliadwyedd.

**Iechyd a diogelwch**

Mae'r risgiau iechyd a diogelwch pwysicaf sy'n wynebu'r Gofrestrfa Tir yn parhau i gael eu holrhain fel rhan o'r gwaith ar Ddeddf Dynladdiad Corfforaethol a Lladd Corfforaethol 2007. Y risgiau a nodwyd yw gyrru yn y gwaith, gweithio y tu allan i'r swyddfa, codi a chynnal a chadw adeiladau a llithro, baglu a chwympo. Lluniwyd adroddiadau chwemisol i'r Bwrdd Risg Busnes er mwyn monitro cynnydd y mesurau rheoli sy'n ceisio lleddfu'r risgiau hyn, a bydd adroddiadau yn cael eu rhoi i'r Bwrdd Gweithredol yn y dyfodol fel rhan o newidiadau i drefniadau llywodraethu iechyd a diogelwch.

Un darn o waith pwysig a wnaed yn ystod y flwyddyn oedd cynllunio a pharatoi ar gyfer newid y ffordd y mae iechyd a diogelwch yn cael ei rheoli. Yn draddodiadol mae iechyd a diogelwch wedi cael ei reoli gan staff mewnol, ond newidiodd hyn o 1 Ebrill 2011 fel rhan o'r contract allanoli cyfleusterau. Yn y dyfodol byddwn yn parhau i fod yn gyfrifol am bolisi a strategaeth iechyd a diogelwch ond bydd y gwaith o reoli iechyd o ddiogelwch yn gyfrifoldeb ein darparwr gwasanaeth cyfleusterau. Mae sawl darn o waith wedi cael eu cwblhau i sicrhau pontio hwylus, gan gynnwys adolygiad cynhwysfawr o bolisi iechyd a diogelwch cyffredinol y Gofrestrfa Tir.

Mae rhaglen o archwiliadau wedi'i chwblhau yn ystod y flwyddyn i sicrhau bod adeiladau'n parhau i gydymffurfio â rheoliadau a deddfwriaeth iechyd a diogelwch.

Cyfradd y damweiniau a gofnodwyd y 100 o staff oedd 0.52, a llithro, baglu a chwympo yw'r categori mwyaf o ddamweiniau o hyd. Mae saith damwain wedi cael eu hadrodd i'r Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch o dan Reoliadau Adrodd am Anafiadau, lleihad o'r naw damwain adroddadwy yn ystod 2009/10.

# Adroddiad y Prif Weithredwr

**Bwrdd y Gofrestrfa Tir**
Mae Bwrdd y Gofrestrfa Tir, dan gadeiryddiaeth y Prif Gofrestrydd Tir a Phrif Weithredwr, yn gyfrifol am gyfeiriad strategol, llywodraethu da a pherfformiad cyffredinol y Gofrestrfa Tir. Mae dau gyfarwyddwr anweithredol yn eistedd ar y Bwrdd. Yn ystod 2010/11, roedd aelodau'r Bwrdd fel a ganlyn.

| | |
|---|---|
| Marco Pierleoni | Prif Gofrestrydd Tir a Phrif Weithredwr[1] |
| Malcolm Dawson OBE | Prif Gofrestrydd Tir a Phrif Weithredwr[1] |
| Alasdair Lewis | Cyfarwyddwr Dros Dro Gwasanaethau Cyfreithiol a Dirprwy Brif Gofrestrydd Tir |
| John Peaden | Cyfarwyddwr Dros Dro Gweithrediadau a Gwasanaeth Cwsmeriaid |
| Heather Foster | Cyfarwyddwr Cyllid |
| John Wright | Cyfarwyddwr Systemau Gwybodaeth |
| Annette Davies-Govett | Cyfarwyddwr Strategaeth Fasnachol a Chwsmeriaid |
| Katie Gordon-Smith | Cyfarwyddwr Dros Dro Strategaeth Fasnachol a Chwsmeriaid[2] |
| Malcolm Dawson OBE | Cyfarwyddwr Adnoddau Dynol |
| David Evans | Cyfarwyddwr Dros Dro Adnoddau Dynol[3] |
| Dr Catherine Raines | Cyfarwyddwr Anweithredol |
| Mike Cutt | Cyfarwyddwr Anweithredol (o 1 Mai 2010) |

[1]Roedd Marco Pierleoni wedi ymddiswyddo fel Prif Gofrestrydd Tir a Phrif Weithredwr ar 21 Mawrth 2011 a phenodwyd Malcolm Dawson yn Brif Gofrestrydd Tir a Phrif Weithredwr ar 22 Mawrth 2011.
[2]Penodwyd Katie Gordon-Smith yn Gyfarwyddwr Dros Dro Strategaeth Fasnachol a Chwsmeriaid ar 15 Mawrth 2011 yn dilyn salwch hirdymor Annette Davies-Govett.
[3]Penodwyd David Evans yn Gyfarwyddwr Dros Dro Adnoddau Dynol ar 25 Mawrth 2011.

Cyfarfu Bwrdd y Gofrestrfa Tir bum gwaith yn ystod y flwyddyn. Mae manylion tâl aelodau Bwrdd y Gofrestrfa Tir a wasanaethodd yn ystod 2010/11 i'w gweld yn yr adroddiad tâl (gweler tudalen 33). Nid oedd gan unrhyw aelod o'r Bwrdd unrhyw swydd cyfarwyddwr neu fudd sylweddol arall oedd yn gwrthdaro â'u cyfrifoldebau fel aelod o Fwrdd y Gofrestrfa Tir.

Mae'r Bwrdd Gweithredol, sydd wedi'i ffurfio o gyfarwyddwyr gweithredol y Gofrestrfa Tir yn unig, yn cyflwyno cynllun busnes blynyddol y Gofrestrfa Tir ac mae'n gyfrifol am reoli'r Gofrestrfa Tir o ddydd i ddydd. Cyfarfu 10 gwaith yn ystod y flwyddyn.

Mae Bwrdd y Gofrestrfa Tir a'r Bwrdd Gweithredol yn cael eu cynorthwyo gan nifer o is-fyrddau, sydd naill ai'n arolygu agweddau penodol ar weithrediadau'r Gofrestrfa Tir neu'n rhoi sicrwydd. Gwnaethpwyd rhai newidiadau i'r strwythur llywodraethu hwn yn ystod y flwyddyn, sef disodlwyd y Bwrdd Indemniad a'r Bwrdd Materion Technegol gan fwrdd newydd, Bwrdd Diogelu'r Gofrestr, o dan gadeiryddiaeth Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cyfreithiol.

**Pwyllgor Archwilio'r Gofrestrfa Tir**
Mae'r Pwyllgor Archwilio yn rhoi sicrwydd i'r Bwrdd fod gweithgareddau'r Gofrestrfa Tir yn unol â safonau atebolrwydd cyhoeddus priodol. Cyfarfu'r Pwyllgor Archwilio bedair gwaith yn ystod y flwyddyn. Mae'r Prif Weithredwr, y Cyfarwyddwr Cyllid, Pennaeth Archwilio Mewnol a'n harchwilwyr allanol yn mynychu cyfarfodydd y pwyllgor yn rheolaidd. Yn ystod 2010/11 roedd aelodau'r Pwyllgor Archwilio fel a ganlyn.

| | |
|---|---|
| Dr Catherine Raines | Cyfarwyddwr Anweithredol a Chadeirydd |
| Vaughan Williams | Aelod annibynnol |
| John Wright | Cyfarwyddwr Systemau Gwybodaeth |
| David Cleasby | Pennaeth y Grŵp Gweithrediadau Canolog/Rheolwr Ardal Portsmouth, Croydon a Tunbridge Wells |

Nid oedd gan unrhyw aelod o'r Pwyllgor Archwilio unrhyw swydd cyfarwyddwr neu fudd sylweddol arall oedd yn gwrthdaro â'i gyfrifoldebau fel aelod o Bwyllgor Archwilio'r Gofrestrfa Tir.

**Archwilwyr**
Mae'r cyfrifon wedi cael eu harchwilio gan y Rheolwr ac Archwilydd Cyffredinol (RhaAC). Cost y gwaith archwilio hwn ar gyfer 2010/11 oedd £67,500 (2009/10: £70,000). Mae'r gost ar gyfer gwasanaethau archwilio yn ymwneud â'r archwiliad statudol.

Hyd y gŵyr y Swyddog Cyfrifyddu, nid oes unrhyw wybodaeth archwilio berthnasol nad yw archwilwyr y Gofrestrfa Tir yn ymwybodol ohoni. Mae'r Swyddog Cyfrifyddu wedi cymryd pob cam y dylasai fod wedi'i gymryd i fod yn ymwybodol o unrhyw wybodaeth archwilio berthnasol a sicrhau bod yr archwilwyr yn ymwybodol o'r wybodaeth honno.

**Pensiynau**
Fe welwch fanylion am gostau a rhwymedigaethau pensiwn a sut y cânt eu trin yn y cyfrifon yn nodyn 1.6 ar y cyfrifon, ac mae gwybodaeth bellach yn ymwneud â phensiynau wedi'i chynnwys yn nodyn 4.4 ar y cyfrifon ac yn yr adroddiad tâl.

**Taliadau**
Rydym yn cydymffurfio â Deddf Hwyr-dalu Dyledion Masnach (Llog) 1998 a'r Cod Ymarfer Talu Gwell. Yn ystod y flwyddyn cafodd y gofyniad i dalu anfonebau cyflenwyr yn brydlon o dan y Cod Ymarfer Gwell ei leihau o 10 i bum diwrnod gwaith. Ar gyfer y pedwar mis cyntaf o'r flwyddyn ariannol talwyd 99.5 y cant o anfonebau a dderbyniwyd gan gyflenwyr cyn pen 10 diwrnod gwaith (neu'r telerau a gytunwyd o dan y contract os nodir fel arall). Yn ystod wyth mis arall y flwyddyn talwyd 97.1 y cant o'r anfonebau a dderbyniwyd gan gyflenwyr cyn pen pum diwrnod gwaith. Nid yw'r ganran hon yn cynnwys anfonebau sy'n destun anghydfod.

**Prif risgiau ac ansicrwydd y busnes**
Mae'r Gofrestrfa Tir yn wynebu heriau a risgiau i gyflawni ein hamcanion busnes strategol. Mae risgiau strategol allweddol presennol yn ymwneud â thwyll cofrestru; methiant ein cyfleusterau cyfrifiadura; a chywirdeb ein cofrestr. Mae strategaeth rheoli risg ar waith ar bob lefel yn y sefydliad i sicrhau bod risgiau'n cael eu rheoli'n effeithiol.

**Digwyddiadau cysylltiedig â data personol**
Yn ystod 2010/11, ni chafodd unrhyw ddigwyddiadau cysylltiedig â data personol wedi'u diogelu eu hadrodd yn ffurfiol i Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth. Cafwyd 14 o ddigwyddiadau cysylltiedig â data personol wedi'u diogelu a gofnodwyd yn ganolog oedd heb eu hadrodd yn ffurfiol i Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth fel y manylir yn y tabl gyferbyn.

**Crynodeb o ddigwyddiadau cysylltiedig â data personol a ddiogelir**
Mae digwyddiadau sydd ym marn y Rheolwr Data heb eu cynnwys o fewn y meini prawf ar gyfer adrodd i Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth ond wedi'u cofnodi'n ganolog o fewn yr adran i'w gweld yn y tabl isod. Nid yw digwyddiadau bach, lleol wedi'u cofnodi'n ganolog ac nid ydynt wedi'u crybwyll yn y ffigurau hyn.

| Categori | Natur y digwyddiad | Cyfanswm |
|---|---|---|
| I | Colli offer electronig, dyfeisiau neu ddogfennau papur heb eu diogelu'n ddigonol o adeiladau diogel y Llywodraeth | 3 |
| II | Colli offer electronig, dyfeisiau neu ddogfennau papur heb eu diogelu'n ddigonol o'r tu allan i adeiladau diogel y Llywodraeth | 10 |
| III | Gwaredu offer electronig, dyfeisiau neu ddogfennau papur heb eu diogelu'n ddigonol mewn modd anniogel | - |
| IV | Datgelu heb ei awdurdodi | - |
| V | Arall | 1 |

**Adnoddau a budd-ddeiliaid**
Mae'r Gofrestrfa Tir wedi gweithredu fel adran ar wahân o'r llywodraeth ers 1862, fel asiantaeth weithredol ers Gorffennaf 1990 ac fel cronfa fasnachu ers 1993. Yn ôl statud, mae'n ofynnol i ni sicrhau bod ein hincwm o ffioedd yn cwmpasu ein holl wariant o dan amodau gweithredu arferol.

Mae ein sefyllfa gyfreithiol a statws fel adran anweinidogol o'r llywodraeth wedi'i nodi yn ein Dogfen Fframwaith, a daeth y fersiwn diweddaraf ohoni i rym ym Mehefin 2008. Mae'r fframwaith hwn yn amlinellu rôl a chyfrifoldebau'r Prif Gofrestrydd Tir a Phrif Weithredwr a rhai'r Arglwydd Ganghellor ac Ysgrifennydd Gwladol.

Fel rhan o'r Rhaglen Trawsnewid Cyflymedig (RhTC), dadansoddwyd ein gweithgareddau di-graidd er mwyn adnabod meysydd lle y gellid cael buddion naill ai trwy drawsnewid y ffordd y mae'r gwasanaeth yn cael ei darparu'n fewnol neu drwy roi'r gweithgaredd i'r sector preifat.

O ganlyniad i'r adolygiad hwn, mae arbedion mawr wedi cael eu nodi yn y bwrdd gwaith TG mewnol a'r gwasanaethau argraffu canolog a threfnwyd contractau allanol ar gyfer sawl maes pwysig. Mae'r rhain yn cynnwys rheoli holl gyfleusterau ystad gyfan y Gofrestrfa Tir; reprograffig ac argraffu dogfennau; a ffeilio, storio ac adfer 88 miliwn o ffeiliau.

Bydd y prosiect cyrchu RhTC yn creu arbedion o hyd at £68 miliwn dros gyfnod o 10 mlynedd, ynghyd â buddion drwy gael mwy o dryloywder cost, cynnydd yng nghyfran y costau sy'n newidiol yn hytrach nag yn sefydlog, a mynediad i arloesi a sgiliau newydd. Gan gydnabod y pwyslais cynyddol ar allanoli, rydym yn gwella ein gallu masnachol drwy raglen i ddatblygu sgiliau ac ymddygiad y rhai sy'n rheoli'r gwasanaethau dan gontract, h.y. datblygu ein gallu 'cwsmer deallus'.

Ym mis Hydref 2010, cyhoeddodd y gweinidogion eu bod nhw wedi gofyn i swyddogion y Weinyddiaeth Gyfiawnder arwain astudiaeth ddichonoldeb ar y cyfleoedd a gynigir drwy ehangu rôl y sector preifat yng ngwaith y Gofrestrfa Tir. Roedd hyn mewn ymateb i adolygiad Swyddfa'r Cabinet o Gyrff Hyd Braich.

Ar hyn o bryd mae'r gweinidogion yn ystyried canlyniad yr astudiaeth ddichonoldeb ochr yn ochr â chynigion Swyddfa'r Cabinet i ddatblygu Corfforaeth Data Cyhoeddus. Mae gweinidogion yn awyddus i ddeall effaith bosibl polisïau data ar y dewisiadau sy'n cael eu hystyried o dan yr Astudiaeth Ddichonoldeb. Ar adeg cyhoeddi'r adroddiad hwn, rydym yn dal i aros am ganlyniadau ystyriaethau'r gweinidogion, ond mae'n amlwg y gallai'r canlyniadau hyn olygu mwy o newid i'r Gofrestrfa Tir a'n pobl.

## Adolygiad Gweithredu ac Ariannol

*Datganiad o incwm cynhwysfawr*
Mae'r galw isel am ein busnes craidd wedi parhau gyda gostyngiad pellach o 13 y cant yn swm y gwaith o'i gymharu â'r flwyddyn ddiwethaf o ganlyniad i'r farchnad dai sy'n dal i fod yn araf a'r ffaith bod llai o forgeisi ac ailforgeisi ar gael. Fodd bynnag oherwydd bod incwm am y flwyddyn lawn yn seiliedig ar Orchymyn Ffi Gorffennaf 2009, roedd yr incwm ffioedd am y flwyddyn yn £351 miliwn o'i gymharu â £328.4 miliwn yn 2009/10.

Mae'r busnes wedi gweld lleihad cyffredinol mewn costau gweithredu a gweinyddu o 8 y cant o £309.0 miliwn yn 2009/10 i £285.6 miliwn ar gyfer y flwyddyn hon, gan greu gwarged gweithredol o £65.4 miliwn (£19.5 miliwn yn 2009/10).

Rydym wedi parhau i resymoli ein costau. Roedd y RhTC yn cynnwys cau tair swyddfa leol, sef Portsmouth, Tunbridge Wells a Stevenage, rhwng Chwefror a Mehefin 2011, marchnata'r holl adeiladau a gwerthu swyddfa Tunbridge Wells yn ystod y flwyddyn ariannol am £10 miliwn. Roedd y RhTC hefyd wedi cynnwys adleoli gwaith y Brif Swyddfa yng nghanol Llundain o Lincoln's Inn Fields i swyddfa leol Croydon erbyn Mawrth 2011 a gwerthu'r adeilad yng nghanol Llundain am £37.5 miliwn; adleoli staff Swyddfa Plymouth o Plumer House i Seaton Court; a marchnata Plumer House.

Roedd gwerthu adeiladau canol Llundain a Tunbridge Wells wedi cynhyrchu elw o £40.07 miliwn. Roedd adeiladau yn Plymouth, Stevenage a Portsmouth yn cael eu dal ar werth ar ddiwedd y flwyddyn ynghyd â'r adeiladau yn Abertawe a Lytham, sydd hefyd yn y categori hwn. Roedd y tri adeilad ychwanegol hyn wedi symud o werth defnyddio i werth y farchnad, gan greu addasiad ar i lawr o £2.4 miliwn.

Yn dilyn ymgynghoriad penderfynwyd gohirio datblygu e-arwystlon a e-drosglwyddiadau ymhellach a chanolbwyntio yn lle hynny ar ddarparu gwasanaeth cyflwyno ac anfon ceisiadau gwaith achos electronig i gwsmeriaid. Yn sgil hynny cynhaliwyd adolygiad o'r datblygiad wedi'i gyfalafu, wedi'i ailddiffinio er mwyn adlewyrchu asedau wedi'u datblygu gan y busnes ac sy'n cael eu defnyddio erbyn hyn i ddarparu gwasanaethau electronig yn awr ac yn y dyfodol.

Mae'r adolygiad yn golygu bod £12.7 miliwn o ymchwil a datblygu ac amorteiddio 'dal i fyny' wedi cael ei ddileu na ddisgwylir iddo ddarparu llifoedd incwm digonol a £4 miliwn o gostau na ddylai, yn dilyn ymchwiliad, fod wedi cael eu trin fel gwariant datblygu, wedi'i ddangos fel addasiad cyfnod blaenorol.

Mae'r asedau a chynhyrchion e-drawsgludo anniriaethol sy'n cael eu defnyddio ar hyn o bryd wedi cynhyrchu £4.5 miliwn o amorteiddio yn ystod y flwyddyn (£2.3 miliwn yn 2009/10).

Mae costau staff yn cynrychioli'r mwyafrif o'n gwariant. Yn ystod y flwyddyn roedd niferoedd staff wedi parhau i leihau drwy'r cynlluniau diswyddo gwirfoddol fel rhan o'r RhTC. Y cyfanswm cost yn ystod y flwyddyn oedd £80.2 miliwn (2009/10 £27.2 miliwn).

O ganlyniad i'r costau ychwanegol hyn a oedd yn ychwanegol at ein costau gweithredu arferol, gwnaeth y Gofrestrfa Tir ddiffyg cynhwysfawr o £2.9 miliwn (2009/10 £30.1 miliwn).

Ein cost arian parod yr uned ar ddiwedd y flwyddyn oedd £30.64 yn y flwyddyn yn erbyn targed o £33.95. Roedd ein henillion ar gyfalaf cyfartalog a ddefnyddiwyd yn 16.4 y cant yn erbyn targed o 3.5 y cant.

Yn unol â chytundeb gyda Thrysorlys EM, mae difidend arian parod o £14 miliwn am y flwyddyn ariannol yn seiliedig ar ein cyfalaf cyfartalog a ddefnyddiwyd yn daladwy i'r Gronfa Gyfunedig (2009/10: £15.3 miliwn).

*Asedau sefydlog*
Cynhaliwyd prisiad llawn o'r ystad yn Ionawr 2011 gan y Swyddfa Brisio ac roedd gwerth yr ystad wedi cynyddu gan £0.676 miliwn.

Gwnaethpwyd cyfanswm gwariant cyfalaf o £18.1 miliwn yn ystod y flwyddyn.

*Y Gronfa Indemniad*
Yn unol â pholisi'r Gofrestrfa Tir, cynhaliwyd prisiad actiwaraidd llawn o'r Gronfa Indemniad gan Lane Clark & Peacock, cwmni o actiwarïaid. Roedd ei adroddiad, wedi'i ddiweddaru ar gyfer trafodion am y tri mis hyd at 31 Mawrth 2011, yn argymell lleihad yn y Gronfa Indemniad o £1.2 miliwn i £21.8 miliwn (£23.0 miliwn yn 2009/10).

**Malcolm Dawson**
Prif Gofrestrydd Tir a Phrif Weithredwr a Swyddog Cyfrifyddu

20 Mehefin 2011

# Cyfrifon 2010/11

# Datganiad o gyfrifoldebau'r Swyddog Cyfrifyddu

O dan Adran 4(6) o Ddeddf Cronfeydd Masnachu'r Llywodraeth 1973, mae'r Trysorlys wedi cyfarwyddo'r Gofrestrfa Tir i baratoi datganiad o gyfrifon ar gyfer pob blwyddyn ariannol ar ffurf ac ar sail a nodir yn y Cyfarwyddyd Cyfrifon y cyfeirir ato yn nodyn 1.1 ar dudalen 44. Mae'r cyfrifon yn cael eu paratoi ar sail croniadau ac mae'n rhaid iddynt roi darlun gwir a theg o gyflwr busnes y Gofrestrfa Tir a'i hincwm a'i gwariant, enillion a cholledion cydnabyddedig, a llifoedd arian parod am y flwyddyn ariannol.

Wrth baratoi'r cyfrifon, mae'n ofynnol i'r Swyddog Cyfrifyddu gydymffurfio â gofynion *Llawlyfr Adroddiadau Ariannol y Llywodraeth* ac yn arbennig:

- dilyn y Cyfarwyddyd Cyfrifon a gyhoeddwyd gan y Trysorlys, gan gynnwys y gofynion cyfrifyddu a datgelu perthnasol, a dilyn polisïau cyfrifyddu addas yn gyson
- llunio barnau ac amcangyfrifon sy'n rhesymol
- datgan a yw safonau cyfrifyddu cymwys fel y pennwyd yn *Llawlyfr Adroddiadau Ariannol y Llywodraeth* wedi cael eu dilyn, a datgelu ac esbonio unrhyw wyriadau pwysig yn y datganiadau ariannol
- paratoi'r datganiadau ariannol ar sail busnes gweithredol.

Mae'r Trysorlys wedi penodi Prif Weithredwr y Gofrestrfa Tir fel y Swyddog Cyfrifyddu ar gyfer y gronfa fasnachu. Mae cyfrifoldebau Swyddog Cyfrifyddu, gan gynnwys cyfrifoldeb dros briodoldeb a rheoleidd-dra arian cyhoeddus y mae'r Swyddog Cyfrifyddu yn atebol amdano, am gadw cofnodion priodol ac am ddiogelu asedau'r Gofrestrfa Tir, i'w gweld yn y Memorandwm Swyddogion Cyfrifyddu sy'n cael ei baratoi gan y Trysorlys a'i gyhoeddi yn *Rheoli Arian Cyhoeddus.*

# Datganiad ar reolaeth fewnol 2010/11

**1 Cwmpas cyfrifoldeb**
Fel y Swyddog Cyfrifyddu, rwyf yn gyfrifol am gynnal system gadarn o reolaeth fewnol sy'n cefnogi cyflawni polisïau, nodau ac amcanion y Gofrestrfa Tir a osodwyd gan yr Arglwydd Ganghellor ac Ysgrifennydd Gwladol dros Gyfiawnder, gan ddiogelu'r cronfeydd cyhoeddus a'r asedau adrannol rwyf innau'n bersonol gyfrifol amdanynt, yn unol â'r cyfrifoldebau a roddwyd i mi yn *Rheoli Arian Cyhoeddus*.

Rwyf yn adrodd ar berfformiad y Gofrestrfa Tir ac unrhyw faterion sydd i'w hystyried yn y dyfodol i'r Arglwydd Ganghellor ac Ysgrifennydd Gwladol dros Gyfiawnder bob chwe mis. Ar ôl pob adroddiad ysgrifenedig rwyf yn cwrdd â'r Gweinidog Gwladol (Cyfiawnder) sy'n arwain ar y Gofrestrfa Tir ar ran yr Arglwydd Ganghellor.

Mae'r broses monitro perfformiad yn cynnwys asesiad o unrhyw bryder ynghylch cyflawni amcanion strategol y Gofrestrfa Tir fel y manylir yn ei chynllun busnes blynyddol. Os yw unrhyw faterion, a allai newid yn sylweddol asesiad risg y Gofrestrfa Tir o gyflawni unrhyw un o'i hamcanion strategol, yn codi rhwng yr adroddiadau chwemisol hyn, byddai cyflwyniad yn cael ei wneud i'r Gweinidog Gwladol (Cyfiawnder) yn y lle cyntaf.

Fe'm penodwyd fel Prif Gofrestrydd Tir a Phrif Weithredwr ar 22 Mawrth 2011. Wrth baratoi'r datganiad hwn, rwyf wedi ystyried y camau a gymerwyd gan fy rhagflaenydd a Bwrdd y Gofrestrfa Tir yn ystod y flwyddyn i gynnal a gwella rheolaeth amgylcheddol, yn ogystal â'r dystiolaeth a'r sicrwydd a roddwyd i mi ers i mi gael fy mhenodi.

**2 Pwrpas y system rheolaeth fewnol**
Pwrpas y system rheolaeth fewnol yw rheoli risg i lefel resymol yn hytrach na dileu pob risg o fethu â chyflawni polisïau, nodau ac amcanion; felly gall ddarparu sicrwydd rhesymol yn unig ac nid sicrwydd llwyr o effeithiolrwydd. Mae'r system rheolaeth fewnol yn seiliedig ar broses barhaus sy'n ceisio adnabod a blaenoriaethu'r risgiau i gyflawni polisïau, nodau ac amcanion adrannol, gwerthuso a yw'r risgiau hynny yn debygol o gael eu gwireddu a'r effaith pe byddent yn cael eu gwireddu, a'u rheoli'n effeithlon, yn effeithiol ac yn economaidd. Mae'r system rheolaeth fewnol wedi bod yn weithredol yn y Gofrestrfa Tir am y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2011 a hyd at ddyddiad cymeradwyo'r adroddiad blynyddol a chyfrifon, ac mae'n cydymffurfio â chyfarwyddyd y Trysorlys.

**3 Gallu i drin risg**
Fel Swyddog Cyfrifyddu, cydnabyddaf fy nghyfrifoldeb cyffredinol dros reoli risgiau yn effeithiol trwy'r Gofrestrfa Tir. Fodd bynnag, fel cyfrifoldeb rheoli, rwyf yn dirprwyo'n ffurfiol y cyfrifoldeb dros reolaeth fewnol a digonolrwydd trefniadau sicrwydd, yn achos llywodraethu corfforaethol cyfan, i gyfarwyddwyr unigol y Gofrestrfa Tir. Maent yn cyflwyno datganiad i mi bob blwyddyn sy'n cadarnhau bod system effeithiol o reolaeth fewnol ar gyfer rheoli risg ar waith ac yn gweithio o fewn eu maes cyfrifoldeb.

Mae risgiau strategol arwyddocaol i'r sefydliad yn cael eu hystyried gan Fwrdd y Gofrestrfa Tir, sy'n cynnwys dau gyfarwyddwr anweithredol. Fel hyrwyddwr risg y Bwrdd, mae'r Cyfarwyddwr Cyllid yn cadeirio'r Bwrdd Risg Busnes, sy'n sicrhau bod risgiau busnes allweddol yn cael eu hadnabod a'u rheoli. Mae Grŵp Rheoli Risg bach o fewn y Gyfarwyddiaeth Gyllid yn rhoi cymorth ac arweiniad ar bob mater sy'n gysylltiedig â risg ac adroddiadau cryno rheolaidd ar gyfer y Bwrdd Risg Busnes.

Yn ystod y flwyddyn cynhaliwyd rhaglen ymarfer parhad busnes flynyddol lwyddiannus i brofi effeithiolrwydd cynlluniau wrth gefn swyddfeydd lleol, gyda phob swyddfa naill ai'n cynnal ymarfer neu'n gweithredu ei chynllun parhad busnes ar gyfer digwyddiad go iawn. Cwblhawyd prawf adfer ar ôl trychineb llawn hefyd o'n systemau gwybodaeth.

O ganlyniad i Ddeddf Dynladdiad Corfforaethol a Lladd Corfforaethol 2007, mae'r Bwrdd Risg Busnes yn derbyn adroddiadau chwemisol ar effeithiolrwydd y mesurau a gafodd eu rhoi ar waith i leihau'r risgiau i staff sy'n codi o'r gweithgareddau risg uchel hynny yn y gweithle a gafodd eu hadnabod fel rhai sy'n peri'r risg mwyaf o farwolaeth neu anaf difrifol i staff ac eraill, yn enwedig gyrru ar ddyletswydd, gweithio y tu allan i'r swyddfa, codi a chynnal a chadw adeiladau.

Yn unol â DAO(GEN) 01/10 dyddiedig 28 Hydref 2010, rwyf wedi dirprwyo awdurdod i'r Cyfarwyddwr Cyllid dros reoli'r risg o golled ariannol ar draws y Gofrestrfa Tir a cholledion gwirioneddol. Yn arbennig, rhoddwyd strategaeth ar waith ac mae gwaith ar y gweill erbyn

hyn i adnabod yn gydlynol a rheoli'n gyson risgiau ar draws prosesau llif cronfeydd o un pen i'r llall, treuliau a ffioedd a thaliadau.

Mae atal a darganfod twyll yn parhau i fod yn un o brif flaenoriaethau'r Gofrestrfa Tir a gwelwyd llwyddiannau mawr yn ystod y 12 mis diwethaf. Gyda mesurau newydd ar waith llwyddwyd i atal twyll rhag cael ei gofrestru ar eiddo gwerth tua £4.5 miliwn. Yn wyneb y risg parhaol o dwyll cofrestru, rydym yn cydweithio'n agos ag asiantaethau eraill i gael gwybodaeth am atal a darganfod twyll. Rydym wedi cynyddu ein hadnoddau o fewn ein tîm gwrth-dwyll arbenigol a hefyd yn parhau i fuddsoddi mewn hyfforddiant mewnol ac allanol i wella ein mesurau gwrth-dwyll ymhellach.

Trwy ei raglen archwilio flynyddol, mae'r Grŵp Sicrwydd Technegol yn rhoi sicrwydd i'r Bwrdd fod ein hymarferion a phrosesau cofrestru technegol yn cydymffurfio â deddfwriaeth cofrestru tir. Yn ogystal, mae timau sicrwydd cofrestru yn rhoi sicrwydd i'r Cyfarwyddwr Gweithrediadau a Gwasanaeth Cwsmeriaid, cofrestryddion tir, rheolwyr ardal a'r uwch dimau rheoli bod ymarferion a phrosesau cofrestru technegol lleol yn cydymffurfio â deddfwriaeth, safonau mapio technegol, ac ymarfer a gweithdrefnau'r Gofrestrfa Tir. Ar gyfer 2010/11, adroddodd y Grŵp Sicrwydd Technegol fod y rhan fwyaf o ymarferion a gweithdrefnau rhagnodedig yn cael eu cymhwyso'n gyson, er bod tystiolaeth o rai gwendidau yn dilyn prosesau newydd. Mae'r gwendidau hyn yn cael sylw.

Mae perchnogaeth swyddogaethol o faterion rheoli contractau ar draws y Gofrestrfa Tir yn gyfrifoldeb un unigolyn, sef ein Prif Swyddog Caffael, sydd â chylch gwaith clir i wella rheoli contractau ac mae'n gyfrifol am sicrhau bod cynlluniau rheoli contractau a threfniadau llywodraethu priodol ar waith ar gyfer pob un o'n prif gontractau. Rydym yn parhau i fonitro ein trefniadau ar gyfer rheoli contractau ac yn adolygu'r risgiau sy'n gysylltiedig â'n prif gontractau gwasanaeth gydag adroddiadau rheolaidd ar risgiau hanfodol i fusnes ar lefel Bwrdd. Lle'n bosibl, cynlluniwyd a gweithredwyd camau i leihau'r risgiau hyn.

**4 Y fframwaith risg a rheolaeth**
Mae polisi rheoli risg y Gofrestrfa Tir yn cael cyhoeddusrwydd da ac mae'n cael ei adolygu a'i ddiweddaru'n achlysurol. Mae cyfarwyddwyr ac uwch reolwyr eraill y Gofrestrfa Tir yn arwain rheolaeth risg yn eu meysydd. Yn arbennig, maent yn gyfrifol am weithredu system reoli ar gyfer adnabod, asesu a rheoli mewn ffordd systematig y risgiau i gyflawni eu hallbynnau a'u targedau allweddol. Mae risgiau'n cael eu hadnabod a'u gwerthuso yng nghyd-destun eu heffaith bosibl ar gyflawni amcanion ac yn cael eu rheoli ar lefel lle mae gan staff yr awdurdod, y cyfrifoldeb a'r adnoddau i weithredu. Mae'n ofynnol i staff a rheolwyr adnabod risgiau a chyfleoedd newydd neu gynyddol fel rhan o'u proses arferol o adrodd am berfformiad.

Mae rheoli risg yn rhan annatod o waith rheoli rhaglenni a phrosiectau'r Gofrestrfa Tir, ac mae'r cyfrifoldeb amdano wedi'i freinio yn yr uwch berchnogion â chyfrifoldeb. Rheolir rhaglenni a phrosiectau yn unol â chanllawiau Swyddfa Masnach y Llywodraeth ac fe'u hadolygir o dan broses Gateway y llywodraeth.

Mae gan y Gofrestrfa Tir bolisi rheoli risg sefydledig sy'n cynnwys risg i wybodaeth. Mae pob cyfarwyddiaeth wedi adnabod risgiau i'w hasedau gwybodaeth ac mae hyn yn cael ei adolygu'n gyson. Mae'r prosesau a'r rheolaethau mewnol yn sefydledig a chydnabyddir pwysigrwydd diogelu a rhoi gwerth ar wybodaeth.

Mae gwybodaeth allweddol y Gofrestrfa Tir wedi'i chynnwys yn y gofrestr perchnogaeth eiddo ac mae diogelu'r gronfa ddata hon yn werth canolog y sefydliad cyfan.

Mae'r Uwch Berchennog Risg Gwybodaeth (SIRO) yn cadeirio'r Bwrdd Rheoli Gwybodaeth ar y cyd, sef un o'r byrddau sy'n gyfrifol am reoli ac adolygu risg i wybodaeth. Mae cyfarfodydd rheolaidd o'r bwrdd hwn, bwrdd rheoli Systemau Gwybodaeth a'r pwyllgor diogelwch TG a'r bwrdd risg busnes yn ystyried risgiau i wybodaeth, ceisiadau i rannu gwybodaeth a strategaethau ar gyfer parhau i hybu a datblygu ymwybyddiaeth o fanteision rheoli risg i wybodaeth.

Yn ystod y flwyddyn ddiwethaf rydym wedi parhau i ddatblygu ein gallu i reoli risg i wybodaeth, a gallaf gadarnhau'r canlynol.

— Rydym wedi mesur effeithiolrwydd ein polisi ac ymarferion rheoli risg i wybodaeth yn erbyn Model Aeddfedrwydd Sicrwydd

Gwybodaeth Swyddfa'r Cabinet (IAMM). Ym Mehefin 2010, llwyddwyd i ennill lefel 1 yn erbyn yr IAMM a thrwy wneud hynny cyflawni ein dangosydd perfformiad allweddol ar gyfer y maes hwn.
- Cadarnhawyd achrediad i ISO 27001 (safon Rheoli Diogelwch Gwybodaeth).
- Penodwyd Pennaeth Rheoli Gwybodaeth Corfforaethol parhaol.
- Cynhaliwyd adolygiad cynhwysfawr o'n Cofrestr Asedau Gwybodaeth.
- Mae pob aelod o staff wedi cwblhau hyfforddiant ar drin data ac adrodd am ddigwyddiadau colli data.
- Roedd ein model adrodd cynyddol wedi hwyluso ymchwiliadau i golli data gan gynnig modd i ni ledaenu'r gwersi a ddysgwyd ac arferion gorau.

Mae ein cynlluniau rheoli risg gwybodaeth ar gyfer y flwyddyn i ddod yn cynnwys y canlynol.
- Hyfforddiant blynyddol pellach ar ddiogelu gwybodaeth i bob aelod o staff.
- Parhau i ymgysylltu â'n prif gyflenwyr trydydd parti er mwyn cael sicrwydd yn eu hymarferion rheoli risg gwybodaeth.
- Cwblhau'r adolygiad o'r risgiau gwybodaeth a nodwyd ym mhob cyfarwyddiaeth ac egluro'r cyfrifoldebau ar gyfer asedau gwybodaeth allweddol.
- Sicrhau bod trefniadau llywodraethu effeithiol ar waith ochr yn ochr â datblygu a defnyddio Warws Data Menter newydd.
- Cynnydd parhaus yn erbyn safonau IAMM.

Mae archwaeth risg y Gofrestrfa Tir yn amrywio yn ôl pwysigrwydd canfyddedig y risgiau a'u hamseriad. Bydd pob risg sy'n cael effaith fawr ar ein perfformiad, stiwardiaeth o'n cofrestr, cronfeydd cyhoeddus, yr amgylchedd, ein henw da neu enw da'r llywodraeth yn gyffredinol yn cael sylw â ffocws y rheolwyr gyda chostau wedi'u cyfiawnhau. Os yw'n briodol, mae gweithredu yn symud i fyny drwy'r gadwyn reoli i'r Weinyddiaeth Gyfiawnder a'r gweinidogion.

Fel y disgrifir uchod rwyf yn cynnal cyfarfodydd chwemisol â'r Gweinidog Gwladol (Cyfiawnder) lle y trafodir risgiau gweithredol. Mae'n derbyn adroddiadau ar y risgiau i gyflawni targedau dangosydd perfformiad allweddol ac amcanion strategol trwy gyfrwng adroddiadau chwemisol.

Rwyf yn ymwybodol iawn o'r risgiau sy'n codi o sawl agwedd ar ddatblygu a gweithredu gwasanaethau electronig. Rwyf hefyd yn ymwybodol o bwysigrwydd cynnal ffydd y cyhoedd yn niogelwch ein systemau a'n prosesau yn wyneb y risg parhaus o dwyll eiddo. Wrth ddatblygu gwasanaethau newydd, mae'r Gofrestrfa Tir yn cynnwys y cyhoedd a budd-ddeiliaid allweddol mewn rheoli risg trwy'r broses ymgynghori arferol. Bydd fy aelodau staff uwch a minnau yn cwrdd â grwpiau o fudd-ddeiliaid ac yn ceisio eu barn ar risgiau i'w buddion yn y cyfarfodydd hyn. Mae'r risgiau o gamddefnyddio ein cofrestr ar-lein neu ei chyrchu'n anghyfreithlon yn cael eu rheoli trwy strategaeth gwrth-dwyll sy'n datblygu'n barhaus ac sy'n ystyried barn nifer o'n budd-ddeiliaid.

**5 Adolygu effeithiolrwydd**

Fel Swyddog Cyfrifyddu, rwyf yn gyfrifol am adolygu effeithiolrwydd y system rheolaeth fewnol. Mae fy adolygiad o effeithiolrwydd y system rheolaeth fewnol yn cael ei lywio gan waith ein harchwilwyr mewnol a'r rheolwyr gweithredol o fewn y Gofrestrfa Tir sy'n gyfrifol am ddatblygu a chynnal a chadw'r fframwaith rheolaeth fewnol, a sylwadau'r archwilwyr allanol yn eu llythyr rheoli ac adroddiadau eraill. Cefais fy nghynghori ar oblygiadau canlyniad fy adolygiad o effeithiolrwydd y system rheolaeth fewnol gan Fwrdd y Gofrestr Tir, y Pwyllgor Archwilio a'r Bwrdd Risg Busnes ac mae cynllun i fynd i'r afael â gwendidau a sicrhau gwelliant parhaus i'r system ar waith.

Mae fy adolygiad hefyd yn seiliedig ar adroddiadau sicrwydd ysgrifenedig fel a ganlyn.
- Datganiad Sicrwydd blynyddol gan bob Cyfarwyddwr y Gofrestrfa Tir, sy'n datgan bod system effeithiol o reolaeth fewnol ar gyfer rheoli risg ar waith ac yn gweithio. Yn arbennig, mae pob cyfarwyddwr yn rhoi sicrwydd bod ei gyfarwyddiaeth yn cydymffurfio'n gyfreithiol yn gyffredinol â phob deddfwriaeth berthnasol y llywodraeth. Yn ogystal, yn sgil cyflwyno mapiau sicrwydd yn ystod 2010, mae pob cyfarwyddwr yn cadarnhau eu bod nhw wedi adolygu'r sicrwydd a ddarperir gan y ffynonellau a restrir ar eu mapiau sicrwydd a bod y ffynonellau sicrwydd hynny wedi dangos bod y risgiau'n cael eu rheoli'n briodol a bod rheolaethau priodol ar waith.

- Fel Uwch Berchennog Risg Gwybodaeth y Gofrestrfa Tir, mae'r Cyfarwyddwr Systemau Gwybodaeth yn rhoi cyngor ysgrifenedig i mi yn rhinwedd fy swydd fel swyddog cyfrifyddu ar ddigonolrwydd rheolaethau mewnol sy'n gysylltiedig â risg gwybodaeth, gan gynnwys cadarnhau ein hardystiad fel corff sy'n cydymffurfio ag ISO 27001.
- Mae'r Prif Swyddog Caffael yn rhoi sicrwydd blynyddol i Fwrdd y Gofrestrfa Tir ynghylch yr holl weithgareddau caffael yn y Gofrestrfa Tir.
- Rhaglen dreigl o adroddiadau sicrwydd sy'n cwmpasu diogelwch systemau ffisegol a gwybodaeth, iechyd a diogelwch, cynaliadwyedd (ynni a'r amgylchedd), amrywiaeth, a pharhad busnes.

Mae fy Mhennaeth Archwilio Mewnol yn darparu adroddiadau rheolaidd ar y materion risg a rheolaeth allweddol, i safonau sydd wedi'u diffinio yn llawlyfr archwilio mewnol y llywodraeth, a barn annibynnol flynyddol ar ddigonolrwydd ac effeithiolrwydd system rheolaeth fewnol y Gofrestrfa Tir ynghyd ag argymhellion ar gyfer gwella. Mae adroddiadau archwilio mewnol unigol yn cael eu cylchredeg i Fwrdd y Gofrestrfa Tir a'r Pwyllgor Archwilio.

Mae'r holl argymhellion sy'n codi o'r archwiliadau hyn wedi cael neu wrthi'n cael eu gweithredu.

Barn y Pennaeth Archwilio Mewnol am y flwyddyn 2010/11 yw bod effeithiolrwydd system rheolaeth fewnol y Gofrestrfa Tir yn foddhaol. Yn ei farn ef, nid oes unrhyw wendidau pwysig sydd wedi'u cynnwys o fewn cwmpas y materion y dylid adrodd amdanynt yn y Datganiad ar reolaeth fewnol.

Rwyf yn fodlon, at ei gilydd, ar effeithiolrwydd y system rheolaeth fewnol yn y Gofrestrfa Tir.

**Malcolm Dawson**
Prif Gofrestrydd Tir a Phrif Weithredwr

20 Mehefin 2011

# Adroddiad tâl

**Polisi tâl i uwch weision sifil**
Mae tâl uwch weision sifil yn cael ei osod gan y Prif Weinidog yn dilyn cyngor annibynnol gan Gorff Adolygu Cyflogau Uwch.

Wrth lunio ei argymhellion, mae'r Corff Adolygu yn ystyried y canlynol:
— yr angen i recriwtio, cadw a chymell pobl sy'n meddu ar y gallu a'r cymwysterau addas i gyflawni eu cyfrifoldebau amrywiol
— amrywiadau rhanbarthol/lleol mewn marchnadoedd llafur a'u heffaith ar recriwtio a chadw staff
— polisïau'r Llywodraeth ar gyfer gwella gwasanaethau cyhoeddus gan gynnwys y gofyniad ar adrannau i gyrraedd y targedau allbwn ar gyfer darparu gwasanaethau adrannol
— y cronfeydd sydd ar gael i adrannau fel y'u nodwyd yn nherfynau gwariant adrannol y Llywodraeth
— targed chwyddiant y Llywodraeth.

Mae'r corff adolygu yn ystyried y dystiolaeth a gaiff am ystyriaethau economaidd ehangach a fforddiadwyedd ei argymhellion.

Mae rhagor o wybodaeth am waith y corff adolygu i'w gweld yn www.ome.uk.com

Mae cyflog y Prif Weithredwr yn cael ei osod gan Bwyllgor Tâl yr Uwch Wasanaeth Sifil ar gyfer y Weinyddiaeth Gyfiawnder.

Mae Pwyllgor Tâl yr Uwch Wasanaeth Sifil (SCS), sy'n gweithredu ar awdurdod Bwrdd y Gofrestrfa Tir, yn ystyried yr argymhellion tâl a ddarperir gan y rheolwyr llinell ac yn penderfynu sut y caiff tâl perfformiad ei ddosbarthu yn yr adolygiad tâl blynyddol ar gyfer staff y Gofrestrfa Tir yn y SCS, yn unol â'r cyfarwyddyd a gyhoeddwyd gan Swyddfa'r Cabinet.

Mae tâl sylfaenol a dyfarniadau cysylltiedig â pherfformiad ar wahân yn dibynnu ar berfformiad, sy'n cael ei asesu trwy system arfarnu flynyddol i uwch weision sifil, ac mae rhagor o fanylion i'w gweld yn www.civilservice.gov.uk

Yn ystod y flwyddyn, aelodau Pwyllgor Tâl SCS oedd: Catherine Raines (Cadeirydd), Mike Cutt a Marco Pierleoni.

**Polisi tâl i weision sifil eraill**
Mae tâl staff y Gofrestrfa Tir nad ydynt ar raddau SCS yn cael ei bennu bob blwyddyn yn dilyn trafodaethau ac ymgynghori rhwng y Gofrestrfa Tir a'r undebau, ac mae'n amodol ar gymeradwyaeth yr Ysgrifennydd Gwladol.

Yn 2010/11, i berfformwyr boddhaol sydd wedi bod ar y radd am flwyddyn, roedd y codiad cyflog yn cynnwys dilyniant gwarantedig o un cam i fyny'r band tâl ac adbrisio'r band tâl. I berfformwyr boddhaol gyda llai na blwyddyn o wasanaeth ar y radd roedd y codiad cyflog yn cynnwys adbrisio tâl. Hefyd, rhoddwyd tâl ar wahân cysylltiedig â pherfformiad i bob aelod o staff oedd wedi derbyn y marciau arfarnu uchaf.

Roedd gweithwyr RA, RO ac RE2L ar uchafswm y raddfa tâl a gafodd marciau arfarnu boddhaol neu uwch hefyd wedi derbyn tâl ar wahân cysylltiedig â pherfformiad ychwanegol.

Yn Ebrill 2010 roedd y Gofrestrfa Tir wedi cyflwyno cynllun cydnabyddiaeth dewisol hefyd i gydnabod cyfraniadau cadarnhaol staff mewn ffordd amserol a gweladwy.

**Contractau gwasanaeth**
Mae penodiadau Gwasanaeth Sifil yn cael eu gwneud yn unol â Chod Recriwtio Comisiynwyr y Gwasanaeth Sifil, sy'n ei gwneud hi'n ofynnol i benodi ar deilyngdod ar sail cystadleuaeth deg ac agored.

Mae pob un o'r cyfarwyddwyr a nodir yn yr adroddiad hwn yn cael eu penodi am gyfnod penagored ac yn amodol ar gyfnod rhybudd o dri mis. Byddai terfynu'r contract yn gynnar, heblaw am gamymddwyn, yn golygu bod yr unigolyn yn cael ei ddigolledu fel yr amlinellir yng Nghynllun Digolledu'r Gwasanaeth Sifil.

I gael rhagor o wybodaeth am waith Comisiynwyr y Gwasanaeth Sifil, ewch i www.civilservicecommissioners.gov.uk

**Cyfarwyddwyr Anweithredol**
Mae'r cyfarwyddwyr anweithredol (Dr Catherine Raines a Mr Mike Cutt) ar gontract gwasanaeth am gyfnod o ddwy flynedd, y gellir ei adnewyddu drwy gytundeb y Gofrestrfa Tir a'r unigolyn. Gall eu penodiad gael ei derfynu gan y naill barti neu'r llall drwy roi un mis o rybudd.

## Cyflog a thâl perfformiad[1]

| | 2010/11 Cyflog £'000 | 2010/11 Tâl perfformiad £'000 | 2009/10 Cyflog £'000 | 2009/10 Tâl perfformiad £'000 |
|---|---|---|---|---|
| **Bwrdd y Gofrestrfa Tir** | | | | |
| Marco Pierleoni[2] (tan 21 Mawrth 2011) Blynyddol cyfatebol Prif Gofrestrydd Tir a Phrif Weithredwr | 165-170 (165-170) | - | 25-30 (170-175) | - |
| Malcolm Dawson (o 22 Mawrth 2011) Blynyddol cyfatebol Prif Gofrestrydd Tir a Phrif Weithredwr | 0-5 (105-110) | - | - | - |
| John Peaden Cyfarwyddwr Dros Dro Gweithrediadau a Gwasanaeth Cwsmeriaid | 80-85 | 0 - 5 | - | - |
| Alasdair Lewis Cyfarwyddwr Dros Dro Gwasanaethau Cyfreithiol a Dirprwy Brif Gofrestrydd Tir | 90-95 | 5 - 10 | - | - |
| Malcolm Dawson (tan 21 Mawrth 2011) Blynyddol cyfatebol Cyfarwyddwr Adnoddau Dynol | 95-100 (95-100) | 5 - 10 | 95-100 | 5-10 |
| David Evans (o 25 Mawrth 2011) Blynyddol cyfatebol Cyfarwyddwr Dros Dro Adnoddau Dynol | 0-5 (80-85) | - | - | - |
| Heather Foster Cyfarwyddwr Cyllid | 90-95 | - | 90-95 | 5-10 |
| John Wright Cyfarwyddwr Systemau Gwybodaeth | 100-105 | - | 120-125 | 5-10 |
| Annette Davies-Govett Cyfarwyddwr Strategaeth Fasnachol a Chwsmeriaid | 90-95 | - | 90-95 | 5-10 |
| Katie Gordon-Smith (o 15 Mawrth 2011) Blynyddol cyfatebol Cyfarwyddwr Dros Dro Strategaeth Fasnachol a Chwsmeriaid | 0-5 (75-80) | - | - | - |
| Catherine Raines Cyfarwyddwr Anweithredol | 45-50 | - | 20-25 | - |
| Mike Cutt (o 1 Mai 2011) Blynyddol cyfatebol Cyfarwyddwr Anweithredol | 20-25 (20-25) | - | - | - |

1 Mae'r tabl hwn yn amodol ar archwiliad.

2 Gadawodd Marco Pierleoni y Gofrestrfa Tir ar 21 Mawrth 2011 gan ddychwelyd i'r Weinyddiaeth Gyfiawnder o ble gafodd ei secondio.

**Cyflog**
Mae 'cyflog' yn cynnwys cyflog gros, hawliau a gedwir i gael pwysiad Llundain neu lwfansau Llundain, lwfansau recriwtio a chadw ac unrhyw lwfans arall i'r graddau y telir treth y DU. Mae'r tabl ar dudalen 34 yn seiliedig ar daliadau a wnaed gan y Gofrestrfa Tir ac felly wedi'u cofnodi yn y cyfrifon hyn.

Yn ystod y flwyddyn, yn ei rôl fel Cyfarwyddwr Anweithredol, roedd Catherine Raines wedi arwain a chymryd rhan mewn nifer o weithgareddau a chyfarfodydd allweddol sy'n ymwneud â rhaglenni trawsnewid a newid y Gofrestrfa Tir. Roedd hyn yn ychwanegol i'w hymrwymiad dan gontract fel Cyfarwyddwr Anweithredol. Caniateir tâl am amser sy'n ychwanegol at ymrwymiad dan gontract Catherine o dan delerau ei chontract fel Cyfarwyddwr Anweithredol.

Yn ystod y flwyddyn, yn ei rôl fel Cyfarwyddwr Anweithredol, roed Mike Cutt wedi arwain a chymryd rhan mewn nifer o weithgareddau a chyfarfodydd allweddol yn ymwneud â rhaglenni trawsnewid a newid y Gofrestrfa Tir. Roedd hyn yn ychwanegol i'w ymrwymiad dan gontract fel Cyfarwyddwr Anweithredol. Caniateir tâl am amser sy'n ychwanegol at ymrwymiad dan gontract Mike o dan delerau ei gontract fel Cyfarwyddwr Anweithredol.

**Buddion mewn nwyddau**
Ni chafodd unrhyw gyfarwyddwyr unrhyw fuddion mewn nwyddau yn ystod y flwyddyn.

**Bonysau**
Mae bonysau'n seiliedig ar y lefelau perfformiad a gyrhaeddwyd ac yn cael eu rhoi fel rhan o'r broses arfarnu. Mae bonysau'n gysylltiedig â pherfformiad yn y flwyddyn pan fyddant yn daladwy i'r unigolyn. Mae'r bonysau a nodwyd yn 2010/11 yn ymwneud â pherfformiad yn 2010/11 ac mae'r bonysau cymharol a nodwyd ar gyfer 2009/10 yn ymwneud â pherfformiad yn 2009/10.

## Buddion pensiwn[3]

| | Cynnydd gwirioneddol mewn pensiwn a chyfandaliad yn 60 oed | | Cyfanswm cronedig Mawrth 2011 | | Gwerth trosglwyddo arian parod cyfatebol (GTAPC) ar 31 Mawrth | | Cynnydd gwirioneddol mewn GTAPC ar ôl addasu ar gyfer chwyddiant a newidiadau mewn ffactorau buddsoddi |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | Pensiwn | Cyfandaliad | Pensiwn | Cyfandaliad | **2011** | **2010[4]** | |
| | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 |
| **Bwrdd y Gofrestrfa Tir** | | | | | | | |
| Marco Pierleoni (tan 21 Mawrth 2011) Prif Gofrestrydd Tir a Phrif Weithredwr | 2.5-5.0 | - | 60-65 | - | 563 | 501 | 29 |
| Malcolm Dawson (o 22 Mawrth 2011) Prif Gofrestrydd Tir a Phrif Weithredwr Cyfarwyddwr Adnoddau Dynol (tan 21 Mawrth 2011) | 0-2.5 | 0-2.5 | 35-40 | 105-110 | 570 | 521 | 3 |
| John Peaden Cyfarwyddwr Dros Dro Gweithrediadau a Gwasanaeth Cwsmeriaid | 2.5-5.0 | 12.5-15.0 | 35-40 | 105-110 | 658 | 525 | 90 |

parhad

| | Cynnydd gwirioneddol mewn pensiwn a chyfandaliad yn 60 oed | | Cyfanswm cronedig Mawrth 2011 | | Gwerth trosglwyddo arian parod cyfatebol (GTAPC) ar 31 Mawrth | | Cynnydd gwirioneddol mewn GTAPC ar ôl addasu ar gyfer chwyddiant a newidiadau mewn ffactorau buddsoddi |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | Pensiwn | Cyfandaliad | Pensiwn | Cyfandaliad | | | |
| | | | | | **2011** | **2010**[4] | |
| **Bwrdd y Gofrestrfa Tir** | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 |
| Alasdair Lewis Cyfarwyddwr Dros Dro Gwasanaethau Cyfreithiol a Dirprwy Brif Gofrestrydd Tir | 2.5-5.0 | 7.5-10.0 | 30-35 | 95-100 | 567 | 471 | 54 |
| David Evans (o 25 Mawrth 2011) Cyfarwyddwr Dros Dro Adnoddau Dynol | 0-2.5 | - | 45-50 | - | 847 | 845 | 1 |
| Heather Foster Cyfarwyddwr Cyllid | 0-2.5 | 0-2.5 | 35-40 | 110-115 | 764 | 693 | 13 |
| John Wright Cyfarwyddwr Systemau Gwybodaeth | 0-2.5 | - | 5-10 | - | 129 | 101 | 16 |
| Annette Davies-Govett Cyfarwyddwr Strategaeth Fasnachol a Chwsmeriaid | 0-2.5 | - | 5-10 | - | 63 | 40 | 18 |
| Katie Gordon-Smith (o 15 Mawrth 2011) Cyfarwyddwr Dros Dro Strategaeth Fasnachol a Chwsmeriaid | 10.0-12.5 | - | 10-15 | - | 111 | 16 | (9) |

3 Mae'r tabl hwn yn amodol ar archwiliad.

4 Newidiwyd y ffactorau actiwaraidd a ddefnyddir i gyfrifo GTAPC yn 2010/11. Mae'r GTAPC ar 31/3/10 a 31/3/11 wedi cael ei gyfrifo gan ddefnyddio'r ffactorau newydd, er cysondeb. Felly mae'r GTAPC ar 31/3/10 yn wahanol i'r ffigur cyfatebol yn adroddiad y flwyddyn ddiwethaf, a gyfrifwyd drwy ddefnyddio'r ffactorau blaenorol.

**Pensiynau'r Gwasanaeth Sifil**
Darperir buddion pensiwn trwy drefniadau pensiwn y Gwasanaeth Sifil. O 30 Gorffennaf 2007, gall gweision sifil ymuno ag un o bedwar cynllun buddion wedi'u diffinio; naill ai cynllun 'cyflog terfynol' (classsic, premium neu classic plus); neu gynllun gyrfa gyfan (nuvos). Nid yw'r trefniadau statudol wedi'u cyllido ac mae cost y buddion yn cael ei thalu gydag arian a ddyfernir gan y Senedd bob blwyddyn. Mae pensiynau sy'n daladwy o dan gynlluniau classic, premium, classic plus a nuvos yn cael eu cynyddu'n flynyddol yn unol â deddfwriaeth Cynnydd Pensiynau. Gall aelodau sy'n ymuno o 1 Hydref 2002 ddewis naill ai'r cynllun buddion wedi'u diffinio priodol neu bensiwn budd-ddeiliaid 'pwrcasu arian' gyda chyfraniad gan y cyflogwr (cyfrif pensiwn partneriaeth).

Mae cyfraniadau gweithwyr wedi'u gosod ar gyfradd o 1.5 y cant o enillion pensiynadwy ar gyfer y cynllun classic a 3.5 y cant ar gyfer cynlluniau premium, classic plus a nuvos. Bydd buddion yn y cynllun classic yn cronni ar gyfradd o 1/80fed o'r enillion pensiynadwy ar gyfer bob blwyddyn o wasanaeth. Yn ogystal, mae cyfandaliad sy'n gyfwerth â thair blynedd o bensiwn cychwynnol yn daladwy pan fydd aelod yn ymddeol. Yn achos cynllun premium, bydd buddion yn cronni ar gyfradd o

1/60fed o'r enillion pensiynadwy terfynol ar gyfer bob blwyddyn o wasanaeth. Yn wahanol i'r cynllun classic, nid oes unrhyw gyfandaliad awtomatig. Mae'r cynllun classic plus yn amrywiad o'r cynllun premium mewn gwirionedd, gyda buddion ar gyfer gwasanaeth cyn 1 Hydref 2002 wedi'u cyfrifo'n fras yn yr un ffordd â'r cynllun classic a buddion am wasanaeth ar ôl Hydref 2002 wedi'u cyfrifo yn yr un ffordd â'r cynllun premium. Yn y cynllun nuvos bydd aelod yn adeiladu pensiwn yn seiliedig ar ei enillion pensiynadwy yn ystod cyfnod aelodaeth o'r cynllun. Ar ddiwedd blwyddyn y cynllun (31 Mawrth) mae cyfrif pensiwn yr aelod yn cael ei gredydu â 2.3 y cant o'i enillion pensiynadwy yn ystod y flwyddyn cynllun honno, ac mae'r pensiwn cronedig yn cael ei uwchraddio yn unol â deddfwriaeth Cynnydd Pensiynau. Ym mhob achos gall aelodau ddewis ildio (cymudo) pensiwn am gyfandaliad hyd at y terfynau a osodwyd gan Ddeddf Cyllid 2004.

Ar gyfer 2010/11 talodd y Gofrestrfa Tir gyfraniadau cyflogwr o £28.0 miliwn (2009/10: £30.6 miliwn) ar un o bedair cyfradd yn yr amrediad 16.7 y cant i 24.3 y cant (2009/10: 16.7 y cant i 24.3 y cant) o dâl pensiynadwy, yn seiliedig ar fandiau cyflog. Mae actwari'r cynllun yn adolygu cyfraniadau'r cyflogwr bob pedair blynedd yn dilyn prisiad llawn o'r cynllun. Mae'r cyfraddau cyfraniad wedi'u gosod i dalu cost y buddion sy'n cronni yn ystod 2010/11 sydd i'w talu pan fydd aelod yn ymddeol, ac nid y buddion a dalwyd yn ystod y cyfnod hwn i bensiynwyr presennol.

Mae'r cyfrif pensiwn partneriaeth yn gynllun pensiwn budd-ddeiliaid. Mae'r Gofrestrfa Tir yn gwneud cyfraniad sylfaenol rhwng 3 y cant a 12.5 y cant (yn dibynnu ar oedran yr aelod) i un o dri chynnyrch pensiwn budd-ddeiliaid cymeradwy; ar gyfer 2010/11 y cyfraniad oedd £58,277 (2009/10: £54,525). Nid oes rhaid i'r gweithiwr gyfrannu ond os yw'n cyfrannu, bydd y cyflogwr yn cyfateb y cyfraniadau hyn hyd at derfyn o 3 y cant o'r cyflog pensiynadwy (yn ychwanegol at gyfraniad sylfaenol y cyflogwr). Mae'r Gofrestrfa Tir hefyd yn cyfrannu 0.8 y cant pellach o gyflog pensiynadwy, sef £4,153 yn 2010/11 (2009/10: £4,068) i dalu cost yswiriant buddion risg a ddarperir yn ganolog (marwolaeth mewn gwasanaeth ac ymddeol ar sail afiechyd).

Nid oedd unrhyw gyfraniadau sy'n ddyledus i'r darparwyr pensiwn partneriaeth ar ddyddiad y fantolen neu gyfraniadau wedi'u rhagdalu ar y dyddiad hwnnw yn berthnasol.

Y pensiwn cronedig a ddyfynnir yw'r pensiwn y mae hawl gan yr aelod i'w gael pan fydd yn cyrraedd oedran pensiwn, neu pan fydd yn peidio â bod yn aelod gweithredol o'r cynllun os yw eisoes yn oedran pensiwn neu'n hŷn na hynny. Yr oedran pensiwn yw 60 oed ar gyfer aelodau cynllun classic, premium a classic plus a 65 oed i aelodau cynllun nuvos.

Roedd pedwar unigolyn wedi ymddeol yn gynnar yn ystod y flwyddyn ar sail afiechyd. Cyfanswm y rhwymedigaethau pensiwn cronedig ychwanegol yn y flwyddyn oedd £49,611.

I gael manylion pellach am drefniadau pensiwn y Gwasanaeth Sifil ewch i'r wefan www.civilservice-pensions.gov.uk

### Gwerthoedd trosglwyddo arian parod cyfatebol

Gwerth trosglwyddo arian parod cyfatebol (GTAPC) yw gwerth wedi'i gyfalafu a aseswyd gan yr actiwari o'r buddion cynllun pensiwn y mae aelod wedi'u cronni ar adeg arbennig. Y buddion a brisir yw buddion cronedig yr aelod ac unrhyw bensiwn wrth gefn priod sy'n daladwy o'r cynllun. Mae GTAPC yn daliad sy'n cael ei wneud gan gynllun neu drefniadau pensiwn i ddiogelu buddion pensiwn mewn cynllun neu drefniadau pensiwn arall pan fydd yr aelod yn gadael cynllun ac yn dewis trosglwyddo'r buddion sydd wedi cronni yn ei gynllun blaenorol. Mae'r ffigurau pensiwn a ddangosir yn cyfeirio at y buddion y mae'r unigolyn wedi'u cronni o ganlyniad i'w aelodaeth gyfan o'r cynllun pensiwn, nid dim ond ei wasanaeth mewn swydd uwch y mae datgeliad yn gymwys iddi. Mae'r ffigurau GTAPC hefyd yn cynnwys gwerth unrhyw fudd pensiwn mewn cynllun neu drefniadau eraill y mae'r unigolyn wedi'i drosglwyddo i drefniadau pensiwn y Gwasanaeth Sifil. Maent hefyd yn cynnwys unrhyw fudd pensiwn ychwanegol sydd wedi cronni i'r aelod o ganlyniad iddo brynu budd pensiwn ychwanegol ei hun. Cyfrifir GTAPC o fewn y canllawiau a'r fframwaith a osodir gan yr Institute and Faculty of Actuaries ac nid ydynt yn ystyried unrhyw ostyngiad gwirioneddol neu bosibl mewn buddion sy'n deillio o Dreth Lwfans Gydol Oes, a all fod yn daladwy pan fydd buddion pensiwn yn cael eu cymryd.

### Cynnydd gwirioneddol mewn GTAPC

Mae hyn yn adlewyrchu'r cynnydd yn GTAPC a gyllidir gan y cyflogwr. Nid yw'n cynnwys y cynnydd yn y pensiwn cronedig oherwydd chwyddiant, neu'r cyfraniadau a dalwyd gan y gweithiwr (gan gynnwys gwerth unrhyw fuddion a drosglwyddwyd o gynllun neu

**Adrodd ar gynllun iawndal y Gwasanaeth Sifil a chynlluniau iawndal eraill - pecynnau ymadael[5]**

| Band cost pecyn ymadael | Nifer y diswyddiadau gorfodol | | Nifer yr ymadawiadau eraill a gytunwyd | | Cyfanswm y pecynnau ymadael yn ôl band cost | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | 2011 | 2010 | 2011 | 2010 | 2011 | 2010 |
| £0-£10,000 | - | - | 89 | 22 | 89 | 22 |
| £10,001-£25,000 | - | - | 166 | 79 | 166 | 79 |
| £25,001-£50,000 | - | - | 186 | 97 | 186 | 97 |
| £50,001-£100,000 | - | - | 386 | 192 | 386 | 192 |
| £100,001-£150,000 | - | - | 119 | 44 | 119 | 44 |
| £150,001-£200,000 | - | - | 51 | 27 | 51 | 27 |
| >£200,000 | - | - | 68 | 6 | 68 | 6 |
| Cyfanswm y pecynnau ymadael | - | - | 1,065 | 467 | 1,065 | 467 |
| Cyfanswm cost | | | £79,426,950 | £30,351,705 | £79,426,950 | £30,351,705 |

5 Mae'r tabl hwn yn amodol ar archwiliad.

drefniadau pensiwn eraill) ac mae'n defnyddio ffactorau prisio'r farchnad gyffredin ar gyfer dechrau a diwedd y cyfnod.

Mae'r data yn y tabl uchod yn cynnwys taliadau ex-gratia o £49,885 (2010: £85,139).

Mae costau diswyddo ac ymadael eraill wedi cael eu talu yn unol â darpariaethau Cynllun Iawndal y Gwasanaeth Sifil, cynllun statudol a wnaed o dan Ddeddf Blwydd-dal 1972. Mae costau ymadael yn cael eu cyfrif amdanynt yn llawn ym mlwyddyn y cytundeb dan gontract i ymadael. Os yw'r Gofrestrfa Tir wedi cytuno ar ymddeoliad cynnar, mae'r costau ychwanegol yn cael eu talu gan y Gofrestrfa Tir ac nid gan gynllun pensiwn y Gwasanaeth Sifil. Mae costau ymddeol ar sail afiechyd yn cael eu talu gan y cynllun pensiwn a heb eu cynnwys yn y tabl.

**Malcolm Dawson**
Prif Gofrestrydd Tir a Phrif Weithredwr
20 Mehefin 2011

# Tystysgrif ac Adroddiad y Rheolwr ac Archwilydd Cyffredinol i Ddau Dŷ'r Senedd

Tystiaf fy mod i wedi archwilio datganiadau ariannol y Gofrestrfa Tir am y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2011 o dan Ddeddf Cronfeydd Masnachu'r Llywodraeth 1973. Mae'r rhain yn cynnwys Datganiad o Incwm Cynhwysfawr, Datganiad o Newidiadau i Gronfeydd Wrth Gefn, Datganiad o'r Sefyllfa Ariannol, Datganiad Llif Arian a'r nodiadau cysylltiedig. Mae'r datganiadau ariannol hyn wedi cael eu paratoi o dan y polisïau cyfrifyddu a nodwyd ynddynt. Hefyd rwyf wedi archwilio'r wybodaeth yn yr Adroddiad Tâl a ddisgrifir yn yr adroddiad hwnnw fel adroddiad sydd wedi'i archwilio.

**Cyfrifoldebau priodol y Swyddog Cyfrifyddu a'r archwilydd**
Fel yr esbonnir yn llawnach yn y Datganiad o Gyfrifoldebau'r Swyddog Cyfrifyddu, mae'n gyfrifol am baratoi'r datganiadau ariannol a bodloni ei hun eu bod yn rhoi darlun gwir a theg. Fy nghyfrifoldeb i yw archwilio, ardystio ac adrodd ar y datganiadau ariannol yn unol â Deddf Cronfeydd Masnachu'r Llywodraeth 1973.

Rwyf wedi cynnal fy archwiliad yn unol â'r Safonau Rhyngwladol ar Archwilio (y DU ac Iwerddon). Mae'r safonau hyn yn ei gwneud hi'n ofynnol i mi a'm staff gydymffurfio â Safonau Moesegol y Bwrdd Ymarferion Archwilio i Archwilwyr.

**Cwmpas yr archwiliad o'r datganiadau ariannol**
Mae archwiliad yn cynnwys casglu tystiolaeth am y symiau a'r datgeliadau yn y datganiadau ariannol sy'n ddigonol i roi sicrwydd rhesymol nad yw'r datganiadau ariannol yn cynnwys unrhyw gamddatganiad sylweddol, boed wedi'i achosi gan dwyll neu gamgymeriad. Mae hyn yn cynnwys asesu: a yw'r polisïau cyfrifyddu yn briodol i amgylchiadau'r Gofrestrfa Tir ac wedi cael eu cymhwyso'n gyson a'u datgelu'n ddigonol; rhesymoldeb yr amcangyfrifon cyfrifyddu arwyddocaol a wnaed gan y Gofrestrfa Tir; a chyflwyniad cyffredinol y datganiadau ariannol. Yn ogystal, rwyf yn darllen yr holl wybodaeth ariannol ac anariannol yn yr Adroddiad Blynyddol er mwyn nodi anghysondebau pwysig â'r datganiadau ariannol a archwiliwyd. Os wyf yn ymwybodol o unrhyw gamddatganiadau neu anghysondebau pwysig rwyf yn ystyried goblygiadau'r rhain i'm hardystiad.

Yn ogystal, mae'n ofynnol i mi gael tystiolaeth ddigonol i roi sicrwydd rhesymol bod y gwariant a'r incwm a adroddwyd yn y datganiadau ariannol wedi cael eu defnyddio at y dibenion a fwriadwyd gan y Senedd a bod y trafodion ariannol yn cydymffurfio â'r awdurdodau sy'n eu llywodraethu.

**Barn ar reoleidd-dra**
Yn fy marn i, ym mhob manylyn o bwys mae'r gwariant a'r incwm wedi cael eu defnyddio at y dibenion a fwriadwyd gan y Senedd ac mae'r trafodion ariannol yn cydymffurfio â'r awdurdodau sy'n eu llywodraethu.

**Barn ar y datganiadau ariannol**
Yn fy marn i:
— mae'r datganiadau ariannol yn rhoi darlun gwir a theg o gyflwr busnes y Gofrestrfa Tir ar 31 Mawrth 2011 a'i diffyg am y flwyddyn a ddaeth i ben bryd hynny, ac
— mae'r datganiadau ariannol wedi cael eu paratoi'n briodol yn unol â Deddf Cronfeydd Masnachu'r Llywodraeth 1973 a chyfarwyddiadau Trysorlys EM a wnaed o dan y Ddeddf honno.

**Barn ar faterion eraill**
Yn fy marn i:
— mae'r rhan o'r Adroddiad Tâl sydd i'w harchwilio wedi cael ei pharatoi'n briodol yn unol â chyfarwyddiadau Trysorlys EM a wnaed o dan Ddeddf Cronfeydd Masnachu'r Llywodraethu 1973, ac
— mae'r wybodaeth a roddwyd yn adrannau'r adroddiad blynyddol: Pwy ydym ni a beth ydym yn ei wneud; Ein gweledigaeth, pwrpas, nodau ac amcanion; Golwg ar y flwyddyn hon; Ein pobl ac adroddiad y Prif Weithredwr am y flwyddyn ariannol y mae'r datganiadau ariannol wedi'u paratoi ar ei chyfer, yn cyfateb â'r datganiadau ariannol.

**Materion rwyf yn adrodd amdanynt drwy eithriad**
Nid oes gennyf unrhyw beth i adrodd amdano ynghylch y materion canlynol rwyf yn eu hadrodd i chi os, yn fy marn i:
— nid yw cofnodion cyfrifyddu digonol wedi cael eu cadw, neu
— nid yw'r datganiadau ariannol a'r adran o'r Adroddiad Tâl sydd i'w harchwilio yn cyfateb â'r cofnodion cyfrifyddu neu'r ffurflenni, neu
— nid wyf wedi derbyn yr holl wybodaeth ac esboniadau y mae eu hangen arnaf ar gyfer fy archwiliad, neu
— nid yw'r Datganiad ar Reolaeth Fewnol yn dangos ei fod yn cydymffurfio â chanllawiau Trysorlys EM.

**Adroddiad**
Nid oes unrhyw sylwadau gennyf i'w gwneud ar y datganiadau ariannol hyn.

**Amyas C E Morse**
Rheolwr ac Archwilydd Cyffredinol
Swyddfa Archwilio Genedlaethol
157-197 Buckingham Palace Road
Victoria, Llundain SW1W 9SP

# Datganiad o incwm cynhwysfawr am y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2011

| | Nodiadau | 2011 | 2010 (Ailddatganwyd) |
|---|---|---|---|
| | | **£'000** | £'000 |
| Incwm ffioedd - gweithrediadau parhaus | 2 | **351,002** | 328,414 |
| Cost gwasanaeth | 2 | **(270,800)** | (292,020) |
| Gwarged gros | 2 | **80,202** | 36,394 |
| Costau gweinyddol | 2 | **(14,833)** | (16,932) |
| **Gwarged gweithredu** | | **65,369** | 19,462 |
| Elw ar waredu asedau anghyfredol | 3.2 | **39,114** | 4,037 |
| Incwm buddsoddi - llog i'w dderbyn | 5 | **580** | 549 |
| Costau cyllid | 6 | **(870)** | (784) |
| Amorteiddio a dibrisio e-drawsgludo a ddefnyddir | 8.1, 9.1 | **(6,577)** | (2,334) |
| Costau ailstrwythuro ac ad-drefnu | 3.2 | **(87,847)** | (34,609) |
| **Gwarged/(diffyg) am y flwyddyn ariannol** | | **9,769** | (13,679) |
| Difidend i'w dalu | 7 | **(14,006)** | (15,279) |
| **Diffyg a gadwyd am y flwyddyn ariannol** | | **(4,237)** | (28,958) |
| Elw/(colled) wrth ailbrisio eiddo, offer a chyfarpar | | **1,316** | (1,100) |
| **Diffyg cynhwysfawr am y flwyddyn ariannol** | | **(2,921)** | (30,058) |

Mae'r nodiadau ar dudalennau 44 i 62 yn rhan annatod o'r cyfrifon hyn.

# Datganiad o'r sefyllfa ariannol ar 31 Mawrth 2011

| | | **2011** | | 2010 (Ailddatganwyd) | |
|---|---|---|---|---|---|
| | **Nodiadau** | **£'000** | **£'000** | £'000 | £'000 |
| **Asedau anghyfredol** | | | | | |
| Eiddo, cyfarpar ac offer | 8 | **118,968** | | 167,523 | |
| Asedau anniriaethol | 9 | **27,997** | | 49,310 | |
| Symiau eraill i'w derbyn | 11.2 | **2,164** | | 973 | |
| **Cyfanswm asedau anghyfredol** | | | **149,129** | | 217,806 |
| **Asedau cyfredol** | | | | | |
| Stocrestrau | 10 | **1,215** | | 823 | |
| Masnachu a symiau eraill i'w derbyn | 11.1 | **8,774** | | 15,053 | |
| Arian parod ac arian parod cyfatebol | 12 | **299,635** | | 237,325 | |
| **Cyfanswm asedau cyfredol** | | | **309,624** | | 253,201 |
| Asedau anghyfredol wedi'u dosbarthu fel asedau a ddelir i'w gwerthu | 8.3 | | **21,111** | | 3,177 |
| **Cyfanswm asedau** | | | **479,864** | | 474,184 |
| **Rhwymedigaethau cyfredol** | | | | | |
| Masnach a symiau eraill i'w talu | 13.1 | **42,374** | | 43,533 | |
| Rhwymedigaethau o dan brydlesi cyllid | 13.1, 15.1 | **1,949** | | 1,599 | |
| Darpariaethau tymor byr | 17 | **24,923** | | 7,338 | |
| **Cyfanswm rhwymedigaethau cyfredol** | | | **69,246** | | 52,470 |
| **Asedau anghyfredol a hefyd asedau cyfredol net** | | | **410,618** | | 421,714 |
| **Rhwymedigaethau anghyfredol** | | | | | |
| Rhwymedigaethau o dan brydlesi cyllid | 13.2, 15.1 | **7,057** | | 6,250 | |
| Darpariaethau hirdymor | 17 | **32,198** | | 15,733 | |
| **Cyfanswm rhwymedigaethau anghyfredol** | | | **39,255** | | 21,983 |
| **Asedau net** | | | **371,363** | | 399,731 |
| **Cyfalaf a chronfeydd wrth gefn** | | | | | |
| Cronfa Indemniad | | | **21,800** | | 23,000 |
| Cyfalaf Difidend Cyhoeddus | | | **61,545** | | 61,545 |
| Cronfa Wrth Gefn Grant y Llywodraeth | | | **3,853** | | 4,366 |
| Cronfa Wrth Gefn Ailbrisio | | | **41,794** | | 64,564 |
| Cyfrif incwm a gwariant | | | **242,371** | | 246,256 |
| | | | **371,363** | | 399,731 |

Mae'r nodiadau ar dudalennau 44 i 62 yn rhan annatod o'r cyfrifon hyn.

**Malcolm Dawson**
Prif Gofrestrydd Tir a Phrif Weithredwr
20 Mehefin 2011

# Datganiad o newidiadau i gronfeydd wrth gefn am y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2011

| | Cronfa Indemniad | Cyfalaf Difidend Cyhoeddus | Cronfa Wrth Gefn Grant y Llywodraeth | Cronfa Wrth Gefn Ailbrisio | Cronfa Incwm a Gwariant | Cyfanswm Cronfeydd |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 |
| **Gweddill ar 31 Mawrth 2009** | 23,000 | 61,545 | 6,718 | 65,664 | 278,756 | 435,683 |
| Ailddatganiad cyfnod blaenorol | - | - | - | - | (3,229) | (3,229) |
| **Gweddill wedi'i ailddatgan ar 1 Ebrill 2009** | 23,000 | 61,545 | 6,718 | 65,664 | 275,527 | 432,454 |
| **Newidiadau i gronfeydd wrth gefn 2009/10** | | | | | | |
| Cronfa Indemniad | | | | | | |
| Ychwanegiadau yn ystod y flwyddyn | 6,794 | - | - | - | - | 6,794 |
| Defnyddiwyd yn y flwyddyn | (6,794) | - | - | - | - | (6,794) |
| Cronfa wrth gefn ailbrisio | | | | | | |
| Trosglwyddo i enillion a gadwyd | - | - | - | - | (313) | (313) |
| Grant y Llywodraeth | | | | | | |
| Ailbrisio | - | - | (240) | - | - | (240) |
| Amharu | - | - | (384) | - | - | (384) |
| Dibrisio | - | - | (1,177) | - | - | (1,177) |
| Ailddosbarthu asedau | - | - | (551) | - | - | (551) |
| Diffyg net cynhwysfawr | - | - | - | (1,100) | (28,958) | (30,058) |
| **Gweddill ar 13 Mawrth 2010** | 23,000 | 61,545 | 4,366 | 64,564 | 246,256 | 399,731 |
| **Newidiadau i gronfeydd wrth gefn 2010/11** | | | | | | |
| Cronfa Indemniad | | | | | | |
| Ychwanegiadau yn ystod y flwyddyn | **7,941** | **-** | **-** | **-** | **-** | **7,941** |
| Defnyddiwyd yn y flwyddyn | **(9,141)** | **-** | **-** | **-** | **-** | **(9,141)** |
| Cronfa wrth gefn ailbrisio | | | | | | |
| Trosglwyddo i enillion a gadwyd | **-** | **-** | **-** | **(352)** | **352** | **-** |
| Trosglwyddo i asedau a ddelir i'w gwerthu | **-** | **-** | **-** | **(23,734)** | **-** | **(23,734)** |
| Grant y Llywodraeth | | | | | | |
| Ailbrisio | **-** | **-** | **89** | **-** | **-** | **89** |
| Amorteiddio | **-** | **-** | **(307)** | **-** | **-** | **(307)** |
| Dibrisio | **-** | **-** | **(295)** | **-** | **-** | **(295)** |
| Diffyg net cynhwysfawr | **-** | **-** | **-** | **1,316** | **(4,237)** | **(2,921)** |
| **Gweddill ar 31 Mawrth 2011** | **21,800** | **61,545** | **3,853** | **41,794** | **242,371** | **371,363** |

Mae'r nodiadau ar dudalennau 44 i 62 yn rhan annatod o'r cyfrifon hyn.

# Datganiad llif arian am y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2011

| | Nodiadau | 2011<br>£'000 | 2010<br>(Ailddatganwyd)<br>£'000 |
|---|---|---|---|
| Llif arian net i mewn/(allan) o weithgareddau gweithredu | 20.1 | **51,218** | (13,857) |
| **Gweithgareddau buddsoddi** | | | |
| Prynu asedau diriaethol | | **(18,252)** | (10,870) |
| Prynu asedau anniriaethol | | **(494)** | (3,522) |
| Enillion wrth waredu asedau diriaethol | | **47,683** | 7,098 |
| Llog a dderbyniwyd | | **523** | 553 |
| **Arian parod net i mewn/(allan) o weithgareddau buddsoddi** | | **29,460** | (6,741) |
| **Gweithgareddau ariannu** | | | |
| Difidendau a dalwyd | | **(15,279)** | (18,572) |
| Ad-daliadau o elfen cyfalaf rhwymedigaethau o dan brydlesi cyllid | | **(2,219)** | (3,050) |
| Elfennau llog rhwymedigaethau o dan brydlesi cyllid | | **(870)** | (784) |
| **Arian net allan o weithgareddau ariannu** | | **(18,368)** | (22,406) |
| Nid yw datgeliad ar wahân ar gyfer segmentau gweithredu wedi'i ddangos oherwydd mae'r gyfran incwm a gwariant ar gyfer yr adrannau Pridiannau Tir a Chredydau Amaethyddol yn llai na 2 y cant ac felly ni ystyrir ei bod yn bwysig. | | | |
| **Cynnydd/(gostyngiad) net mewn arian parod ac arian parod cyfatebol** | 20.2 | **62,310** | (43,004) |
| **Arian parod ac arian parod cyfatebol ar ddechrau'r flwyddyn** | 20.2 | **237,325** | 280,329 |
| **Arian parod ac arian parod cyfatebol ar ddiwedd y flwyddyn** | 12 | **299,635** | 237,325 |

Mae'r nodiadau ar dudalennau 44 i 62 yn rhan annatod o'r cyfrifon hyn.

# Nodiadau ar y datganiadau ariannol

## 1 Datganiad o bolisïau cyfrifyddu

### 1.1 Sail paratoi

Mae'r datganiadau ariannol hyn wedi cael eu paratoi yn unol â Llawlyfr Adroddiadau Ariannol y Llywodraeth 20010/11 (FReM) ac maent yn cydymffurfio â'r Cyfarwyddyd Cyfrifon a roddwyd gan y Trysorlys yn unol ag adran 4(6)(a) o Ddeddf Cronfeydd Masnachu'r Llywodraeth 1973.

Mae'r polisïau cyfrifyddu wedi'u cynnwys yn y FReM yn dilyn y Safonau Adrodd Ariannol Rhyngwladol (IFRS) wedi'u haddasu neu eu dehongli ar gyfer cyd-destun y sector cyhoeddus. Os yw'r FReM yn caniatáu dewis o bolisi cyfrifyddu, dewiswyd y polisi cyfrifyddu y barnwyd ei fod yn fwyaf priodol i amgylchiadau arbennig y Gofrestrfa Tir at ddibenion rhoi darlun gwir a theg. Defnyddiwyd polisïau cyfrifyddu'r Gofrestrfa Tir yn gyson wrth ddelio ag eitemau yr ystyrir eu bod yn bwysig yng nghyd-destun datganiadau ariannol.

Ni ddisgwylir i'r Safonau Adrodd Ariannol Rhyngwladol (IFRS) sydd wedi'u cyhoeddi ond nad ydynt yn weithredol eto - gweithredu'r Safonau sydd wedi'u cyhoeddi, ond sydd heb fod yn weithredol eto, ar gyfer y cyfnod cyfrifyddu sy'n cael ei adolygu, gael effaith o bwys ar y datganiadau ariannol.

Mae'r datganiadau ariannol hyn wedi cael eu paratoi ar sail busnes gweithredol. Mae'r rheolwyr o'r farn bod sail busnes gweithredol yn briodol oherwydd mae rhwymedigaeth gyfreithiol arnom o dan Ddeddf Cofrestru Tir 2002 i ddarparu gwasanaethau statudol yn ymwneud â chofrestru tir. Nid oes unrhyw gynlluniau i ddiwygio'r Ddeddf ac ni chafwyd gwybod am unrhyw benderfyniadau i awgrymu y bydd diwygiad yn digwydd yn y 12 mis nesaf, ac mae'r Rhaglen Trawsnewid Cyflymedig wedi cynnig strwythur i gefnogi'r busnes fel busnes gweithredol.

### 1.2 Confensiwn cyfrifyddu

Mae'r datganiadau ariannol wedi cael eu paratoi o dan y confensiwn cost hanesyddol wedi'i addasu ar gyfer ailbrisio eiddo, cyfarpar ac offer, asedau anniriaethol ac, os ydynt yn berthnasol, stocrestrau i werth teg fel y pennwyd gan y safon gyfrifyddu berthnasol.

### 1.3 Incwm ffioedd

Dyma'r incwm sy'n ymwneud yn uniongyrchol â gweithgareddau gweithredol y Gofrestrfa Tir. Mae'n cynnwys ffioedd, yn glir o unrhyw ad-daliadau, ar gyfer gwasanaethau statudol i gofrestru teitl a phridiannau tir, gan gynnwys credydau amaethyddol. Mae incwm yn cael ei gydnabod yn y datganiadau ariannol yn y flwyddyn ariannol pan gafodd y gwasanaeth ei ddarparu.

Mae rhai gwasanaethau yn gofyn am dderbyn tâl gyda'r cais, sy'n golygu bod taliadau'n cael eu derbyn am wasanaethau sydd heb eu darparu eto o fewn y flwyddyn ariannol yr adroddir arni. Mae'r symiau hyn yn cael eu hadrodd fel ffioedd a dderbyniwyd ymlaen llaw a'u datgelu o fewn rhwymedigaethau cyfredol.

### 1.4 Yswiriant

Codir yswiriant i'r datganiad o incwm cynhwysfawr ar sail y premiymau gwirioneddol a dalwyd, ar gyfer yswirio eiddo, lifftiau, cerbydau, defnyddio ceir hur a theithio dramor.

### 1.5 Buddion gweithwyr

Cydnabyddir cost darparu buddion gweithwyr yn y cyfnod pan fydd y Gofrestrfa Tir yn derbyn gwasanaethau gan ei gweithwyr, yn hytrach na phan gaiff ei thalu neu pan fydd yn daladwy. Cydnabyddir buddion gweithwyr tymor byr fel treuliau yn y cyfnod pan fydd y gweithiwr yn darparu'r gwasanaeth. Cydnabyddir taliadau perfformiad dim ond pan fydd rhwymedigaeth gyfreithiol neu ddeongladwy i'w talu a gellir rhoi amcangyfrifon dibynnol o'r costau. Cydnabyddir buddion terfynu pan fydd modd dangos bod cytundeb anwrthdroadwy i derfynu cyflogaeth gweithiwr(wyr) cyn dyddiad ymddeol y cynllun neu o ganlyniad i gynnig i annog diswyddo gwirfoddol.

### 1.6 Pensiynau

Mae gweithwyr y Gofrestrfa Tir yn weision sifil ac mae ganddynt hawl i fod yn aelodau o Brif Gynllun Pensiwn y Gwasanaeth Sifil (PGPGS). Mae PGPGS yn gynllun buddion wedi'u diffinio amlgyflogwr heb ei gyllido, ond nid yw'r Gofrestrfa Tir yn gallu adnabod ei chyfran o'r asedau a'r rhwymedigaethau sylfaenol. Mae'r Gofrestrfa Tir yn cydnabod y gost ddisgwyliedig o ddarparu pensiynau ar sail systematig a rhesymol dros y cyfnod y mae'n cael budd o wasanaethau'r gweithwyr drwy dalu i'r PGPGS symiau wedi'u cyfrifo ar sail gronnus. Mae rhwymedigaeth dros dalu buddion yn y dyfodol yn dâl i'r PGPGS. Roedd actiwari'r cynllun wedi prisio'r cynllun ar 31 Mawrth 2007. Fe gewch fanylion yng nghyfrifon adnoddau'r Swyddfa'r Cabinet o

dan Flwydd-daliadau Sifil (www.civilservice-pensions.gov.uk).

Fe welwch fanylion pellach am bensiynau yn yr adroddiad tâl ar dudalennau 33 i 38.

**1.7 Eiddo, cyfarpar ac offer**
Mae tir ac adeiladau rhydd-ddaliol a phrydlesol yn cael eu prisio'n broffesiynol bob tair blynedd. Yn y blynyddoedd rhyngddynt, bydd Asiantaeth y Swyddfa Brisio yn darparu prisiad 'bwrdd gwaith'. Cynhaliwyd y prisiad llawn diwethaf yn Ionawr 2011.

Mae FReM yn ei gwneud hi'n ofynnol i'r Gofrestrfa Tir ddatgelu asedau anghyfredol eraill yn y datganiad o sefyllfa ariannol ar werth teg. Yn achos asedau heb fod yn eiddo sydd ag oes fer defnyddir cost hanesyddol fel brasamcan o werth teg yr ased.

Mae tir ac adeiladau rhydd-ddaliol ac adeiladau prydlesol wedi'u cynnwys ar ailbrisiad llai dibrisiad cronedig a cholledion amhariad.

Mae'r holl asedau anghyfunol diriaethol eraill yn cael eu cynnwys ar gost hanesyddol llai'r dibrisiad cronedig a cholledion amhariad.

Ni chaiff asedau sydd wrthi'n cael eu hadeiladu eu dibrisio.

Mae'r tâl dibrisio yn cael ei gyfrifo er mwyn dyrannu'r gost neu'r swm wedi'i ailbrisio, llai gwerth gweddillol amcangyfrifedig, o asedau anghyfredol yn systematig dros eu hoes ddefnyddiol sy'n weddill gan ddefnyddio'r dull llinell syth.

Mae oes asedau yn cael ei hadolygu ar ddiwedd bob blwyddyn ariannol.

Defnyddir y cyfraddau dibrisio asedau canlynol:

| | |
|---|---|
| Tir rhydd-ddaliol | dim |
| Adeiladau rhydd-ddaliol | 2 y cant |
| Adeiladau prydlesol | cyfnod y brydles |
| Cyfarpar telegyfathrebu | 20 y cant |
| Dodrefn, gosodion a ffitiadau | 20 y cant |
| Cyfarpar swyddfa | 20 y cant |
| Cyfrifiaduron: | prif-ffrâm 20 y cant |
| Cyfrifiaduron: | mini a chyfrifiaduron personol 33 1/3 y cant |
| Cerbydau modur | 25 y cant |
| Ceblo strwythuredig | 10 y cant |
| Offer a pheiriannau trwm | 10 y cant |

Mae asedau anghyfredol wedi'u dosbarthu fel rhai a ddelir i'w gwerthu yn cael eu cario am werth teg llai costau i'w gwerthu ac ni chânt eu dibrisio. Mae'r Gofrestrfa Tir yn dosbarthu ased anghyfredol fel un a ddelir i'w werthu os caiff ei swm cario ei adennill yn bennaf drwy drafodiad gwerthiant yn hytrach na thrwy ddefnydd parhaus. Er mwyn bod yn gymwys rhaid i'r ased fod ar gael i'w werthu ar unwaith yn ei gyflwr presennol a rhaid i'r gwerthiant fod yn hynod debygol.

**1.8 Amhariad o asedau anghyfredol**
Cynhelir adolygiadau amhariad ar ddiwedd bob blwyddyn ac os oes arwyddion bod yr ased wedi dioddef colled amhariad mae tâl yn cael ei adlewyrchu yn y datganiad o incwm cynhwysfawr yn y flwyddyn pan fydd yn digwydd, oni bai bod yr ased yn cael ei gario am swm wedi'i ailbrisio, ac os felly mae'r golled amhariad yn cael ei thrin fel gostyngiad ailbrisio. Os oes unrhyw arwydd o'r fath, mae swm yr ased y gellir ei adennill yn cael ei amcangyfrif er mwyn pennu graddfa'r golled amhariad. Y swm y gellir ei adennill yw'r uchaf o werth teg llai costau i werthu a gwerth o'i ddefnyddio. Wrth asesu gwerth o'i ddefnyddio mae'r llifoedd arian amcangyfrifedig yn y dyfodol yn cael eu gostwng i'w gwerth presennol gan ddefnyddio cyfradd disgownt gymwys y llywodraeth sef 3.5 y cant.

**1.9 Asedau anniriaethol**
Mae'r gwariant datblygu ar gyfer asedau anniriaethol a gynhyrchir yn fewnol yn cael ei gydnabod os a dim ond os gall y Gofrestrfa Tir ddangos:

(a) ymarferoldeb technegol cwblhau'r ased anniriaethol er mwyn iddo fod ar gael i'w ddefnyddio
(b) y bwriad i gwblhau'r ased anniriaethol a'i ddefnyddio
(c) y gallu i ddefnyddio'r ased anniriaethol
(ch) sut y bydd yr ased anniriaethol yn cynhyrchu buddion economaidd tebygol yn y dyfodol a sut y gall ddangos defnyddioldeb yr ased anniriaethol
(d) argaeledd adnoddau technegol, ariannol ac adnoddau digonol eraill i gwblhau datblygu a defnyddio'r ased anniriaethol, ac
(dd) gallu mesur yn ddibynadwy y gwariant i'w briodoli i'r ased anniriaethol yn ystod ei ddatblygiad.

Mae'r Gofrestrfa Tir wedi datblygu tair system i gyflwyno gwasanaethau ac mae pob un ohonynt yn cael eu defnyddio erbyn hyn. Mae cost datblygu

systemau TG (porthol y Gofrestrfa Tir, E-ddiogelwch a Business Gateway) wedi cael ei chyfalafu fel ased anniriaethol ar y datganiad o sefyllfa ariannol. Mae'r gwariant a gafwyd wrth ddatblygu'r systemau wedi cael ei nodi ar wahân gan gyfres o brosiectau a'i reoli o fewn y Rhaglen Gwasanaethau Electronig, sydd wedi dod i ben erbyn hyn.

Mae holl gostau'r rhaglen sy'n gymwys i'w diffinio fel gwariant datblygu, gan gynnwys costau staff y gellir eu priodoli'n uniongyrchol, wedi cael eu cyfalafu. Erbyn hyn mae'r costau hyn yn cael eu hamorteiddio ar sail llinell syth, ar gyfradd o 10 y cant, dros oes ddefnyddiol ddisgwyliedig y systemau, sydd wedi cael eu pennu drwy gyfeirio at oes ddefnyddiol asedau tebyg eraill sy'n cael eu defnyddio yn y Gofrestrfa Tir. Mae'r systemau yn cael eu hasesu am arwyddion o namau ar ddiwedd pob blwyddyn ariannol.

Mae trwyddedau meddalwedd wedi'u cynnwys am gost llai amorteiddio cronedig. Cânt eu hamorteiddio ar linell syth ar gyfradd o:

| | |
|---|---|
| Prif ffrâm | 20 y cant |
| Bwrdd gwaith | 33 1/3 y cant |

**1.10 Stocrestrau**
Mae gwaith ar y gweill wedi'i ddatgan ar yr isaf o gros a gwerth realeiddio net, sy'n seiliedig ar y ffi, llai costau pellach y disgwylir iddynt godi wrth gwblhau'r achos.

**1.11 Masnach i'w dderbyn**
Nid yw masnach i'w dderbyn yn cario unrhyw log a chaiff ei ddatgan am ei werth nominal fel masnach wedi'i leihau gan lwfansau priodol ar gyfer symiau nad oes modd eu hadennill. Mae'r swm sy'n cario o fasnach i'w dderbyn yn frasamcan o werth teg.

**1.12 Arian parod ac arian parod cyfatebol**
Mae arian parod yn cynrychioli arian mewn llaw, arian a ddelir gyda Gwasanaeth Bancio'r Llywodraeth, arian ar adnau gyda'r Gronfa Benthyciadau Cenedlaethol ac mewn cyfrifon banc masnachol.

**1.13 Masnach i'w dalu**
Mae masnach i'w dalu wedi'i ddatgan ar ei werth nominal. Ystyrir bod swm cario masnach i'w dalu yn frasamcan o werth teg.

**1.14 Deilliadau wedi'u sefydlu**
Mae deilliadau wedi'u sefydlu mewn contractau lletyol yn cael eu trin fel deilliadau ar wahân os nad yw eu risgiau a'u nodweddion wedi'u cysylltu'n agos â rhai'r contract lletyol a chyfrifir amdanynt ar wahân. Nid yw adolygiad o brif gontractau'r Gofrestrfa Tir wedi adnabod unrhyw ddeilliadau wedi'u sefydlu ac felly nid oes angen datgeliad ar wahân.

**1.15 Darpariaethau**
Mae'r Gofrestrfa Tir yn darparu ar gyfer rhwymedigaethau cyfreithiol ac adeiladol sydd ag amseriad neu swm ansicr ar ddyddiad y datganiad o sefyllfa ariannol, ar sail amcangyfrif gorau'r rheolwyr o'r gwariant sydd ei angen i fodloni'r rhwymedigaeth. Os yw'n briodol ategir hyn gan gyngor proffesiynol annibynnol. Codir darpariaethau ar y datganiad o incwm cynhwysfawr a chânt eu cofnodi fel rhwymedigaethau yn y datganiad o sefyllfa ariannol.

Y ffactor disgownt sy'n gymwys i'r ddarpariaeth ymddeoliad cynnar dros 10 mlynedd yw 2.9 y cant.

**1.16 Cronfa Indemniad**
Sefydlwyd y Gronfa Indemniad yn 1993. Yn 2010/11 comisiynodd y Gofrestrfa Tir Lane Clark & Peacock i gynnal adolygiad actiwaraidd.

Mae'r gronfa yn cynrychioli'r swm a gyfrifwyd gan yr actiwarïaid proffesiynol annibynnol fel yr hyn sy'n angenrheidiol i fodloni'r ddyletswydd statudol sydd ar y Gofrestrfa Tir i indemnio teitl cofrestredig yng Nghymru a Lloegr. Argymhellodd yr adroddiad fod y Gofrestrfa Tir yn lleihau'r gronfa i £21.8 miliwn fel ar 31 Mawrth 2011. Bydd hawliadau a brofir ac a gwmpasir gan y gronfa yn cael eu codi, yn y lle cyntaf, yn erbyn y gronfa.

**1.17 Rhwymedigaethau wrth gefn**
Os yw'n briodol, mae rhwymedigaethau y mae'n bosibl yn unig y byddant yn crisialu ac nid ydynt yn bodloni meini prawf y darpariaethau, wedi'u dosbarthu fel rhwymedigaethau wrth gefn. Mae hyn yn cynnwys, ond nid yw wedi'i gyfyngu i hawliadau am golledion sy'n deillio o gamgymeriadau, neu dwyll mewn perthynas â chyfrifoldeb statudol y Gofrestrfa Tir fel yswiriwr teitlau yng Nghymru a Lloegr.

**1.18 Prydlesi cyllid**
Os yw'r Gofrestrfa Tir yn cadw holl risgiau a gwobrwyon bod yn berchennog ased sy'n amodol ar brydles, caiff y brydles ei thrin fel prydles gyllid.

Mae rhandaliadau sy'n daladwy yn y dyfodol o dan brydlesi cyllid,

yn glir o daliadau cyllid, yn cael eu cynnwys yn rhwymedigaethau gyda'r gwerthoedd ased cyfatebol wedi'u cofnodi yn asedau anghyfredol a'u dibrisio dros y byrrach o'u hoes ddefnyddiol dybiedig neu eu telerau prydles. Mae taliadau prydles yn cael eu dosrannu rhwng yr elfen cyllid, a godir i'r datganiad o incwm cynhwysfawr fel llog, a'r elfen gyfalaf, sy'n lleihau'r rhwymedigaeth sy'n weddill ar gyfer rhandaliadau yn y dyfodol.

**1.19 Prydlesi gweithredol**
Prydles weithredol yw prydles heblaw prydles gyllid. Codir costau rhentu o dan brydlesi gweithredol ar y datganiad o incwm cynhwysfawr wrth iddynt godi.

**1.20 Grant cyfalaf y llywodraeth**
Mae gwerth asedau a gyllidir gan grant y llywodraeth ar gyfer gwariant cyfalaf yn cael ei ddal mewn Cronfa Wrth Gefn Grant y Llywodraeth. Mae'r asedau y telir amdanynt gyda'r grant yn cael eu hailbrisio a'u dibrisio yn unol â pholisi asedau anghyfredol y Gofrestrfa Tir. Mae costau dibrisio a symudiadau ailbrisio ar gyfer yr asedau hyn yn cael eu codi ar y gronfa wrth gefn yn unol â chanllawiau FReM.

**1.21 Taliadau i gyflenwyr Menter Cyllid Preifat (PFI)**
Mae contract Menter Cyllid Preifat â Steria yn cael ei gyfrif amdano o dan Bwyllgor Dehongliadau Adrodd Ariannol Rhyngwladol (IFRIC) 12 fel y'i diwygiwyd gan FReM. Mae elfen cyfalaf y gwariant o dan y contract yn cael ei chofnodi fel ased ar y datganiad o sefyllfa ariannol ac mae'r elfen gwasanaeth yn cael ei mynegi trwy'r datganiad o incwm cynhwysfawr pan fydd yn codi. Mae'r swm a gyfalafwyd yn cael ei amorteiddio dros oes fyrrach yr ased neu gyfnod y contract.

**1.22 TAW**
Mae'r Gofrestrfa Tir yn rhoi cyfrif am TAW ar ei gweithgareddau statudol o dan Gyfarwyddiadau Trethu a Chontractio Gwasanaethau Allan y Trysorlys. Ar gyfer gweithgaredd anstatudol, sy'n weithgarwch busnes, codir ac adenillir TAW yn ôl rheolau TAW masnachol. Mae TAW nad oes modd ei hadennill yn cael ei chodi ar y categori gwariant perthnasol neu ei chynnwys yng nghostau prynu wedi'u cyfalafu yr asedau sefydlog. Os yw treth allbwn yn cael ei chodi neu os oes modd adennill treth fewnbwn nodir y symiau yn glir o TAW.

**1.23 Cost cyfalaf**
Mae'n ofynnol i'r Gofrestrfa Tir dalu i'r Trysorlys ddifidend blynyddol sef 3.5 y cant o'r cyfalaf cyfartalog a ddefnyddiwyd yn ystod y flwyddyn ariannol. Mae'n ddigonol ym marn y Gofrestrfa Tir i gyfrifo'r ffigur hwn drwy ddefnyddio cyfartaledd blynyddol. Nid yw cyfrifo'r ffigur hwn drwy ddefnyddio cyfartaledd blynyddol yn cael unrhyw effaith o bwys.

**1.24 Technegau amcangyfrif**
Technegau amcangyfrif yw'r dulliau a fabwysiadir i bennu'r symiau arian a amcangyfrifir ar gyfer incwm a gwariant yn ystod y cyfnod adrodd a phrisio asedau a rhwymedigaethau a datgelu asedau a rhwymedigaethau wrth gefn ar ddyddiad y cyfrifon. Mae technegau amcangyfrif arwyddocaol ar gyfer y Gofrestrfa Tir yn cynnwys cydnabod a phrisio darpariaethau, e.e. incwm cronnus, PFI, cronfa indemniad a darpariaethau ymddeoliad cynnar ac ymddiswyddo cynnar.

**1.25 Ailddatganiadau cyfnod blaenorol**
O dan IAS 8 *Newidiadau i bolisïau cyfrifyddu mewn amcangyfrifon a chamgymeriadau cyfrifyddu*, mae addasiadau i gyfnodau blaenorol yn ofynnol ar gyfer newidiadau i bolisïau cyfrifyddu neu i gywiro camgymeriadau mewn cyfnod blaenorol, sy'n codi o hepgoriadau, neu gamddatganiadau.

Mae'r Gofrestrfa Tir wedi cymhwyso addasiadau cyfnod blaenorol i'r sefyllfa agoriadol ar gyfer 2009/10 drwy gronfeydd wrth gefn 2008/9 a thrwy'r datganiad o incwm cynhwysfawr yn 2009/10. Gwnaethpwyd hynny i gywiro camgymeriad ac adlewyrchu newid polisi yn ein triniaeth o wariant datblygu mewn perthynas ag e-drawsgludo.

## 2 Segmentau busnes

Mae'r wybodaeth yn y nodyn hwn yn bodloni dau ddiben. Y cyntaf yw cydymffurfio â chanllaw *Ffioedd a thaliadau'r* Trysorlys a'r ail yw cydymffurfio â'r Safon Adrodd Ariannol Ryngwladol (IFRS) 8.

Mae'r Gofrestrfa Tir yn cyflawni dau wasanaeth statudol ar wahân: cofrestru teitl a phridiannau tir gan gynnwys credydau amaethyddol.

Yn y tabl isod nodir yr incwm ffioedd, cyfanswm cost gwasanaeth a'r gwarged ar gyfer pob un o'r gwasanaethau hyn. Mae cost gwasanaeth a chostau gweinyddol yn cael eu dyrannu os oes modd eu hadnabod ar wahân gyda'r gwasanaeth neu eu dosrannu yn gymesur â'r incwm a gynhyrchwyd gan bob segment.

| | **Cofrestru teitl** | **Pridiannu tir a chredydau amaethyddol** | **Cyfanswm** | Cyfanswm |
|---|---|---|---|---|
| | **2011** | **2011** | **2011** | 2010 (Ailddatganwyd) |
| | **£'000** | **£'000** | **£'000** | £'000 |
| Incwm ffioedd | **346,422** | **4,580** | **351,002** | 328,414 |
| Cost gwasanaeth | **(266,678)** | **(4,122)** | **(270,800)** | (292,020) |
| Costau gweinyddol | **(14,596)** | **(237)** | **(14,833)** | (16,932) |
| Gwarged gweithredu | **65,148** | **221** | **65,369** | 19,462 |

Amcan ariannol y gronfa fasnachu yw talu costau'r ddau wasanaeth a gwneud enillion ar y cyfalaf cyfartalog a ddefnyddiwyd o 3.5 y cant, gan gymryd un flwyddyn gyda'r llall (gweler hefyd nodyn 23).

Mae asedau net yr adrannau Pridiannau Tir a Chredydau Amaethyddol yn cynrychioli oddeutu 2 y cant o gyfanswm asedau net y Gofrestrfa Tir.

## 3 Gwarged gweithredu

### 3.1 Nodir y gwarged gweithredu ar ôl codi am y canlynol

| | **2011** | 2010 (Ailddatganwyd) |
|---|---|---|
| | **£'000** | £'000 |
| Costau staff (gweler nodyn 4.1) | **185,640** | 205,403 |
| Darpariaethau ar gyfer costau indemniad | **(1,200)** | - |
| Costau seilwaith TG (gweler nodyn 22) | **8,262** | 10,047 |
| Hurio peiriannau | **6,513** | 6,465 |
| Tâl yr archwiliwr - ffi archwilio | **68** | 70 |
| Tâl yr archwiliwr - ffi archwilio IFRS | **-** | 12 |
| Dibrisio asedau anghyfredol diriaethol - a berchenogir | **8,389** | 18,418 |
| Dibrisio asedau anghyfredol diriaethol - a brydlesir | **2,694** | 400 |
| Amorteiddio asedau anniriaethol | **6,930** | 4,013 |
| Amhariad mewn gwerth asedau anghyfredol | **11,435** | 4,562 |
| Tâl am brydlesi gweithredu - adeiladau | **2,565** | 3,519 |
| Incwm gweithredu arall | **(6,817)** | (5,890) |

### 3.2 Costau ailstrwythuro ac ad-drefnu

| | **2011** | | | | 2010 |
|---|---|---|---|---|---|
| | **Ymddeoliad cynnar** | **Diswyddo cynnar** | **RhTC a chost Glasbrint** | **Cyfanswm** | Cyfanswm |
| | **£'000** | **£'000** | **£'000** | **£'000** | £'000 |
| Costau a gafwyd yn y flwyddyn | **12,709** | **26,376** | **7,652** | **46,737** | 28,673 |
| Costau a ddarparwyd ar eu cyfer yn y flwyddyn | **30,606** | **10,504** | **-** | **41,110** | 5,936 |
| | **43,315** | **36,880** | **7,652** | **87,847** | 34,609 |
| Elw wrth waredu | **-** | **-** | **(39,324)** | **(39,324)** | (3,840) |
| | **43,315** | **36,880** | **(31,672)** | **48,523** | 30,769 |

Mae'r datganiad o incwm cynhwysfawr yn adrodd elw net ar waredu asedau anghyfredol o £39.114 miliwn. Mae'r ffigur hwn wedi'i ddadansoddi fel a ganlyn: elw ar werthu Lincoln's Inn Fields o £35.037 miliwn, elw ar werthu Tunbridge Wells o £5.028 miliwn, gan roi cyfanswm elw o £40.065 miliwn; roedd asedau cysylltiedig yn deillio o werthu'r eiddo hwn wedi creu colled ar waredu o £0.741 miliwn gan roi elw ad-drefnu ac ailstrwythuro o £39.324 miliwn. Roedd asedau eraill a waredwyd yn ystod y flwyddyn heb unrhyw gysylltiad â'r RhTC neu'r Glasbrint wedi creu colled ar waredu o £0.210 miliwn gan felly nodi elw net ar waredu o £39.114 miliwn yn y datganiad o incwm cynhwysfawr.

## 4 Gwybodaeth gweithwyr

### 4.1 Costau staff

| | **2011** | | | 2010 |
|---|---|---|---|---|
| | | | | (Ailddatganwyd) |
| | **Staff parhaol** | **Eraill** | **Cyfanswm** | Cyfanswm |
| | **£'000** | **£'000** | **£'000** | £'000 |
| Cyflogau | **147,308** | **1,495** | **148,803** | 165,294 |
| Costau nawdd cymdeithasol | **10,709** | **12** | **10,721** | 11,670 |
| Costau pensiwn eraill | **28,054** | **-** | **28,054** | 30,693 |
| **Cyfanswm costau staff** | **186,071** | **1,507** | **187,578** | 207,657 |
| Costau staff wedi'u cyfalafu | **-** | **-** | **-** | (1,230) |
| Costau staff ar secondiad | **(1,938)** | **-** | **(1,938)** | (1,024) |
| **Cyfanswm costau staff net** | **184,133** | **1,507** | **185,640** | 205,403 |

Mae'r symiau a ddatgelir fel cyflogau yn cynnwys tâl cyfarwyddwyr.

Mae costau staff eraill yn cynnwys cyflogau a chostau nawdd cymdeithasol ar gyfer staff wedi'u cyflogi fel staff dros dro neu staff ar gontractau cyfnod penodol; a chostau staff asiantaeth.

### 4.2 Niferoedd staff

Roedd nifer y bobl a gyflogwyd ar gyfartaledd (cyfwerth ag amser llawn) gan y Gofrestrfa Tir yn ystod y flwyddyn fel a ganlyn:

| | **2011** | | | 2010 |
|---|---|---|---|---|
| | **Staff parhaol** | **Eraill** | **Cyfanswm** | |
| Uwch reolwyr | **8** | **-** | **8** | 8 |
| Gweithredol | **4,544** | **1** | **4,545** | 5,689 |
| Gweinyddol | **317** | **11** | **328** | 345 |
| TG | **438** | **3** | **441** | 483 |
| | **5,307** | **15** | **5,322** | 6,525 |

**4.3** Mae cyflog a hawliau pensiwn Prif Weithredwr a chyfarwyddwyr y Gofrestrfa Tir wedi'u cynnwys yn yr adroddiad tâl ar dudalennau 33 i 38.

**4.4 Pensiynau**
Darperir buddion pensiwn i'r rhan fwyaf o'r staff drwy'r PGPGS. Ar gyfer 2010/11 roedd cyfraniadau cyflogwr o £28.0 miliwn (2009/10: £30.6 miliwn) yn daladwy i'r PGPGS ar un o bedair cyfradd yn yr amrediad 16.7 y cant a 24.3 y cant o dâl pensiynadwy, yn seiliedig ar fandiau cyflog.

Gallai gweithwyr a ymunodd ar ôl 1 Hydref 2002 ddewis agor cyfrif pensiwn partneriaeth, pensiwn budd-ddeiliaid gyda chyfraniad cyflogwr. Ar gyfer 2010/11 roedd y Gofrestrfa Tir wedi gwneud cyfraniad o £58,277 (2009/10: £54,525).

Fe welwch fanylion pellach am y cynlluniau pensiwn a phecynnau ymadael y cynlluniau iawndal yn yr adroddiad tâl ar dudalennau 33 i 38.

## 5 Incwm buddsoddi

| | **2011** | 2010 |
|---|---|---|
| | **£'000** | £'000 |
| Llog ar adneuon banc | **580** | 549 |

## 6 Costau cyllid

| | **2011** | 2010 |
|---|---|---|
| | **£'000** | £'000 |
| Llog ar rwymedigaethau o dan brydlesi cyllid | **870** | 784 |

## 7 Difidend i'w dalu

| | **2011** | 2010 |
|---|---|---|
| | **£'000** | £'000 |
| Difidend i'w dalu | **14,006** | 15,279 |

Mae'n ofynnol i'r Gofrestrfa Tir dalu difidend blynyddol i'r Trysorlys sef 3.5 y cant o'r cyfalaf cyfartalog a ddefnyddiwyd yn ystod y flwyddyn ariannol.

# 8 Eiddo, cyfarpar ac offer

## 8.1 Cost neu brisiad

| | **Eiddo** | | | | **Cyfarpar ac offer** | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | Rhydd-ddaliol Tir | Adeiladau | Prydlesol Adeiladau | Asedau sy'n cael eu hadeiladu | Asedau cysylltiedig â TG | Cyfarpar ac offer arall | Cyfanswm |
| | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 |
| Ar 1 Ebrill 2010 | **34,592** | **100,396** | **29,552** | **964** | **64,533** | **34,000** | **264,037** |
| Ychwanegiadau | **-** | **-** | **-** | **1,199** | **15,891** | **58** | **17,148** |
| Asedau'n cael eu dwyn i'w defnyddio | **-** | **48** | **-** | **(1,302)** | **396** | **279** | **(579)** |
| Ailbrisio yn y flwyddyn[1] | **(753)** | **1,477** | **(48)** | **-** | **-** | **-** | **676** |
| Ailddosbarthu asedau | **-** | **-** | **-** | **-** | **15** | **(15)** | **-** |
| Trosglwyddo asedau wedi'u dal i'w gwerthu (gwerth y farchnad) | **(4,700)** | **(15,820)** | **-** | **-** | **-** | **-** | **(20,520)** |
| Amhariad | **-** | **-** | **(344)** | **-** | **-** | **-** | **(344)** |
| Gwarediadau | **(9,450)** | **(24,089)** | **-** | **-** | **(6,119)** | **(3,386)** | **(43,044)** |
| Ar 31 Mawrth 2011 | **19,689** | **62,012** | **29,160** | **861** | **74,716** | **30,936** | **217,374** |

### Dibrisiad ac amhariad cronedig

| | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Ar 1 Ebrill 2010 | **-** | **11,778** | **4,229** | **-** | **52,454** | **28,053** | **96,514** |
| Darparwyd yn ystod y flwyddyn[2, 3] | **-** | **2,493** | **779** | **-** | **7,932** | **2,264** | **13,468** |
| Trosglwyddo asedau wedi'u dal i'w gwerthu (gwerth y farchnad) | **-** | **(811)** | **-** | **-** | **-** | **-** | **(811)** |
| Gwarediadau | **-** | **(2,370)** | **-** | **-** | **(5,550)** | **(2,845)** | **(10,765)** |
| Ar 31 Mawrth 2011 | **-** | **11,090** | **5,008** | **-** | **54,836** | **27,472** | **98,406** |
| **Swm sy'n cario ar 31 Mawrth 2011** | **19,689** | **50,922** | **24,152** | **861** | **19,880** | **3,464** | **118,968** |

## 8.2 Cost neu brisiad

| | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 |
| Ar 1 Ebrill 2009 | 37,420 | 112,391 | 28,832 | 2,931 | 74,544 | 35,590 | 291,708 |
| Ychwanegiadau | - | - | - | 2,195 | 7,997 | 362 | 10,554 |
| Asedau'n cael eu dwyn i'w defnyddio | - | 3 | - | (2,488) | 226 | 552 | (1,707) |
| Ailbrisio yn y flwyddyn[1] | 419 | (1,495) | 6,578 | - | - | - | 5,502 |
| Ailddosbarthu i gronfeydd wrth gefn a gadwyd | - | - | (4,638) | - | - | - | (4,638) |
| Ailddosbarthu asedau | - | - | - | - | (13,448) | (8) | (13,456) |
| Trosglwyddo asedau a ddelir i'w gwerthu (gwerth y farchnad) | (510) | (3,960) | - | - | - | - | (4,470) |
| Amhariad | (487) | (391) | (1,220) | (1,674) | - | - | (3,772) |
| Gwarediadau | (2,250) | (6,152) | - | - | (4,786) | (2,496) | (15,684) |
| Ar 31 Mawrth 2010 | 34,592 | 100,396 | 29,552 | 964 | 64,533 | 34,000 | 264,037 |

## Disbrisad ac amhariad cronedig

| | Eiddo | | | | Peiriannau ac offer | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | Rhydd-ddaliol | | Prydlesol | Asedau sy'n cael eu hadeiladu | Asedau cysylltiedig â TG | Cyfarpar ac offer arall | Cyfanswm |
| | Tir | Adeiladau | Adeiladau | | | | |
| | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 |
| Ar 1 Ebrill 2009 | - | 12,287 | 3,147 | - | 59,336 | 27,056 | 101,826 |
| Darparwyd yn ystod y flwyddyn[2] | - | 2,449 | 1,576 | - | 12,861 | 3,109 | 19,995 |
| Ailddosbarthu i gronfeydd wrth gefn a gadwyd | - | - | (494) | - | - | - | (494) |
| Ailddosbarthu asedau | - | - | - | - | (15,040) | (8) | (15,048) |
| Trosglwyddo asedau a ddelir i'w gwerthu (gwerth y farchnad) | - | (970) | - | - | - | - | (970) |
| Gwarediadau | - | (1,988) | - | - | (4,703) | (2,104) | (8,795) |
| Ar 31 Mawrth 2010 | - | 11,778 | 4,229 | - | 52,454 | 28,053 | 96,514 |
| **Swm yn cario ar 31 Mawrth 2010** | 34,592 | 88,618 | 25,323 | 964 | 12,079 | 5,947 | 167,523 |

1 £0.089 miliwn (2009/10: £0.240 miliwn) wedi'i ddyrannu i asedau a gyllidir gan grant y llywodraeth.
2 £0.602 miliwn (2009/10: £1.177 miliwn) wedi'i ddyrannu i asedau a gyllidir gan grant y llywodraeth.
3 £2.091 miliwn o ddibrisiad sy'n gysylltiedig ag asedau e-drawsgludo.

Mae'r polisïau cyfrifyddu yn datgan mai polisi'r Gofrestrfa Tir yw prisio tir ac adeiladau rhydd-ddaliol a phrydlesol yn broffesiynol bob tair blynedd. Cynhaliwyd prisiad llawn ar 1 Ionawr 2011. Yn y blynyddoedd rhyngddynt mae'r ffigurau hyn yn cael eu diweddaru gan brisiad 'bwrdd gwaith'. Caiff prisiadau proffesiynol a phrisiadau 'bwrdd gwaith' eu darparu gan briswyr allanol, sef Asiantaeth y Swyddfa Brisio. Sail y prisiad oedd gwerth teg.

Swm net y prydlesi cyllid ar ddiwedd y flwyddyn oedd £3.23 miliwn (2009/10: £3.17 miliwn). Yn y flwyddyn roedd £0.176 miliwn o ddibrisiad a £0.231 miliwn o ailbrisiad yn gysylltiedig â'r asedau hyn.

Os yw gwerth eiddo yn disgyn yn is na'r gwerthoedd gwreiddiol, codir y diffygion (dros dro a pharhaol) ar y datganiad o incwm cynhwysfawr fel amhariad oni bai bod yr ased yn cael ei gario ar swm wedi'i ailbrisio, ac os felly caiff y golled amhariad ei thrin fel gostyngiad ailbrisio.

Cyhoeddodd y Gofrestrfa Tir ei bwriad i weithredu rhaglen o newid mawr, sef y Rhaglen Trawsnewid Cyflymedig (RhTC), ym mis Mawrth 2010, yn dilyn ymgynghoriad llawn yn Hydref 2009. Roedd y RhTC yn cynnwys cau tair swyddfa leol, sef Portsmouth, Tundbridge Wells a Stevenage rhwng Chwefror a Mehefin 2011, marchnata'r holl eiddo a gwerthu Swyddfa Tunbridge Wells am £10 miliwn yn ystod y flwyddyn ariannol. Roedd y RhTC hefyd yn cynnwys adleoli gwaith y Brif Swyddfa yng nghanol Llundain o Lincoln's Inn Fields i swyddfa leol Croydon erbyn Mawrth 2011 a gwerthu adeilad canol Llundain am £37.5 miliwn; adleoli staff Plymouth o Plumer House i Seaton Court a marchnata Plumer House.

### 8.3 Asedau anghyfredol wedi'u dosbarthu fel asedau a ddelir i'w gwerthu

Yn ystod y flwyddyn dechreuodd y Gofrestrfa Tir farchnata: St Andrew's Court, Portsmouth; Brickdale House, Stevenage; Tŷ Bryn Glas, Abertawe; Birkenhead House, Lytham; Plumer House, Plymouth; a Cumbyrla, storfa ffeiliau Trefansel, Abertawe. Mae'r adeiladau hyn wedi cael eu hailbrisio am werth teg llai costau i'w gwerthu ac wedi'u trosglwyddo i asedau wedi'u dosbarthu fel rhai a ddelir i'w gwerthu ac maent wedi'u dal ar y datganiad o sefyllfa ariannol am £21.111 miliwn. Wrth ailddosbarthu nid yw'r adeiladau hyn yn cael eu dibrisio mwyach. Roedd ailbrisio Plumer House i werth teg llai costau i'w werthu wedi creu amhariad o £2.5 miliwn, sydd wedi'i gynnwys yng nghostau ailstrwythuro ac ad-drefnu costau yn y datganiad o incwm cynhwysfawr.

## 9 Asedau anniriaethol

| **9.1 Cost** | Costau datblygu | E-drawsgludo ar waith | E-ddiogelwch | Porthol | Business Gateway | Trwyddedau meddalwedd | Cyfanswm |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 |
| Ar 1 Ebrill 2010 | **17,244** | **21,117** | **-** | **-** | **-** | **70,862** | **109,223** |
| Ychwanegiadau | **-** | **-** | **-** | **-** | **-** | **946** | **946** |
| Asedau wedi'u dwyn i'w defnyddio | **-** | **-** | **-** | **-** | **-** | **579** | **579** |
| Ailddosbarthu | **(10,812)** | **(16,612)** | **9,691** | **15,967** | **1,766** | **-** | **-** |
| Gwarediadau | **-** | **-** | **-** | **-** | **-** | **(52)** | **(52)** |
| Amhariad[1] | **(6,432)** | **(4,505)** | **-** | **-** | **-** | **(318)** | **(11,255)** |
| Ar 31 Mawrth 2011 | **-** | **-** | **9,691** | **15,967** | **1,766** | **72,017** | **99,441** |
| **Amorteiddio** | | | | | | | |
| Ar 1 Ebrill 2010 | **-** | **2,334** | **-** | **-** | **-** | **57,579** | **59,913** |
| Tâl am y flwyddyn[3] | **-** | **-** | **1,740** | **2,644** | **102** | **7,237** | **11,723** |
| Ailddosbarthu | **-** | **(2,334)** | **764** | **1,481** | **89** | **-** | **-** |
| Gwarediadau | **-** | **-** | **-** | **-** | **-** | **(27)** | **(27)** |
| Amhariad[1] | **-** | **-** | **-** | **-** | **-** | **(165)** | **(165)** |
| Ar 31 Mawrth 2011 | **-** | **-** | **2,504** | **4,125** | **191** | **64,624** | **71,444** |
| **Swm yn cario ar 31 Mawrth 2011** | **-** | **-** | **7,187** | **11,842** | **1,575** | **7,393** | **27,997** |

| **9.2 Cost** | (Ailddatganwyd) £'000 | (Ailddatganwyd) £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | (Ailddatganwyd) £'000 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Ar 1 Ebrill 2009 | 36,037 | - | - | - | - | 56,657 | 92,694 |
| Ychwanegiadau | 2,879 | - | - | - | - | 408 | 3,287 |
| Asedau wedi'u dwyn i'w defnyddio | (21,117) | 21,117 | - | - | - | 1,707 | 1,707 |
| Ailddosbarthu | - | - | - | - | - | 13,456 | 13,456 |
| Gwarediadau | - | - | - | - | - | (969) | (969) |
| Amhariad[2] | (555) | - | - | - | - | (397) | (952) |
| Ar 31 Mawrth 2010 | 17,244 | 21,117 | - | - | - | 70,862 | 109,223 |
| **Amorteiddio** | (Ailddatganwyd) £'000 | (Ailddatganwyd) £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | (Ailddatganwyd) £'000 |
| Ar 1 Ebrill 2009 | - | - | - | - | - | 39,564 | 39,564 |
| Tâl am y flwyddyn | - | 2,334 | - | - | - | 4,013 | 6,347 |
| Ailddosbarthu | - | - | - | - | - | 15,048 | 15,048 |
| Gwarediadau | - | - | - | - | - | (946) | (946) |
| Amhariad[2] | - | - | - | - | - | (100) | (100) |
| Ar 31 Mawrth 2010 | - | 2,334 | - | - | - | 57,579 | 59,913 |
| **Swm yn cario ar 31 Mawrth 2010** | 17,244 | 18,783 | - | - | - | 13,283 | 49,310 |

Roedd gwariant datblygu e-drawsgludo wedi codi er mwyn cynnig pedwar cynnyrch (e-arwystlon, e-ryddhadau, e-drosglwyddiadau ac e-ddogfennau) i'r farchnad eiddo. Nid yw rhai o'r cynhyrchion yn addas i nifer sylweddol yn y farchnad eu defnyddio ar hyn o bryd, ac felly cafwyd ychydig o amhariad o werth asedau e-drawsgludo. Fodd bynnag, wrth ddatblygu'r cynhyrchion, crëwyd y systemau sylfaenol, sef porthol y Gofrestrfa Tir, E-ddiogelwch a Business Gateway ac maent yn cael eu defnyddio ac yn gweithredu'n llwyddiannus, gan wneud gwasanaethau'r Gofrestrfa Tir yn fwy effeithlon a darparu platfform ar gyfer gwelliannau yn y dyfodol. Mae gwerth i'r Gofrestrfa Tir o'n gwariant datblygu yn cael ei gynrychioli'n well drwy

ei ailddosbarthu o sylfaen cynnyrch i ddangos y systemau TG a ddatblygwyd. Mae'r gwerthoedd ased ar gyfer y systemau TG yn cael eu dangos ar ôl i unrhyw amhariad gael ei ddileu, fel y manylir isod.

[1] Yn ystod y flwyddyn, oherwydd pryderon ynghylch cynnig llofnodi electronig ar gyfer trawsgludwyr a dinasyddion, ac ar ôl ymgynghori, penderfynwyd peidio â datblygu e-arwystlon ac e-drosglwyddiadau ymhellach. Mae'r gwariant a gafwyd wrth ddatblygu cynhyrchion, gan gynnwys e-arwystlon ac e-drosglwydddiadau, nad yw'n cael ei ddefnyddio mwyach gan borthol y Gofrestrfa Tir, E-ddiogelwch neu Business Gateway, wedi cael ei ddileu. Dechreuwyd defnyddio porthol y Gofrestrfa Tir ac E-ddiogelwch ar 1 Medi 2008 a Business Gateway ar 1 Mawrth 2010. Nid yw'r costau a gafwyd ar ôl i'r systemau ddechrau cael eu defnyddio, a gafodd eu cyfalafu, yn bodloni'r meini prawf mwyach i gael eu cydnabod fel gwariant datblygu, felly maent wedi cael eu dileu hefyd. Y cyfanswm a ddilëwyd oherwydd amhariad oedd £10.937 miliwn. Mae hyn yn cynnwys £6.432 miliwn o gostau datblygu oedd heb gael eu defnyddio eto, a hefyd £4.505 miliwn ar gyfer asedau e-drawsgludo a oedd eisoes yn weithredol (mae'r symiau hyn wedi cael eu cynnwys yng nghost y gwasanaeth yn y datganiadau o incwm cynhwysfawr).

Daeth porthol y Gofrestrfa Tir a systemau E-ddiogelwch yn weithredol yn gynharach na chynhyrchion e-drawsgludo. Mae'r cyfanswm amorteiddio o £4.486 miliwn a godwyd am y flwyddyn yn cynnwys dwy elfen: i) amorteiddio sy'n adlewyrchu defnyddio'r systemau yn ystod 2010/11 (£2.742 miliwn) a ii) swm yr amorteiddio 'dal i fyny' a fyddai wedi cael ei godi mewn cyfnodau cynharach o'r dyddiad y dechreuwyd defnyddio'r systemau (£1.744 miliwn). Cyfanswm effaith yr addasiadau hyn yn 2010/11, ac eithrio amorteiddio'r flwyddyn gyfredol, yw £12.681 miliwn.

Mae trwyddedau meddalwedd sy'n ymwneud ag E-ddiogelwch, sydd wedi cael eu cyfalafu, ond ni chânt eu defnyddio mwyach oherwydd y penderfyniad i beidio â datblygu e-drosgwlyddiadau, hefyd wedi cael eu hamharu. Manteision amharu'r asedau hyn yw symleiddio'r system E-ddiogelwch a lleihau costau cynnal a chadw yn y dyfodol.

[2] Mae camgymeriad mewn cyfnod blaenorol wedi cael ei nodi lle roedd costau rheoli o flynyddoedd blaenorol, wedi'u dosbarthu'n anghywir fel gwariant datblygu, wedi cael eu cyfalafu. Er mwyn dangos y sefyllfa gywir, mae'r newidiadau canlynol wedi cael eu gwneud: mae swm y costau datblygu ar 1 Ebrill 2009 wedi cael ei leihau gan £3.229 miliwn; mae ychwanegiadau at gostau datblygu yn 2009/10 wedi cael eu lleihau gan £0.761 miliwn; ac mae'r tâl amorteiddio cysylltiedig am y flwyddyn yn 2009/10 ar gyfer e-drawsgludo gweithredol wedi cael ei leihau gan £0.158 miliwn. Yr effaith ar y datganiad o incwm cynhwysfawr yw cynnydd yn y ffigur cost gwasanaeth o £0.761 miliwn a lleihad mewn amorteiddio ar gyfer e-drawsgludo gweithredol o £0.158 miliwn. Nid oedd unrhyw gostau rheoli wedi'u cyfalafu'n anghywir yn ystod 2010/11. Felly yr effaith net ar y datganiad o sefyllfa ariannol yw lleihad cronnol mewn asedau net o £3.832 miliwn ar 1 Ebrill 2010.

[3] Mae'r taliadau amorteiddio ar gyfer porthol y Gofrestrfa Tir, E-ddiogelwch a Business Gateway, sef cyfanswm o £4.486 miliwn, wedi'u datgelu ar wyneb y datganiad o incwm cynhwysfawr, ynghyd â £2.091 miliwn o ddibrisiad wedi'i godi ar gyfer asedau e-drawslgudo y cyfeirir ato yn nodyn 8, troednodyn 3. Cyfanswm gwerth amorteiddio a dibrisiad a ddangosir ar wyneb y datganiad o incwm cynhwysfawr sy'n ymwneud ag e-drawsgludo yw £6.577 miliwn. Mae'r datganiad o newidiadau i gronfeydd wrth gefn yn datgelu ailddatganiad gweddill wrth agor 2009/10.

Mae'r datganiad o newidiadau i gronfeydd wrth gefn yn datgelu ailddatganiad gweddill wrth agor 2009/10.

## 10 Stocrestrau

| | **2011** | 2010 |
|---|---|---|
| | **£'000** | £'000 |
| Gwaith ar y gweill | **1,215** | 823 |
| | **1,215** | 823 |

## 11 Masnach a symiau eraill i'w derbyn

### 11.1 Cyfredol

| | **2011** | 2010 |
|---|---|---|
| | **£'000** | £'000 |
| Masnach i'w dderbyn | **2,744** | 8,608 |
| Symiau eraill i'w derbyn | **2,229** | 1,578 |
| Rhagdaliadau ac incwm cronnus | **3,801** | 4,867 |
| | **8,774** | 15,053 |

Y cyfnod credyd a gymerir ar gyfartaledd ar gyfer darparu gwasanaethau yw chwe diwrnod. Ni chodir unrhyw log ar y symiau i'w derbyn. Rhoddwyd lwfans ar gyfer symiau amcangyfrifedig nad oes modd eu hadennill o ddarparu gwasanaethau ac mae'r lwfans hwn wedi'i bennu drwy gyfeirio at brofiad diffygdalu yn y gorffennol. Bernir bod swm y fasnach a symiau eraill i'w derbyn yn frasamcan o'u gwerth teg.

### 11.2 Anghyfredol

| | 2011<br>£'000 | 2010<br>£'000 |
|---|---|---|
| Symiau eraill i'w derbyn | **597** | 735 |
| Rhagdaliadau | **1,567** | 238 |
| | **2,164** | 973 |

## 12 Arian yn y banc ac mewn llaw

| | 2011<br>£'000 | 2010<br>£'000 |
|---|---|---|
| Gwasanaeth Bancio'r Llywodraeth | **217,336** | 205,096 |
| Banciau masnachol ac arian mewn llaw | **34,799** | 32,229 |
| Cronfa Benthyciadau Cenedlaethol | **47,500** | - |
| Cyfanswm | **299,635** | 237,325 |

Mae'r Gofrestrfa Tir yn dal adneuon cwsmeriaid fel rhan o'r cyfleuster taliadau cyfrif credyd. Ar ddiwedd y flwyddyn roedd 18 o gyfrifon (2009/10: 19) ac roedd cyfanswm o £0.15 miliwn (2009/10: £0.31 miliwn) yn cael ei ddal yng nghyfrif banc y Gofrestrfa Tir. Ni ddangosir adneuon cwsmeriaid ar y fantolen oherwydd eu bod yn cyfeirio at arian trydydd parti (gweler nodyn 20.2).

Asedau ariannol y Gofrestrfa Tir yw gweddillion banc ac arian a masnach a symiau eraill sy'n dderbyniadwy, sy'n cynrychioli'r uchafswm risg credyd mewn perthynas ag asedau ariannol. Mae'r risg credyd hwn i'w briodoli'n bennaf i fasnach a symiau eraill sy'n dderbyniadwy ac mae wedi'i ledaenu dros nifer fawr o gwsmeriaid. Mae'r symiau a gyflwynir ar y fantolen yn glir o lwfansau ar gyfer symiau sy'n dderbyniadwy amheus, wedi'u hamcangyfrif drwy reolaeth yn seiliedig ar gyn-brofiadau ac asesiad o'r hinsawdd economaidd sydd ohoni. Mae'r risg credyd ar gronfeydd hylif wedi'i gyfyngu oherwydd mae gweddillion banc y Gofrestrfa Tir yn cael eu dal gyda Gwasanaeth Bancio'r Llywodraeth yn bennaf.

## 13 Masnach a symiau eraill i'w talu

### 13.1 Cyfredol

| | 2011<br>£'000 | 2010<br>£'000 |
|---|---|---|
| Masnach i'w dalu | **1,499** | 1,921 |
| Treth a nawdd cymdeithasol | **3,401** | 3,642 |
| Symiau eraill i'w talu | **2,632** | 3,054 |
| Croniadau | **15,824** | 14,544 |
| Rhwymedigaethau net o dan brydlesi cyllid | **254** | 232 |
| Rhwymedigaethau prydles cyllid PFI | **1,695** | 1,367 |
| Incwm gohiriedig - ffioedd a dderbyniwyd ymlaen llaw | **5,012** | 5,093 |
| Difidend i'w dalu | **14,006** | 15,279 |
| | **44,323** | 45,132 |

Mae masnach a symiau eraill i'w talu yn cynnwys symiau sydd i'w talu ar gyfer prynu eitemau masnach a chostau parhaus yn bennaf. Y cyfnod credyd a gymerir ar gyfartaledd ar gyfer eitemau masnach a brynwyd yw 7.4 diwrnod. (Newidiodd y targed perfformiad talu o 10 i bum diwrnod gwaith yn Awst 2010.) Bernir bod swm yr eitemau masnach i'w talu sy'n cario yn frasamcan o'u gwerth teg.

### 13.2 Anghyfredol

| | **2011** | 2010 |
|---|---|---|
| | **£'000** | £'000 |
| Rhwymedigaethau net o dan brydlesi cyllid | **5,282** | 5,536 |
| Rhwymedigaethau prydles cyllid PFI | **1,775** | 714 |
| | **7,057** | 6,250 |

## 14 Gweddillion rhynglywodraethol

### 14.1 Symiau i'w derbyn

| | Cyfredol | | Anghyfredol | |
|---|---|---|---|---|
| | **2011** | 2010 | **2011** | 2010 |
| Gweddillion gyda: | **£'000** | £'000 | **£'000** | £'000 |
| Cyrff llywodraeth ganol eraill | **2,866** | 2,104 | **-** | - |
| Awdurdodau lleol | **30** | 849 | **-** | - |
| Gweddillion rhynglywodraethol | **2,896** | 2,953 | **-** | - |
| Gweddillion gyda chyrff allanol i'r llywodraeth | **5,878** | 12,100 | **2,164** | 973 |
| **Cyfanswm symiau i'w derbyn** | **8,774** | 15,053 | **2,164** | 973 |

### 14.2 Symiau i'w talu

| | Cyfredol | | Anghyfredol | |
|---|---|---|---|---|
| | **2011** | 2010 | **2011** | 2010 |
| Gweddillion gyda: | **£'000** | £'000 | **£'000** | £'000 |
| Cyrff llywodraeth ganol eraill | **21,361** | 22,705 | **-** | - |
| Awdurdodau lleol | **109** | 472 | **-** | - |
| Gweddillion rhynglywodraethol | **21,470** | 23,177 | **-** | - |
| Gweddillion gyda chyrff allanol i'r llywodraeth | **22,853** | 21,955 | **7,057** | 6,250 |
| **Cyfanswm symiau i'w talu** | **44,323** | 45,132 | **7,057** | 6,250 |

## 15 Ymrwymiadau o dan brydlesi

### 15.1 Prydlesi cyllid

| | Isafswm taliadau prydles | | Gwerth presennol isafswm taliadau prydles | |
|---|---|---|---|---|
| | **2011** | 2010 | **2011** | 2010 |
| | **£'000** | £'000 | **£'000** | £'000 |
| Symiau i'w talu o dan brydlesi cyllid | | | | |
| Cyn pen blwyddyn | **2,794** | 2,358 | **1,949** | 1,599 |
| Yn yr ail i'r bumed flwyddyn | **5,416** | 4,542 | **2,816** | 1,887 |
| Ar ôl pum mlynedd | **9,165** | 9,870 | **4,241** | 4,363 |
| | **17,375** | 16,770 | **9,006** | 7,849 |
| Llai: taliadau cyllid yn y dyfodol | **(8,369)** | (8,921) | | |
| Gwerth presennol ymrwymiadau prydles | **9,006** | 7,849 | | |
| Llai: swm i'w dalu ar gyfer y taliad llawn o fewn 12 mis (wedi'i ddangos o dan rwymedigaethau cyfredol) | | | **(1,949)** | (1,599) |
| Swm i'w dalu ar gyfer y taliad llawn ar ôl 12 mis | | | **7,057** | 6,250 |

### 15.2 Prydlesi gweithredu

| | **2011** | 2010 |
|---|---|---|
| | | (Ailddatganwyd) |
| | **£'000** | £'000 |
| Isafswm taliadau prydles o dan brydlesi gweithredu wedi'u cydnabod yn y flwyddyn | **3,046** | 4,438 |
| Incwm gan denantiaid | **(481)** | (919) |
| | **2,565** | 3,519 |

Ar ddyddiad y fantolen roedd gan y Gofrestrfa Tir ymrwymiadau dyledus ar gyfer isafswm taliadau prydles yn y dyfodol o dan brydlesi gweithredu nad oes modd eu canslo, sydd i'w talu fel a ganlyn:

| | **2011** | 2010 |
|---|---|---|
| | **£'000** | £'000 |
| Cyn pen blwyddyn | **181** | 111 |
| Yn yr ail i'r bumed flwyddyn | **2,504** | 1,997 |
| Ar ôl pum mlynedd | **47** | 938 |
| Incwm sy'n daladwy gan denantiaid | **(401)** | (481) |
| | **2,331** | 2,565 |

Mae taliadau prydles gweithredu yn cynrychioli rhenti sy'n daladwy gan y Gofrestrfa Tir ar gyfer tir ac adeiladau.

## 16 Benthyciadau

Nid oedd gan y Gofrestrfa Tir unrhyw fenthyciadau yn ystod y flwyddyn ariannol yn dod i ben 31 Mawrth 2011.

## 17 Darpariaethau ar gyfer rhwymedigaethau a thaliadau

| | Ymddeoliad cynnar | Diswyddo cynnar | Eiddo | Cyfanswm | |
|---|---|---|---|---|---|
| | **2011** | | | | 2010 |
| | **£'000** | **£'000** | **£'000** | **£'000** | £'000 |
| Ar 1 Ebrill 2010 | **20,978** | **552** | **1,541** | **23,071** | 45,361 |
| Darparwyd yn y flwyddyn | **30,606** | **10,504** | **8** | **41,118** | 7,477 |
| Darpariaethau a ddefnyddiwyd yn y flwyddyn | **(5,148)** | **(537)** | **(1,383)** | **(7,068)** | (29,767) |
| **Ar 31 Mawrth 2011** | **46,436** | **10,519** | **166** | **57,121** | 23,071 |
| **Wedi'i gynnwys yn rhwymedigaethau cyfredol** | | | | **24,923** | 7,338 |
| **Wedi'i gynnwys yn rhwymedigaethau anghyfredol** | | | | **32,198** | 15,733 |
| | | | | **57,121** | 23,071 |

Mae'r ddarpariaeth ymddeoliad cynnar (DYC) yn rhoi buddion ymddeol i rai gweithwyr. Mae'r buddion hyn yn cydymffurfio â rheolau Prif Gynllun Pensiwn y Gwasanaeth Sifil (PGPGS). Mae'r Gofrestrfa Tir yn talu cost y buddion hyn tan oedran ymddeol arferol y gweithwyr sy'n ymddeol o dan y cynllun. Cyfanswm taliadau yn y flwyddyn oedd £44.8 miliwn yn 2010/11, a darparwyd ar gyfer £5.7 miliwn ohono o fewn y DYC yng nghyfrifon 2009/10. Codir cyfanswm y rhwymedigaeth bensiwn hyd at oedran ymddeol arferol mewn perthynas â phob gweithiwr ar y datganiad o incwm cynhwysfawr yn y flwyddyn pan fydd y gweithiwr yn ymddeol yn gynnar, ac mae darpariaeth ar gyfer taliadau pensiwn yn y dyfodol yn cael ei chreu. Yna mae taliadau pensiwn a buddion cysylltiedig i'r gweithiwr sydd wedi ymddeol tan yr oedran ymddeol arferol yn cael eu codi bob blwyddyn yn erbyn y ddarpariaeth.

Sefydlwyd y ddarpariaeth diswyddo cynnar i ddarparu ar gyfer cost yr aelodau o staff hynny a fydd yn gadael y Gofrestrfa Tir yn y dyfodol, ond sydd wedi gwneud ymrwymiad pendant i fanteisio ar y cynnig o ddiswyddo cynnar yn 2010/11.

Mae Safon Cyfrifyddu Rhyngwladol 37 *Darpariaethau, rhwymedigaethau wrth gefn ac asedau wrth gefn* yn datgan: "Os yw gwerth amser yr arian o bwys, dylai swm y ddarpariaeth gynrychioli gwerth presennol y gwariant y disgwylir y bydd yn ofynnol er mwyn bodloni'r rhwymedigaeth."

Y ffactor disgownt a gymhwyswyd i'r ddarpariaeth ymddeoliad cynnar dros 10 mlynedd yw 2.9 y cant. Effaith dad-ddirwyn y disgownt yn 2010/11 oedd £4.8 miliwn (2009/10: £1.6 miliwn).

## 18 Ymrwymiadau cyfalaf

| | 2011 | 2010 |
|---|---|---|
| | **£'000** | £'000 |
| **Gwariant cyfalaf** | | |
| Wedi contractio ar ei gyfer ond heb ei ddarparu yn y cyfrifon hyn. | **850** | 738 |

## 19 Rhwymedigaethau wrth gefn

Mae Deddf Cofrestru Tir 2002 yn rhoi rhwymedigaeth gyfreithiol ar y Gofrestrfa Tir i indemnio ar gyfer colledion sy'n deillio o gamgymeriadau neu hepgoriadau ar y gofrestr teitl. Mae hyn yn cynnwys camgymeriadau sy'n deillio o dwyll gan drydydd partïon. Fel yswiriwr statudol teitlau yng Nghymru a Lloegr, ni chyfyngir taliadau indemniad i gamgymeriadau gan y Gofrestrfa Tir. Roedd yr holl hawliadau sy'n aros o dan y rhwymedigaeth hon fel y dangosir isod waeth a yw hawliad yn debygol o fod yn llwyddiannus neu beidio (gweler hefyd nodyn 1.16 ar dudalen 46).

| | **2011** | 2010 (Ailddatganwyd) |
|---|---|---|
| | **£'000** | £'000 |
| Mewn perthynas â chofnodion ar y gofrestr | **9,775** | 9,209 |
| Twyll a ffugio | **57,616** | 22,410 |
| | **67,391** | 31,619 |

## 20 Nodiadau ar y datganiad llif arian

### 20.1 Cysoni gwarged gweithredu i'r llif arian net i mewn/(allan) o weithgareddau gweithredu

| | **2011** | 2010 (Ailddatganwyd) |
|---|---|---|
| | **£'000** | £'000 |
| Gwarged gweithredu | **65,369** | 19,462 |
| Costau ailstrwythuro ac ad-drefnu | **(85,341)** | (34,609) |
| Dibrisio eiddo, cyfarpar ac offer | **11,083** | 18,818 |
| Amorteiddio asedau anniriaethol | **6,930** | 4,013 |
| Amhariad yng ngwerth asedau anghyfredol | **344** | 3,710 |
| Amhariad yng ngwerth asedau anniriaethol | **11,091** | 852 |
| Cynnydd/(gostyngiad) mewn darpariaethau | **34,050** | (22,290) |
| (Cynnydd)/gostyngiad mewn stocrestrau | **(392)** | 321 |
| Gostyngiad mewn symiau i'w derbyn | **5,146** | 1,806 |
| Cynnydd/(gostyngiad) mewn symiau i'w talu | **4,138** | (5,940) |
| Gostyngiad yn y Gronfa Indemniad | **(1,200)** | - |
| Arian net i mewn/(allan) o weithgareddau gweithredu | **51,218** | (13,857) |

### 20.2 Cysoni'r llif arian net â'r symudiad mewn arian net

| | **2011** | | 2010 | |
|---|---|---|---|---|
| | **£'000** | **£'000** | £'000 | £'000 |
| | **Cronfeydd y Gofrestrfa Tir** | **Adneuon cwsmeriaid** | Cronfeydd y Gofrestrfa Tir | Adneuon cwsmeriaid |
| Arian net ar ddechrau'r cyfnod | **237,325** | **314** | 280,329 | 933 |
| Cynnydd/(gostyngiad) mewn arian yn y cyfnod | **62,310** | **(167)** | (43,004) | (619) |
| Arian net ar ddiwedd y cyfnod | **299,635** | **147** | 237,325 | 314 |

Mae'r Gofrestrfa Tir yn dal adneuon cwsmeriaid fel rhan o'r cyfleuster taliadau cyfrif credyd. Ar ddiwedd y flwyddyn roedd 18 o gyfrifon (2009/10: 19) ac roedd cyfanswm o £0.15 miliwn (2009/10: £0.31 miliwn) yn cael ei ddal yng nghyfrif banc y Gofrestrfa Tir.

Ni ddangosir adneuon cwsmeriaid ar y fantolen oherwydd eu bod yn cyfeirio at arian trydydd parti.

## 21 Datgeliadau partïon cysylltiedig

Yn unol ag IAS 24 *Datgeliadau partïon cysylltiedig,* fel y'i dehonglwyd gan FReM, mae'r wybodaeth ganlynol yn cael ei darparu ar drafodion partïon cysylltiedig.

Mae'r Gofrestrfa Tir yn asiantaeth weithredol, yn gronfa fasnachu ac yn adran o'r llywodraeth. Yn ystod y flwyddyn, cafodd nifer o drafodion o bwys ag adrannau eraill o'r llywodraeth a chyrff llywodraeth ganol eraill. Roedd y rhan fwyaf o'r trafodion hyn gyda'r Arolwg Ordnans a'r Adran Cymunedau a Llywodraeth Leol.

Nid yw unrhyw aelodau o'r bwrdd, aelodau o'r prif staff rheoli neu bartïon cysylltiedig eraill wedi ymgymryd ag unrhyw drafodion o bwys â'r Gofrestrfa Tir.

## 22 Partneriaethau cyhoeddus-preifat

Dyfarnwyd contract ym mis Gorffennaf 2009 i Steria am gyfnod o bum mlynedd (gyda'r dewis o'i estyn am ddwy flynedd bellach) o dan drefniadau partneriaeth cyhoeddus-preifat. Gofynnir i Steria ddylunio, gweithredu a rheoli'r seilwaith TG ar gyfer systemau cofrestru'r Gofrestrfa Tir. Bydd y seilwaith yn cefnogi'r Gofrestrfa Tir wrth iddi symud tuag at integreiddio ei chofrestri, cynlluniau teitl a gweithredoedd ategol cyfrifiadurol. Mae'r driniaeth gyfrifyddol yn cydymffurfio â *Chytundebau consesiwn gwasanaeth* 12 y Pwyllgor Dehongliadau Adrodd Ariannol Rhyngwladol (IFRIC), fel y'i diwygiwyd gan FReM, gan ddyrannu costau contract rhwng y datganiad o sefyllfa ariannol a'r datganiad incwm.

Mae Steria yn darparu gwasanaeth wedi'i reoli a chyflawnir hyn gyda thîm ar y safle sy'n gweithio mewn partneriaeth â gweinyddwyr system lleol y Gofrestrfa Tir. Er mwyn manteisio i'r eithaf ar asedau TG y Gofrestrfa Tir, erbyn hyn mae cyfrifiaduron personol, gweinyddwyr a bothau sy'n gydnaws â'r gwasanaeth wedi'i reoli yn cael eu cynnal gan Steria ar ran y Gofrestrfa Tir.

Ar gyfer 2010/11 codwyd £8.26 miliwn (2009/10 naw mis: £5.28 miliwn) o dan gontract Steria ar y datganiad o incwm cynhwysfawr.

Mae taliadau yn y dyfodol a ymrwymwyd o dan gontract Steria i'w gweld isod.

| | £'000 |
|---|---|
| Cyn pen blwyddyn | 8,890 |
| Yn yr ail i'r bumed flwyddyn | 19,311 |
| Ar ôl pum mlynedd | - |
| | 28,201 |

Oherwydd yr hyblygrwydd sy'n rhan o'r contract, amcangyfrifon yw'r ffigurau hyn a gallant newid yn ôl cynlluniau trawsnewid y Gofrestrfa Tir.

## 23 Targedau ariannol corfforaethol

| | **2011** | | 2010 | |
|---|---|---|---|---|
| | **Gwirioneddol** | **Targed** | Gwirioneddol | Targed |
| | **%** | **%** | % | % |
| Canran yr enillion ar gyfalaf cyfartalog a ddefnyddiwyd | **16.4** | **3.5** | 3.0 | 3.5 |

O dan ganllawiau'r Gronfa Fasnachu a gyhoeddwyd gan y Trysorlys mae egwyddor o 'gymryd un flwyddyn gyda'r llall' lle mae'r enillion ar gyfalaf cyfartalog a ddefnyddiwyd yn cael eu nodi dros gyfnod o bum mlynedd. Am y cyfnod o bum mlynedd yn dechrau 1 Ebrill 2006 i 31 Mawrth 2011 yr enillion ar gyfalaf cyfartalog a ddefnyddiwyd yw 8.9 y cant (2009/10: 7.7 y cant).

## 24 Offerynnau ariannol

Mae Safon Adrodd Ariannol Ryngwladol 7 *Offerynnau ariannol: datgeliadau* yn ei gwneud hi'n ofynnol i ddatgelu'r rôl y mae offerynnau ariannol wedi'u chwarae yn ystod y cyfnod o ran creu neu newid y risgiau a wyneba endid wrth ymgymryd â'i weithgareddau.

Nid oes gan y Gofrestrfa Tir unrhyw fenthyciadau ac mae'n dibynnu'n bennaf ar incwm o weithgareddau statudol ac felly nid yw'n agored i risgiau hylifedd. Mae adneuon pwysig yn cael eu dal gyda Gwasanaeth Bancio'r Llywodraeth a'r Gronfa Benthyciadau Cenedlaethol.

Mae'r holl asedau a rhwymedigaethau pwysig wedi'u nodi mewn sterling felly nid yw'r Gofrestrfa Tir yn agored i risg cyfradd llog neu risg arian gyfred.

## 25 Digwyddiadau ar ôl y cyfnod adrodd

Yn unol â gofynion Safon Adrodd Ryngwladol 10 *Digwyddiadau ar ôl y cyfnod adrodd*, mae digwyddiadau ar ôl dyddiad y datganiad o sefyllfa ariannol yn cael eu hystyried hyd at y dyddiad y mae'r cyfrifon wedi'u hawdurdodi i'w cyhoeddi arno. Mae hyn yn cael ei ddehongli fel dyddiad y dystysgrif ac adroddiad y Rheolwr ac Archwilydd Cyffredinol.

### Digwyddiad nad yw'n addasu ar ôl y cyfnod adrodd

Ar 28 Ebrill 2011 cwblhawyd y broses o werthu Swyddfa Abertawe Tŷ Bryn Glas am £3 miliwn. Ar ddiwedd y flwyddyn roedd yr adeilad wedi'i gadw ar y datganiad o sefyllfa ariannol o fewn asedau a ddelir i'w gwerthu am werthoedd marchnad o £2.956 miliwn. O ganlyniad i werthu'r adeilad hwn gwnaethpwyd elw ar waredu o £2.703 miliwn, sy'n cynnwys rhyddhad ailbrisiad wrth gefn o £2.658 miliwn ac enillion ar waredu o £0.045 miliwn. Mae gwaredu'r asedau cysylltiedig o ganlyniad i werthu'r adeilad hwn wedi cynhyrchu colled o £0.132 miliwn. Effaith net gwerthu'r adeilad ar y datganiad o incwm cynhwysfawr yng nghyfrifon 2011/12 fydd elw ar waredu o £2.571 miliwn.

# Cofnod y Trysorlys dyddiedig 15 Rhagfyr 2003

1 Mae Adran 4(1) o Ddeddf Cronfeydd Masnachu'r Llywodraeth 1973 ("Deddf 1973") yn darparu y bydd cronfa fasnachu a sefydlwyd o dan y Ddeddf honno yn dod o dan reolaeth y Gweinidog cyfrifol (neu, os caiff cronfa fasnachu ei sefydlu ar gyfer gweithrediadau a gyflawnir gan y sawl a benodir yn unol ag unrhyw ymddeddfiad, yr unigolyn hwnnw, os yw'r Gorchymyn sy'n sefydlu'r gronfa fasnachu yn darparu felly yn unol ag adran 1(6)(a) o Ddeddf 1973); ac wrth iddo gyflawni ei swyddogaeth mewn perthynas â'r gronfa bydd yn ddyletswydd arno i:

(a) rheoli'r gweithrediadau a gyllidir fel bod refeniw'r gronfa:

(i) yn cynnwys yn bennaf dderbyniadau am nwyddau neu wasanaethau a ddarparwyd yn ystod y gweithrediadau a gyllidir; a

(ii) heb fod yn llai na digonol, o gymryd un flwyddyn gyda'r llall, i dalu'r treuliau sydd i'w codi'n briodol ar y cyfrif refeniw; a

(b) cyflawni amcanion ariannol pellach y gall y Trysorlys, o bryd i'w gilydd, drwy gofnod a roddir gerbron Tŷ'r Cyffredin, ddatgan eu bod wedi'u pennu gan y Gweinidog cyfrifol (gyda chydsyniad y Trysorlys) fel rhai y byddai'n ddymunol eu cyflawni.

2 Sefydlwyd cronfa fasnachu ar gyfer Cofrestrfa Tir EM ar 1 Ebrill 1993 o dan Orchymyn Cronfa Fasnachu'r Gofrestrfa Tir 1993 (SI 1993 Rhif 938). Mae Erthygl 3(2) o'r Gorchymyn hwnnw yn darparu y bydd y gronfa fasnachu yn dod o dan reolaeth y Prif Gofrestrydd Tir. Dyrannwyd asedau ychwanegol i'r gronfa fasnachu ar 11 Mawrth 1996 o dan Orchymyn Cronfa Fasnachu'r Gofrestrfa Tir (Asedau Ychwanegol) 1996 (SI 1996 Rhif 750). Ar 13 Hydref 2003, cafodd y gronfa fasnachu ei hehangu a'i diwygio o dan Orchymyn Cronfa Fasnachu'r Gofrestrfa Tir (Estyniad a Diwygiad) 2003 (SI 2003 Rhif 2094).

3 Mae Ysgrifennydd Gwladol y Weinyddiaeth Gyfiawnder a'r Arglwydd Ganghellor, sef y Gweinidog cyfrifol at ddiben adran 4(1)(b) o Ddeddf 1973, wedi penderfynu (gyda chydsyniad y Trysorlys) mai amcan ariannol pellach y byddai'n ddymunol i Gofrestrfa Tir EM ei gyflawni yn ystod y cyfnod 1 Ebrill 2006 i 31 Mawrth 2011 fydd sicrhau enillion, wedi'u cyfartalu dros y cyfnod cyfan, o isafswm o 3.5 y cant ar ffurf gwarged ar weithgareddau cyffredin cyn llog (i'w talu ac i'w derbyn) a difidendau wedi'u mynegi fel canran o'r cyfalaf cyfartalog a ddefnyddiwyd. Bydd y cyfalaf a ddefnyddiwyd yn cyfateb â'r cyfanswm asedau y bydd y cyfanswm rhwymedigaethau yn cael ei ddidynnu ohono.

4 Mae'r Cofnod hwn yn disodli'r un dyddiedig 1 Ebrill 1993.

5 Bydd copi o'r Cofnod hwn yn cael ei roi gerbron Tŷ'r Cyffredin yn unol ag adran 4(1)(b) o Ddeddf Cronfeydd Masnachu'r Llywodraeth 1973.

# Atodiadau 2010/11

# Atodiad 1
# Ein perfformiad 2010/11

Bob blwyddyn bydd yr Arglwydd Ganghellor ac Ysgrifennydd Gwladol yn gosod targedau perfformiad i'r Gofrestrfa Tir er mwyn sicrhau bod ein cwsmeriaid yn parhau i gael gwasanaeth cofrestru tir rhagorol. Mae cynnydd tuag at gyflawni'r targedau hyn yn cael ei fonitro drwy'r flwyddyn, a chyhoeddir gwybodaeth am berfformiad mewn gwahanol fformatau yn rheolaidd. Mae ein perfformiad yn erbyn ein targedau ar gyfer 2010/11 fel a ganlyn.

| **(DPA = dangosydd perfformiad allweddol)** | | **Targed 2010/11** | **Cyflawnwyd 2010/11** |
|---|---|---|---|
| **Cofrestru** | | | |
| A1: Cyflymder (DPA) | Canran yr holl gofrestriadau wedi'u prosesu cyn pen 15 diwrnod gwaith | 80% | 89.81% |
| A2: Ansawdd (DPA) | Canran y cofrestriadau wedi'u cwblhau sy'n bodloni safonau ansawdd mewnol mewn meysydd allweddol penodol[1] | 97% | 92.9% |
| A3: Cywirdeb (DPA) | Canran y cofrestriadau wedi'u prosesu heb unrhyw gamgymeriadau | 98.5% | 99.10% |
| **Cofrestr Tir Gynhwysfawr** | | | |
| B1 (DPA) | Drwy gofrestriadau gwirfoddol, ychwanegu 250,000 o hectarau o dir at gyfanswm arwynebedd y tir rhydd-ddaliol cofrestredig yng Nghymru a Lloegr | 250,000 o hectarau erbyn 31/03/2011 | 294,113 o hectarau |
| **Deddfwriaeth** | | | |
| C1 | Ennill Lefel 1 Model Aeddfedrwydd Sicrwydd Gwybodaeth Llywodraeth Ei Mawrhydi | 30/06/2010 | Cyflawnwyd |
| C2 | Cwblhau ymgynghoriad ffurfiol ar gynigion ar gyfer e-warediadau, gan gynnwys yr adroddiad ymgynghori | 31/12/2010 | Cynigion ar gyfer ymgynghori ar e-warediadau wedi'u cwblhau a'r Bwrdd wedi gwneud penderfyniad ar y ffordd ymlaen |
| **Datblygu gwasanaeth cwsmeriaid** | | | |
| D1 (DPA) | Canran y cwsmeriaid sy'n graddio gwasanaeth cyffredinol y Gofrestrfa Tir yn ardderchog, da iawn neu dda | Yn well na 95% | 92% |
| D2 | Parhau i gyflwyno a datblygu timau cwsmeriaid | Lleiafswm o 12 tîm arall erbyn 31/03/2011 | 92 tîm |
| **Darparu gwasanaeth electronig** | | | |
| E1 (DPA) | Cynyddu canran y trafodion sy'n cael eu cwblhau drwy e-sianeli | 65% | 65.28% |
| E2 | Cynnig ateb e-anfon sy'n darparu e-ymateb ar gyfer yr holl e-drafodion ac eithrio ceisiadau Pridiannau Tir a cheisiadau copi swyddogol y Gofrestrfa Tir lle nad yw'r dogfennau'n cael eu cadw'n electronig | 30/09/2010 | Roedd gallu e-anfon ar gael i gwsmeriaid ei ddefnyddio ar 12 Medi 2010 |

| | | **Targed 2010/11** | **Cyflawnwyd 2010/11** |
|---|---|---|---|
| E3 | Cwblhau'r gofynion manwl a'r cam cynllunio system ar gyfer e-drosglwyddiadau | 31/12/2010 | Gwaith ar e-drosglwyddiadau wedi'i atal tra'n aros am adolygiad o gostau datblygu |
| E4 | Argaeledd e-sianel allanol | 99.25% | 99.19% |
| **Pobl a phrosesau** | | | |
| F1 (DPA) | Canran yr enillion ar gyfalaf cyfartalog a ddefnyddiwyd | 3.5% | 16.4% |
| F2 (DPA) | Cost yr uned mewn termau arian parod[2] *(termau gwirioneddol)*[3] | £33.95 *(£21.70)* | £30.64 *(£19.58)* |
| F3 | Lleihad o 10% mewn absenoldeb salwch cyfartalog y person (diwrnodau) | 7.7 diwrnod | 8.1 diwrnod |
| **Systemau Gwybodaeth** | | | |
| *Darparu gwasanaeth* | | | |
| G1: Dibynadwyedd | Argaeledd gwasanaethau[4] | O leiaf 99% | 99.8% |
| G2: Cyflymder datrys digwyddiadau | Amser a gymerwyd i ddatrys digwyddiadau effaith 1[5] | Amser cymedrig datrys o 2 awr 30 munud | 1 awr 43 munud |
| *Rheoli desg gwasanaeth* | | | |
| G3: Effeithlonrwydd rheoli digwyddiadau | Digwyddiadau wedi'u datrys yn y man cyswllt cyntaf | O leiaf 60% | 66% |
| G4: Effeithlonrwydd ymateb y gwasanaeth | (a) Nifer y galwadau y dydd ar gyfartaledd sy'n cael eu gadael[6] | Llai na 10% | 6.7% |
| | (b) Amserau aros galwadau | Llai na 15 eiliad | 26 eiliad |
| *Datblygu cynnyrch* | | | |
| G5: Ansawdd rhyddhau meddalwedd | Canran y namau meddalwedd a nodwyd cyn cyrraedd systemau cynhyrchu: | | |
| | (a) systemau wynebu allanol | 95% | 96.2% |
| | (b) cyfunol (systemau mewnol ac allanol) | 93.5% | 96.1% |
| **Ystad** | | | |
| H1: Effeithlonrwydd ynni | Gostyngiad mewn kWh y metr sgwâr (defnydd cyfunol o nwy a thrydan) | Gwelliant o 15% erbyn 2010, o'i gymharu â lefelau 1999/2000 | 37% |
| H2: Allyriadau carbon (swyddfa) | Gostyngiad mewn allyriadau carbon o swyddfeydd | Gostyngiad o 12.5% erbyn 2010/11, o'i gymharu â lefelau 1999/2000 | 36.5% |

| | | **Targed 2010/11** | **Cyflawnwyd 2010/11** |
|---|---|---|---|
| H3: Defnyddio dŵr | Gostyngiad mewn defnyddio dŵr ar ystad swyddfeydd ac eraill | Gostyngiad o 25% erbyn 2020, o'i gymharu â lefelau 2004/5 | 31.9% |
| H4: Ailgylchu gwastraff | Cynnydd yn swm y gwastraff sy'n cael ei ailgylchu | 40% o wastraff sy'n codi erbyn 2010 | 72% |
| H5: Allyriadau carbon (cerbydau) | Gostyngiad mewn allyriadau carbon o gerbydau ffordd | Gostyngiad o 15% erbyn 2010/11, o'i gymharu â lefelau 2005/6 | 17.2% |
| **Datblygiad sefydliadol** | | | |
| I1 (DPA) | Cyrraedd y cerrig milltir RhTC allweddol fel y manylir yn y cynllun RhTC | 31/03/2011 | Cerrig milltir wedi'u cyrraedd |
| I2 (DPA) | Cynnydd yng nghyfran y staff sy'n ymgysylltu'n gadarnhaol â'r Gofrestrfa Tir | 50% (Mawrth 2011 arolwg pwls) | 25.54% |
| I3 (DPA) | Cynnydd yng nghyfran y staff sy'n fodlon ag arweinyddiaeth a rheoli newid y Gofrestrfa Tir | 45% (Mawrth 2011 arolwg pwls) | 18% |
| **Cynnyrch a gwasanaeth arloesol** | | | |
| J1 | Cyflwyno Strategaeth Arallgyfeirio'r Gofrestrfa Tir, gofynion newid deddfwriaeth ac asesiad effaith i'r gweinidog erbyn Rhagfyr 2010 i ofyn am ganiatâd y gweinidog i gychwyn ymgynghoriad cyhoeddus | 31/12/2010 | Gofynion newid strategaeth a deddfwriaeth wedi'u cyflwyno a'u cymeradwyo Rhagfyr 2010 |
| J2 (DPA) | Cynyddu refeniw cynyddrannol gros o'r holl gynhyrchion a gwasanaethau add value gan £2.6 miliwn pellach yn uwch na 2009/10 gwirioneddol | £6.7 miliwn | £4.36 miliwn |
| J3 (DPA) | Ennill cyfraniad o gynhyrchion a gwasanaethau add value o 8% o incwm net o gostau uniongyrchol a chostau datblygu cynnyrch wedi'u dosrannu | 8% | 25% |
| J4 | Archwilio'n fanwl y ffactorau a'r ysgogiadau busnes sy'n cyfrannu at ganfyddiad cwsmeriaid o werth am arian gwasanaethau a chynhyrchion y Gofrestrfa Tir drwy segment, gwasanaeth a sianel y cwsmer | Gwerth penodol ar gyfer mesur(au) arian erbyn 31/03/2011 | Metrig Sgôr Hyrwyddwr Net wedi'i ddatblygu |

1 Y meysydd allweddol penodedig yw (a) y map mynegai (b) cofnod perchnogaeth ac (c) hawddfreintiau.
2 Yn seiliedig ar y datchwyddwr Cynnyrch Domestig Gros (GDP) a gyhoeddwyd gan Drysorlys EM ar 24 Mawrth 2010 (blwyddyn sylfaen 1992/3).
3 Cost yr uned mewn termau gwirioneddol yn y flwyddyn sylfaen 1992/3 oedd £30.65.
4 Argaeledd cyfartalog gwasanaethau allweddol diffiniedig wedi'u mesur drwy ddefnyddio'r Ganolfan Argaeledd Busnes (pecyn meddalwedd masnachol).
5 Digwyddiad effaith 1 yw un lle mae mwy na 50 y cant o'r gwasanaeth neu'r safle i lawr/allan.
6 Mae galwadau i'r ddesg wasanaeth a derfynir ar ôl 10 eiliad yn alwadau sy'n cael eu gadael.

# Atodiad 2
# Datganiad recriwtio

Mae'r wybodaeth ganlynol yn disgrifio gwaith y Gofrestrfa Tir ym maes recriwtio yn ystod 2010/2011.

Oherwydd y 'rhewi' ar draws y Gwasanaeth Sifil, mae ein recriwtio y tu allan i'r Gwasanaeth Sifil wedi cael ei gyfyngu yn ystod y cyfnod hwn i ddwy ymgyrch a ddechreuodd cyn 1 Ebrill 2010. Penodwyd dau ymgeisydd llwyddiannus o'r ymgyrchoedd hyn o'r tu allan i'r Gwasanaeth Sifil; Swyddog Gweithredol Cofrestru 1 a Swyddog Gweithredol Cofrestru 2 a gafodd eu penodi, ar benodiad tymor byr hyd at uchafswm o ddwy flynedd, fel eithriad i'r egwyddorion recriwtio a ganiateir gan Gomisiynwyr y Gwasanaeth Sifil.

Mae ein hymrwymiad parhaus at amrywiaeth a chyfle cyfartal wedi'i adlewyrchu yn ein gweithdrefnau recriwtio, sy'n cael eu monitro a'u gwerthuso'n barhaus. Mae'r ystadegau canlynol yn cyfeirio at y staff a nodwyd uchod.

| Gradd | Gwryw | Benyw | Lleiafrifoedd ethnig | Anabl |
|---|---|---|---|---|
| Swyddog Gweithredol Cofrestru 1 | - | 1 | 1 | - |
| Swyddog Gweithredol Cofrestru 2 | - | 1 | - | - |

Mae ein gweithdrefnau recriwtio yn cael eu cynnal ar sail cystadleuaeth deg ac agored, yn unol ag Egwyddorion Recriwtio Comisiynwyr y Gwasanaeth Sifil, Cod y Gwasanaeth Sifil, ac yn amodol ar fonitro mewnol.

TSO

Cyhoeddwyd gan TSO (Y Llyfrfa) ac ar gael drwy'r canlynol:

**Ar-lein**
www.tsoshop.co.uk

**Post, ffôn, ffacs ac e-bost**
TSO
Blwch Post 29, Norwich, NR3 1GN
Archebion ffôn/ymholiadau cyffredinol 0870 600 5522
Archebu trwy Linell Lo-Call y Senedd 0845 7 023474
Archebion ffacs: 0870 600 5533
E-bost: customer.services@tso.co.uk
Ffôn testun: 0870 240 3701

**Siopau'r Llyfrfa**
12 Bridge Street, Parliament Square,
Llundain SW1A 2JX
Archebion ffôn/ymholiadau cyffredinol: 020 7219 3890
Archebion ffacs: 020 7219 3866
E-bost: bookshop@parliament.uk
Rhyngrwyd: http://www.bookshop.parliament.uk

**TSO@Blackwell ac asiantaethau achrededig eraill**

**Gall cwsmeriaid archebu cyhoeddiadau hefyd gan:**
TSO Ireland
16 Arthur Street, Belfast BT1 4GD
Archebion ffôn/ymholiadau cyffredinol: 028 9023 8451

ISBN 978-0-10-297177-4
9 780102 971774